Rhif: **WG21431**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Llywodraeth Cymru

## Dogfen Ymgynghori



# Strategaeth Ddŵr i Gymru

Dyddiad Cyhoeddi: **7 Ebrill 2014**
Ymatebion erbyn **4 Gorffennaf 2014**

## Trosolwg

Mae'r ymgynghoriad deuddeg wythnos hwn yn gofyn am safbwyntiau ar Strategaeth Ddŵr i Gymru Llywodraeth Cymru sy'n cyflwyno ein cyfeiriad polisi ar gyfer dŵr.

## Sut i ymateb

Anfonwch eich ymateb i'r ymgynghoriad drwy gwblhau'r holiadur a anfonwyd gyda'r ddogfen hon.

Fel arall, gallwch anfon unrhyw sylwadau drwy e-bost neu'r post i'r cyfeiriad isod.

## Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

**Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.**

Mae fersiwn ar-lein ar gael o'r ddogfen ymgynghori a'r ymatebion yn: www.wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/?skip=1&lang=cy

## Manylion cyswllt

I gael rhagor o wybodaeth:

Rheolwr y Rhaglen Strategaeth Ddŵr
Y Gangen Dŵr
Yr Is-adran Ynni, Dŵr a Llifogydd
Llywodraeth Cymru
Adeiladau'r Goron
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

e-bost: dwr@cymru.gsi.gov.uk
Ffôn: 029 2082 5175

## Diogelu Data

### Sut y byddwn yn defnyddio'r farn a'r wybodaeth a roddwch inni

Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n gweithio ar y materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymdrin â nhw. Mae'n bosibl y bydd aelodau eraill o staff Llywodraeth Cymru yn gweld yr ymateb hefyd, er mwyn eu helpu i gynllunio ymgynghoriadau ar gyfer y dyfodol.

Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Mae'n bosibl hefyd y byddwn yn cyhoeddi'r ymatebion yn llawn. Fel arfer, bydd enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) yr unigolyn neu sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Mae hynny'n helpu i ddangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol. Os nad ydych yn dymuno i'ch enw a'ch cyfeiriad gael eu cyhoeddi, rhowch wybod inni yn ysgrifenedig wrth anfon eich ymateb. Byddwn wedyn yn cuddio'ch manylion.

Mae'n bosibl y bydd yr enwau a'r cyfeiriadau y byddwn wedi'u cuddio yn cael eu cyhoeddi'n ddiweddarach, er nad yw hynny'n debygol o ddigwydd yn aml iawn. Mae Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 yn caniatáu i'r cyhoedd gael gweld gwybodaeth a gedwir gan lawer o gyrff cyhoeddus, gan gynnwys Llywodraeth Cymru. Mae hynny'n cynnwys gwybodaeth sydd heb ei chyhoeddi. Fodd bynnag, mae'r gyfraith hefyd yn caniatáu i ni gadw gwybodaeth yn ôl dan rai amgylchiadau. Os bydd unrhyw un yn gofyn am gael gweld gwybodaeth a gadwyd yn ôl gennym, bydd rhaid inni benderfynu a ydym am ei rhyddhau ai peidio. Os bydd rhywun wedi gofyn inni beidio â chyhoeddi ei enw a'i gyfeiriad, bydd hynny'n ffaith bwysig i ni ei chadw mewn cof. Fodd bynnag, fe allai fod rheswm pwysig dros orfod datgelu enw a chyfeiriad unigolyn, er ei fod wedi gofyn i ni beidio â'u cyhoeddi. Byddem yn cysylltu â'r unigolyn ac yn gofyn am ei farn cyn gwneud unrhyw benderfyniad terfynol i ddatgelu'r wybodaeth.

© Hawlfraint y Goron 2014

# Rhagair gan y Gweinidog

Dŵr yw un o'n hasedau naturiol pwysicaf, ac mae'n rhan hollbwysig o ddiwylliant, treftadaeth a hunaniaeth genedlaethol Cymru. Mae'n ffurfio ein hamgylchedd a'n tirweddau naturiol, mae'n rhoi ymdeimlad o le inni yn y mynyddoedd, y dyffrynnoedd a'r arfordir ac mae'n gartref i fywyd gwyllt amrywiol Cymru. Mae'n darparu sail i ddatblygiad economaidd, gan gynnwys cyflenwadau ynni a thwristiaeth. Mae cael mynediad at ddŵr glân, a chydnerth hefyd yn rhan hollbwysig o gynnal iechyd a lles pawb sy'n byw, yn gweithio ac yn ymweld â Chymru.

Rwyf eisiau sicrhau bod gan Gymru amgylchedd dŵr ffyniannus sy'n cael ei reoli mewn ffordd gynaliadwy er mwyn cynnal cymunedau iach, busnesau llewyrchus a bioamrywiaeth. Rwyf eisiau i bobl Cymru dderbyn gwasanaethau dŵr o'r radd flaenaf, sy'n cynnig gwerth am arian a sicrhau bod pawb yn defnyddio ein dŵr mewn ffordd effeithlon a pharchus.

Yn yr ymgynghoriad hwn ar ein Strategaeth Ddŵr, rydym yn datgan sut yr ydym ni'n credu y dylid rheoli ein hadnoddau dŵr er mwyn cefnogi cymunedau a busnesau, ein helpu i ysgogi twf gwyrdd, sicrhau effeithlonrwydd o ran adnoddau, gwella cydnerthedd ac amrywiaeth ein hadnoddau naturiol a'n galluogi i drechu tlodi. Rydym yn cynnig ymagwedd fwy integredig at reoli dŵr, yn unol â'n hymagwedd gyffredinol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol. Dyma'r unig ffordd y gallwn fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu ein hadnoddau dŵr a sicrhau'r buddiannau mwyaf i Gymru.

Mae angen inni sicrhau hefyd bod gennym yr offer a'r pwerau sydd eu hangen arnom i gyflawni amcanion y Strategaeth. Yr wyf felly'n croesawu argymhellion Comisiwn Silk i ddiwygio'r sefyllfa gyfansoddiadol mewn cysylltiad â dŵr, a fydd yn golygu y bydd penderfyniadau sy'n cael eu gwneud ar ddŵr yng Nghymru yn fater i'r Cynulliad Cenedlaethol ac i Lywodraeth Cymru. Bydd hyn, fel y cadarnhawyd gan Gomisiwn Silk, yn sicrhau bod buddiannau pobl Cymru yn cael eu gwasanaethu'n well yn y dyfodol.

Rydym yn wynebu heriau sylweddol yn nhermau'r ffordd yr ydym yn rheoli ein hadnoddau naturiol. Bydd angen inni weithredu yn awr i sicrhau ein bod yn defnyddio'r adnoddau hyn mewn ffordd gynaliadwy, a sicrhau elw teg yr un pryd ar ein cyfalaf naturiol. Ni allwn gyflawni ein hamcanion drwy ddeddfwriaeth a chanllawiau yn unig – mae angen inni gydweithio gyda phawb sydd â budd mewn dŵr, rhannu arbenigedd a datblygu canlyniadau cyffredin y gallwn i gyd weithio i'w cyflawni. Mae'r ymgynghoriad ar y Strategaeth hon yn rhan bwysig o'r broses honno, a bydd yn helpu i hysbysu cyfeiriad polisi dŵr yng Nghymru yn y dyfodol.

**Alun Davies AC**
**Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol a Bwyd**

# Cynnwys


| | | Tudalen |
|---|---|---|
| | **Rhagair gan y Gweinidog** | 1 |
| **1** | **Cyflwyniad** | 3 |
| **2** | **Ein Blaenoriaethau ac Egwyddorion** | 7 |
| **3** | **Beth yw’r sefyllfa Bresennol?** | 11 |
| **4** | **Ein Cynigion** | 22 |
| | **4.1** Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau | 23 |
| | **4.2** Gweithredu i Leihau Llygredd | 35 |
| | **4.3** Gwella’r Ffordd yr ydym yn Cynllunio a Rheoli ein Gwasanaethau Dŵr | 41 |
| | **4.4** Fforddiadwyedd Dŵr a Darparu Gwasanaethau Gwych i Gwsmeriaid | 47 |
| | **4.5** Diogelu a Gwella Ansawdd Dŵr Yfed | 52 |
| | **4.6** Ymagwedd Newydd ar gyfer Draenio | 55 |
| | **4.7** Cefnogi Dulliau Cyflenwi | 61 |
| **5** | **Y Camau Nesaf** | 69 |
| | | |
| **Atodiad A** | Geirfa | 70 |
| **Atodiad B** | Ffurflen Ymateb | 79 |
| | | |

# 1. Cyflwyniad

Mae'r Strategaeth hon yn cyflwyno ein cyfeiriad polisi yn yr hirdymor mewn cysylltiad â dŵr. Rydym yn ceisio sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion hirdymor amgylchedd sy'n gynaliadwy a chryf gyda'r angen i sicrhau bod adnoddau dŵr a gwasanaethau dŵr gwastraff digonol a dibynadwy ar gael i annog twf cynaliadwy ac i greu swyddi.

Un o brif elfennau ein dull gweithredu yw datblygu ymagwedd fwy integredig at reoli dŵr, fel rhan o'n gwaith ehangach o reoli adnoddau naturiol. Bydd mabwysiadu ymagwedd fwy integredig at reoli ein hadnoddau dŵr yn helpu i hyrwyddo dull cydgysylltiedig o reoli dŵr, tir ac adnoddau cysylltiedig. Bydd hyn, yn ei dro, yn ein galluogi i sicrhau'r buddiannau economaidd a chymdeithasol gorau mewn ffordd deg, gan sicrhau bod ecosystemau hollbwysig a'r amgylchedd yn cael eu diogelu'r un pryd. Credwn y bydd yr ymagwedd hon yn cefnogi twf gwyrdd drwy ddarparu adnodd hollbwysig i fusnesau, yn ogystal â darparu cyfleoedd cyflogaeth newydd.

Er mwyn cynorthwyo'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth hon, rydym wedi trefnu cyfres o weithdai[1] ac wedi gofyn am gyngor nifer o unigolion a sefydliadau. Mae eu harbenigedd a'u gwybodaeth ym maes rheoli dŵr wedi bod yn werthfawr iawn i ni wrth i ni lunio ein cynigion. Yr ydym hefyd wedi ystyried tri adolygiad annibynnol diweddar o'r diwydiant dŵr a'r dulliau o'i reoleiddio.[2][3]

### Cwmpas y Strategaeth

Yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol integredig, mae'r ymgynghoriad ar y Strategaeth hon yn gofyn am sylwadau ar faterion sy'n gysylltiedig â rheoli ein systemau dŵr, yn cynnwys yr holl ddyfroedd mewnol, aberoedd a dyfroedd arfordirol. Yn benodol, mae'n canolbwyntio ar sut gallwn wella gwytnwch y system ddŵr gyfan er mwyn gwneud y gorau o'i buddiannau a lleihau costau i ddefnyddwyr a chwmnïau dŵr. Mae cysylltiadau agos yn bodoli rhwng y strategaeth hon a nifer o feysydd polisi ar draws Llywodraeth Cymru. Yr ydym wedi datgan y cysylltiadau hyn yn glir drwy'r ddogfen ac wedi sicrhau bod ein hymagwedd yn cydweddu â pholisïau presennol neu bolisïau sy'n cael eu datblygu. Yn eu plith mae:

- Rheoli Adnoddau Naturiol. Bydd y Strategaeth Ddŵr yn hysbysu'r Datganiad Polisi Cenedlaethol ar Adnoddau Naturiol, sy'n cael ei

[1] Martin Cave 'Independent Review of Competition and Innovation in Water Markets' (Ebrill 2009) - https://www.gov.uk/government/publications/competition-and-innovation-in-the-water-markets-cave-review
[2] Anna Walker - 'Independent Review of Charging for Household Water and Sewerage Services' (Rhagfyr 2009) - https://www.gov.uk/government/publications/the-independent-review-of-charging-for-household-water-and-sewerage-services-walker-review
[3] David Gray - 'Review of Ofwat and Consumer Representation in the Water Sector (Awst 2011)' - https://www.gov.uk/government/publications/review-of-ofwat-and-consumer-representation-in-the-water-sector

gynnig yn y Papur Gwyn ar Fil yr Amgylchedd[4], a'r ymagweddau arfaethedig i gynllunio adnoddau naturiol ar sail ardaloedd penodol. Bydd y rhain, yn eu tro, yn helpu i ymgorffori ymagweddau presennol sy'n seiliedig ar ddalgylchoedd gyda chyfleoedd rheoli tir ehangach.

- Cynllunio. Mae Llywodraeth Cymru yn cynnal ymgynghoriad yn awr ar y Bil Cynllunio arfaethedig[5]. Mae hyn yn cynnwys cynigion i wella'r system gynllunio yng Nghymru er mwyn helpu i ddarparu'r cartrefi, y swyddi a'r seilwaith sydd eu hangen ar genedlaethau heddiw ac yn y dyfodol.
- Rheoli Perygl Llifogydd. Mae dull gweithredu Llywodraeth Cymru at berygl llifogydd yn cael ei gyflwyno yn ei Strategaeth Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol[6]. Mae rheoli'r system ddŵr yn ei chyfanrwydd yn elfen hollbwysig i'r dull gweithredu hwn.
- Polisi Y Môr a Physgodfeydd. Ym mis Tachwedd 2013, fe wnaethom gyhoeddi Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer Môr a Physgodfeydd Cymru, a oedd yn cyflwyno'r cyfeiriad ar gyfer yr Is-adran newydd ar gyfer y Môr a Physgodfeydd. Mae hyn yn gam pwysig yn y broses o ddarparu dull cynhwysfawr ac integredig o lywodraethu ar gyfer y môr yng Nghymru ac adlewyrchu'r berthynas rhwng y moroedd a'r dyfroedd mewndirol ac arfordirol[7].
- Bioamrywiaeth. Byddwn yn lansio Cynllun Adfer Natur, a fydd yn seiliedig ar ymawgedd ecosystem newydd, a byddwn yn ymgynghori ar hyn yn ystod haf 2014.
- Rheoli Tir. Bydd adolygiad annibynnol ar gydnerthedd ffermio yn cyhoeddi ei ganfyddiadau yn 2014, a chafodd yr ymgynghoriad terfynol ar y Cynllun Datblygu Gwledig ei gyhoeddi ym mis Chwefror 2014[8].
- Mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyflwyno deddfwriaeth er mwyn ymgorffori datblygiad cynaliadwy yn holl weithgareddau sefydliadau'r sector cyhoeddus. Gwneir hyn drwy:
    - Ffocws clir ar beth ddylai sefydliadau'r gwasanaethau cyhoeddus geisio ei gyflawni er mwyn sicrhau lles economaidd, cymdeithasol ac amgylchedol Cymru yn yr hirdymor.
    - Hysbysu sefydliadau'r sector cyhoeddus[9] sut y gallant flaenoriaethu'r hyn maent yn ei wneud er mwyn sicrhau'r lles

[4] Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd -- http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?skip=1&lang=cy
[5] Y Bil Cynllunio - http://wales.gov.uk/consultations/planning/draft-planning-wales-bill/?skip=1&lang=cy
[6] Strategaeth Genedlaethol ar gyfer Rheoli Perygl Llifogydd ac Erydu Arfordirol - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/flooding/nationalstrategy/strategy/?skip=1&lang=cy
[7] Cynllun Gweithredu Strategol ar gyfer y Môr a Physgodfeydd - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/foodandfisheries/fisheries/walesfisheriesstrategy/?skip=1&lang=cy
[8] Cynllun Datblygu Gwledig – Ymgynghoriad http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/rural-development-plan-for-wales-2014-2020/?skip=1&lang=cy
[9] Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd -

economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol gorau i Gymru yn yr hirdymor.
  - Sicrhau bod sefydliadau'r sector cyhoeddus yn gallu monitro ac esbonio eu perfformiad a'u heffeithiolrwydd.

**Strwythur y Strategaeth**

Mae'r Strategaeth yn datgan sut y byddwn yn gweithio gydag eraill er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau dŵr.

Mae **Adran 2** yn dangos sut mae ein polisi ar gyfer dŵr yn cysylltu â pholisi cyffredinol Llywodraeth Cymru, ac mae'n esbonio'r blaenoriaethau a'r egwyddorion y byddwn yn eu defnyddio wrth gyflawni'r strategaeth.

Yn **Adran 3**, yr ydym yn darparu gwybodaeth gefndir gryno ar reoli'r amgylchedd dŵr yng Nghymru, a'r heriau rydym yn eu hwynebu.

Yn **Adran 4**, rydym yn rhoi amlinelliad o'n cynigion manwl:

- **Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnes** - Mae'r adran hon yn esbonio sut rydym yn bwriadu rheoli ein hadnoddau dŵr yn gynaliadwy, diwallu anghenion cymdeithas a chynnig cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd, ond gan sicrhau ein bod yn diogelu ac yn gwella ein hamgylchedd naturiol.
- **Gweithredu i Leihau Llygredd** - Mae'r adran hon yn cyflwyno ein cynigion ar gyfer mynd i'r afael â llygredd wrth i reolwyr tir a busnes, a phob un ohonom ni fel unigolion, fabwysiadu arferion a gweithdrefnau da.
- **Gwella'r Ffordd rydym yn Cynllunio ac yn Rheoli Ein Gwasanaethau Dŵr** - Mae'r adran hon yn esbonio sut y byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau dŵr yn parhau i fod yn gadarn a chynaliadwy, a'u bod yn cefnogi gwasanaethau o safon uchel heddiw ac yn y dyfodol.
- **Fforddiadwyedd Dŵr a Darparu Gwasanaethau Gwych i Gwsmeriaid** - mae'r adran hon yn cyflwyno ein cynigion ar gyfer sicrhau bod pobl a busnesau yng Nghymru yn gallu derbyn gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy, a'u bod yn wasanaethau cynaliadwy, diogel, sicr a dibynadwy.
- **Diogelu a Gwella Ansawdd Dŵr Yfed** - Mae'r adran hon yn cyflwyno ein dull gweithredu i gynnal safon uchel bresennol ansawdd ein dŵr yfed cyhoeddus a sicrhau bod unrhyw broblemau ansawdd yn cael eu trin yn effeithiol.
- **Dull Gweithredu newydd ar gyfer Draenio** - Mae'r adran hon yn cyflwyno ein dull gweithredu ar gyfer sicrhau bod dŵr gwastraff a dŵr arwyneb yn cael eu rheoli mewn ffordd integredig.
- **Cefnogi Cyflawni** - Mae'r adran hon yn cyflwyno nifer o gynigion cyffredinol a fydd yn cefnogi'r gwaith o gyflawni ein hamcanion a'n canlyniadau strategol.

---

http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?skip=1&lang=cy

Mae **Adran 5** yn cyflwyno ein camau nesaf ar gyfer datblygu’r cynigion yn y strategaeth ddrafft hon.

Mae’r **Atodiadau** yn cynnwys Geirfa, crynodeb o Gwestiynau’r Ymgynghoriad a Thempled ar gyfer Ymateb i’r Ymgynghoriad.

# 2. Ein Blaenoriaethau a'n Hegwyddorion

## Ein Blaenoriaethau ar gyfer Gweithredu

Mae pedair egwyddor allweddol yn sail i'r gwaith o ddatblygu'r Strategaeth hon[10] ac mae'r ffordd yr ydym yn rheoli dŵr yn gallu cyfrannu'n sylweddol i'n helpu i gyflawni'r blaenoriaethau hyn (gweler Ffigur 1). Y blaenoriaethau hyn yw:

- Ysgogi twf gwyrdd;
- Defnyddio adnoddau'n effeithlon;
- Gwella cydnerthedd ac amrywiaeth; a
- Trechu tlodi.

*Ffigur 1 – Y Prif Flaenoriaethau ar gyfer Gweithredu a Chanlyniadau Strategol*




**[i] Gyrru Twf Gwyrdd**
Mae twf gwyrdd yn ffordd o feithrin twf a datblygiad economaidd, a sicrhau'r un pryd bod asedau naturiol yn parhau i ddarparu'r adnoddau a'r gwasanaethau amgylcheddol y mae ein lles yn ddibynnol arnynt. Rydym yn awyddus i greu'r amodau sy'n addas ar gyfer twf economaidd sy'n gynaliadwy, sy'n garbon isel, sy'n lanach (lleihau effeithiau llygredd ac

[10] 'Creu Dyfodol Cadarnach a Mwy Ffyniannus' - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/consmanagement/natural-resources-management/policy-statement/?skip=1&lang=cy

effeithiau amgylcheddol), sy'n fwy cydnerth (i newid yn yr hinsawdd a pheryglon naturiol) ac sy'n gyfiawn yn gymdeithasol.

Bydd mabwysiadu agwedd fwy integredig at reoli dŵr ac adnoddau naturiol cyffredinol, yn ein helpu i symud yn agosach at ein nod twf gwyrdd. Mae angen cyflenwadau diogel a fforddiadwy o ddeunyddiau crai, ac rydym yn bwriadu cyflawni hyn drwy newid y pwyslais ar economi linol, lle rydym yn defnyddio deunyddiau crai i wneud cynnyrch a fydd, yn y pendraw, yn wastraff, i economi sy'n fwy 'cylchol', lle bydd gwastraff yn cael ei leihau, mae arferion ailddefnyddio ac ailgylchu yn gyffredin a lle byddwn yn gwneud y defnydd gorau o bob un o'n hadnoddau.

**[ii] Defnyddio adnoddau'n effeithlon**
Mae defnyddio adnoddau'n effeithlon yn hollbwysig os ydym am leihau allyriadau carbon, gan arbed arian a lleihau biliau. Mae cysylltiadau agos iawn rhwng rheoli ein hadnoddau dŵr a rheoli'r tir. Mae cysylltiadau pwysig hefyd rhwng y defnydd a wneir o ynni ac allyriadau carbon cysylltiedig, a'r cemegau sy'n cael eu defnyddio i drin dŵr.

**[iii] Cyfoethogi Cydnerthedd ac Amrywiaeth**
Mae ein cymdeithas yn ddibynnol ar gydnerthedd ein hadnoddau naturiol, yn cynnwys ein hadnoddau dŵr. Rydym yn awyddus i gynyddu cydnerthedd ac amrywiaeth ein hadnoddau naturiol a'r sectorau allweddol sy'n ddibynnol arnynt, yn arbennig yng ngoleuni newid hinsawdd. Bydd Bil yr Amgylchedd yn sicrhau bod ecosystemau mwy cydnerth yn sail i'r penderfyniadau a wneir ar ddŵr a meysydd eraill. Drwy'r gwaith ar gynllunio adnoddau naturiol ar sail ardaloedd, byddwn yn ehangu ein gwybodaeth am y cysylltiadau rhwng ein hecosystemau cyfan, ein heconomi a'n cymunedau a'r ffordd y gallwn reoli ein hamgylchedd dŵr er mwyn creu llawer o fuddiannau.

**[iv] Trechu Tlodi**
Rydym yn awyddus i sicrhau gwasanaethau dŵr teg a fforddiadwy i bawb ac rydym yn ymrwymedig i leihau canran y bobl sydd â phroblemau fforddio dŵr yng Nghymru, yn unol â'n nodau ehangach o drechu tlodi yng Nghymru.

## Ein hegwyddorion allweddol

Bydd nifer o egwyddorion allweddol yn ategu'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth hon, a fydd yn pennu'r cyfeiriad strategol hirdymor ar gyfer Llywodraeth Cymru. Bydd y rhain yn llywio'r ffordd rydym yn gweithio. Rydym yn canolbwyntio ar sicrhau'r buddiannau mwyaf yn yr hirdymor, i'r economi a thwf, i'r gymdeithas ac i'r amgylchedd.

- **Datblygu Cynaliadwy**

Mae datblygu cynaliadwy yn greiddiol, ac mae'n ategu holl bolisïau Llywodraeth Cymru. Rydym yn ceisio gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau ar hyd a lled Cymru,

a sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenhedlaeth ni ac i genedlaethau'r dyfodol, mewn ffyrdd sy'n hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal ac sy'n gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol a pharchu ei gyfyngiadau.

- **Agwedd integredig at reoli adnoddau dŵr**

Gan ddefnyddio'r dull rheoli ar lefel yr ecosystem, byddwn yn gweithio i reoli ein hadnoddau dŵr mewn ffordd fwy integredig. Ein hamcan yw hyrwyddo proses gydgysylltiedig o ddatblygu a rheoli dŵr, tir ac adnoddau cysylltiedig er mwyn creu'r lles economaidd a chymdeithasol mwyaf mewn ffordd deg, a gwella cydnerthedd ein hecosystemau yr un pryd. Mae hyn yn adeiladu ar ein hagwedd gyffredinol at reoli ein hadnoddau naturiol.

Bydd hyn yn galw am gysylltiadau clir i feysydd polisi eraill, megis arbed ynni, newid hinsawdd, perygl llifogydd a rheoli tir. Bydd hyn hefyd yn cynnwys cyfranogiad gan y cyhoedd yn gyffredinol, a bydd yn galw am well dealltwriaeth ymhlith y gymdeithas gyfan o'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan yr amgylchedd dŵr.

- **Cynllunio ar gyfer yr hirdymor**

Byddwn yn ystyried ac yn cynllunio ar gyfer buddiannau hirdymor Cymru. Byddwn yn rhoi ystyriaeth ofalus i effaith cynigion polisi, yn unigol a chronnus, er mwyn sicrhau ein bod yn gallu cyflawni'r cydbwysedd cywir rhwng buddsoddi ar gyfer yr hirdymor, a chadw costau cyfredol biliau dŵr ar lefel realistig. Mae'n rhaid i gynigion polisi neu fuddsoddiadau arwain at fudd hirdymor i bobl Cymru, wrth sicrhau'r un pryd, ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y buddiannau a'r cyfleoedd economaidd sy'n deillio o ddŵr, a sicrhau nad ydym yn oedi buddsoddiadau er mwyn gwneud arbedion yn y tymor byr, a hynny ar draul talwyr biliau'r dyfodol.

- **Fframwaith rheoleiddio clir a thryloyw**

Mae cyflawni ein cynigion yn ddibynnol ar reoleiddio effeithiol. Rydym yn darparu cyfeiriad strategol ar gyfer y polisi ar ddŵr yng Nghymru, ond mae wedi'i fframio o fewn cyfres gymhleth o gyfrifoldebau rheoliadol a gweithredol. Rydym yn awyddus i sicrhau system reoliadol glir a chydlynus - yn economaidd ac yn amgylcheddol - sy'n seiliedig ar ganlyniadau ac sy'n cyflawni gofynion pobl a pholisïau Cymru. Mae'n hollbwysig ein bod yn gallu pennu polisi ar gyfer yr adnodd pwysig hwn, a hynny yn ein cyd-destun ein hunain, ac osgoi polisïau anghyson rheoleiddwyr a chwmnïau dŵr gwahanol, a allai godi o dan y system reoleiddio bresennol. Mae angen i ni sicrhau bod gennym system reoleiddio deg ac effeithiol, nad yw'n rhoi beichiau diangen ar sefydliadau perthnasol.

- **Gwell atal na gwella**

Byddwn yn wynebu nifer o heriau, sy'n cael eu cyflwyno yn y bennod nesaf, dros y blynyddoedd nesaf, ac mae angen i ni fod yn rhagweithiol, yn hytrach nac yn ymatebol, wrth geisio canfod yr atebion gorau i'r heriau hyn. Credwn ei bod yn well atal na gwella, ac y bydd mabwysiadu dull gweithredu o'r fath yn fwy cost effeithiol, ar gyfer arian cyhoeddus yn ogystal â'r economi yn ehangach, yn yr hirdymor. Rydym yn ceisio chwilio am atebion sy'n mynd i'r afael ag achosion sylfaenol problemau, yn hytrach na thrin symptomau methiant sylfaenol.

- **Penderfyniadau a pholisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth**

Byddwn yn seilio ein polisïau ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni'r canlyniadau cywir i bobl Cymru. Pan fyddwn yn nodi angen am dystiolaeth ychwanegol, byddwn yn cydweithio'n agos gyda rheoleiddwyr, diwydiant, y byd academaidd a phartïon eraill sydd â diddordeb, i gomisiynu neu gynnal y gwaith ymchwil angenrheidiol. Os yw'n briodol, byddwn yn defnyddio "Gwyddoniaeth Dinasyddion", lle bydd unigolion yn casglu gwybodaeth am eu hamgylchedd lleol.

- **Cydweithio**

Bydd gweithredu llwyddiannus er mwyn gwella ein hamgylchedd dŵr yn galw am gronni arbenigedd ac agwedd gydweithredol ar gyfer cyflawni, a rhannu ein syniadau a'n profiadau o sefydliadau amrywiol sy'n gysylltiedig â dŵr. Er mwyn cyflawni ein gweledigaeth, bydd angen i nifer eang o randdeiliaid weithredu, yn cynnwys cwmnïau dŵr a rheoleiddwyr, busnesau, y rhai sy'n berchen ar dir ac sy'n rheoli tir, cyrff cyhoeddus, grwpiau gwirfoddol, cymunedau lleol ac unigolion. Bydd llawer o'r gwaith hwn yn galw am waith ar lefel leol, a chysylltu â grwpiau megis Grwpiau Cyswllt Cynlluniau Rheoli Basn Afon. Bydd gan Cyfoeth Naturiol Cymru rôl hollbwysig yn y dyfodol, yn hwyluso'r gwaith o ddatblygu cyfrifoldeb ar y cyd, drwy weithredu'r agwedd sy'n seiliedig ar ardal a gyflwynir yn y Papur Gwyn ar yr Amgylchedd[11].

[11] Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd - http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?skip=1&lang=cy


# 3. Beth yw'r sefyllfa bresennol?

## Dŵr yng Nghymru

Mae gan Gymru hinsawdd arforol, sydd wedi'i nodweddu gan dywydd sy'n aml yn gymylog, gwlyb a gwyntog, ond mwyn. Er y gall hyn awgrymu bod gan Gymru ddigonedd o ddŵr ar gyfer ei hamgylchedd, ei phobl a'i busnesau, mae'r darlun yn fwy cymhleth mewn gwirionedd. Mae topograffi a daeareg Cymru yn golygu y gall fod yn anodd harneisio'r adnodd naturiol hwn – ni allwn ddibynnu ar gyflenwadau dŵr daear, ac felly mae'n rhaid i ni geisio casglu a storio mwy o'n dŵr mewn cronfeydd dŵr. Mae'r diwydiannau sydd wedi ysgogi ein datblygiad diwydiannol wedi dibynnu'n helaeth ar ddŵr.

Felly, nid oes gennym gymaint o ddŵr ag yr ydym yn dychmygu, er mwyn gallu diwallu gofynion amrywiol yr amgylchedd naturiol, pobl a busnesau. Mae Ffigur 2 yn dangos lefel yr adnoddau dŵr sydd gennym yng Nghymru, sy'n cael ei mynegi fel argaeledd dŵr ar gyfer echdynwyr newydd. Er bod dŵr ar gael yn y rhan fwyaf o ddalgylchoedd yng ngorllewin a gogledd Cymru, mae adnoddau dŵr yn rhan ddwyreiniol y wlad wedi'u hymrwymo'n helaeth. Felly, yn rhai o'r dalgylchoedd hyn, gallai echdynnwr newydd fod ar gael am lai na 30% o'r amser.


*Ffigur 2 – Argaeledd Adnoddau Dŵr yng Nghymru*



Mae’r ffordd rydym yn rheoli dŵr yng Nghymru wedi datblygu’n fawr dros amser. Yn hanesyddol, rydym wedi defnyddio’r amgylchedd dŵr i wasanaethu anghenion cymdeithas, heb roi llawer o ystyriaeth i’r amgylchedd naturiol. Er enghraifft, codwyd argaeau i bweru’r melinau, gan darfu ar lwybr pysgod mudol ac wrth i’r ardaloedd trefol ddatblygu, cafodd afonydd a nentydd eu trin fel sianelau draenio ac mewn rhai achosion yr oeddent yn garthffosydd. Yn fwy diweddar, rydym wedi darparu cymhellion ar gyfer arferion rheoli tir, heb ddeall goblygiadau’r rhain ar gyfer yr amgylchedd yn gyffredinol, er enghraifft, annog draenio ucheldiroedd mawn at ddibenion amaethyddol a choedwigaeth, sy’n creu canlyniadau perygl o lifogydd ac sy’n effeithio ar ansawdd y dŵr ymhellach i lawr yr afon.

Ar hyn o bryd, mae gan ychydig dros draean o’n cyrff dŵr statws ecolegol da (o dan delerau’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr[12]) a ddangosir yn Ffigur 3 isod. Mae'r rhesymau dros fethu yn gymhleth ac yn amrywiol a cheir crynodeb ohonynt yn Ffigur 4. Mae angen i ni wella’r sefyllfa hon er mwyn diogelu cynaliadwyedd, cydnerthedd ac amrywiaeth ein hamgylchedd dŵr a’n hecosystemau yn gyffredinol yn y dyfodol, y mae ein cymdeithas a’n busnesau yn dibynnu arnynt.


*Ffigur 3 – Cyrff Dŵr yng Nghymru sydd â statws ecolegol da*




[12] Cyfarwyddeb Fframwaith Dŵr - http://ec.europa.eu/environment/water/water-framework/

Rydym yn deall yn awr nad yw dull gweithredu ar faterion unigol yn ystyried y goblygiadau ehangach i'r gymdeithas a'r amgylchedd. Mae ein dulliau presennol o reoli'r amgylchedd dŵr yn ceisio darparu fwyfwy ar gyfer anghenion natur, cefnogi ac adfer ecosystemau a'r gwasanaethau maent yn eu darparu, yn ogystal â chefnogi anghenion cymdeithas.

*Ffigur 4 – Y Rhesymau dros Fethiant y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr*[13]




Yn benodol, mae nifer y cyrff dŵr sy'n cyflawni statws ecolegol da yn debygol o gynyddu erbyn diwedd y Cylch Cynllunio i Reoli Basn Afon[14] yn 2015. Yn y gyfres nesaf o gynlluniau Rheoli Basn Afon, a fydd yn cael eu cyhoeddi yn 2015, byddwn yn esbonio sut y byddwn yn ceisio cyflawni cydymffurfiaeth o 100% â'r Gyfarwyddeb erbyn 2021. Mae gennym 100 o ddyfroedd ymdrochi yng Nghymru, sydd wedi'u dynodi o dan y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi Ewropeaidd[15], gyda 89%[16] o'r rhain yn cyflawni'r safon uwch, o gymharu ag 80% ar draws y DU gyfan. Ein nod yw cyflawni'r lefel uchaf bosibl o gydymffurfiaeth gyda'r Gyfarwyddeb hon a'r Gyfarwyddeb Dyfroedd Ymdrochi Diwygiedig, a fydd yn dod i rym erbyn mis Ionawr 2015.

[13] Mae'r crynodeb hwn yn seiliedig ar ddata o fis Chwefror 2013. Mae'n cynnwys data Rhesymau dros Fethu o 2009 ymlaen ar gyfer pob math o ddŵr (h.y. afonydd, llynnoedd, dŵr trosiannol, arfordirol a dŵr daear).

[14] Cynlluniau Rheoli Basn Afon– Bydd Cynllun Rheoli Basn Afon yn cael ei gynhyrchu ar gyfer pob ardal basn afon, bob chwe blynedd. Bydd y cynllun yn disgrifio ardal y basn afon, a'r pwysau sydd ar yr amgylchedd dŵr. Mae'n dangos beth mae hyn yn ei olygu i gyflwr presennol yr amgylchedd dŵr yn ardal y basn afon, a pha gamau fydd yn cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r pwysau hyn. Mae'n nodi pa welliannau sy'n bosibl, a sut y bydd y camau gweithredu yn gwneud gwahaniaeth i'r amgylchedd lleol – y dalgylchoedd, yr aberoedd, yr arfordir a dŵr daear.

[15] Y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi - http://ec.europa.eu/environment/water/water-bathing/

[16] Canlyniadau Ansawdd Dŵr Ymdrochi Cymru 2013 - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/bathing-water-quality-and-beaches/?skip=1&lang=cy

**Datblygiad y gwasanaethau dŵr**

Mae'r gwasanaethau dŵr sy'n cael eu darparu wedi datblygu dros y 150 o flynyddoedd diwethaf, ac mae wedi bod yn sail i'n datblygiad ni fel cymdeithas. Mae cyflenwadau dŵr yfed diogel a dibynadwy yn hollbwysig er mwyn sicrhau iechyd y cyhoedd a lles economaidd. Mae'r cyflenwadau hyn yn cael eu darparu ar gyfer y rhan fwyaf o eiddo a busnesau yng Nghymru gan gyflenwadau dŵr cyhoeddus sy'n cael eu gweithredu gan gwmnïau dŵr statudol, yn bennaf, Dŵr Cymru, Dŵr Dyffryn Dyfrdwy a Severn Trent Water. Mae llawer o'r dŵr hwn yn dod yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol (drwy afonydd) o gronfeydd dŵr, a adeiladwyd yn bennaf yn y 19eg a dechrau'r 20fed ganrif. Cafodd y cronfeydd dŵr hyn eu hadeiladu i ddarparu cyflenwadau diogel i'w defnyddio yng Nghymru yn ogystal ag yng Nghanolbarth Lloegr a Gogledd Orllewin Lloegr. Mae'r cronfeydd dŵr hyn yn parhau i ddarparu cyflenwad hollbwysig i'r ardaloedd hyn - mae mwy na thraean o gyfaint y dŵr sy'n cael ei dynnu yng Nghymru, yn cyflenwi cwsmeriaid yn Lloegr. Yn ogystal â chyflenwadau sy'n cael eu tynnu o ddŵr wyneb, mae cyfran fach (tua 3%) o gyflenwadau dŵr cyhoeddus yn dod o ffynonellau dŵr daear.

Mae'r cwmnïau dŵr statudol yn gweithredu nifer o weithfeydd trin dŵr a rhwydweithiau dosbarthu dŵr sy'n trin ac yn cludo dŵr, a sicrhau bod safon y dŵr hwnnw yn briodol i'w yfed gan y cyhoedd.

Mewn ardaloedd gwledig, mae natur wasgaredig aneddiadau yn golygu nad yw wedi bod yn hyfyw yn economaidd i ddarparu cyflenwad dŵr cyhoeddus. Yn yr achosion hyn, mae gan berchenogion eiddo gyflenwadau dŵr preifat, yn bennaf o ffynhonnau, ffrydiau a thyllau turio, er bod rhai yn defnyddio dŵr o nentydd neu afonydd. Os bydd y rhain wedi'u diogelu, eu gosod a'u cynnal a'u cadw yn ddigonol, gallant ddarparu cyflenwad dŵr addas. Fodd bynnag, gall y ffynonellau bychain hyn fod yn agored i lygredd a chyfnodau o sychder.

Cafodd cyfanswm o 17,700[17] o gyflenwadau dŵr preifat eu cofnodi gan awdurdodau lleol yng Nghymru yn 2012. Mae awdurdodau lleol hefyd yn gyfrifol am reoleiddio systemau dosbarthu preifat, sy'n cludo cyflenwadau'r prif bibellau gan y cwmnïau statudol a'u dosbarthu ymlaen (er enghraifft ar safle cartrefi symudol).

Ar ôl i'r dŵr gael ei ddefnyddio, rydym yn dibynnu ar rwydwaith o garthffosydd i gasglu a chael gwared ar garthion. Roedd cyfraniad y rhwydwaith hwn yn hollbwysig yn nhwf ein dinasoedd a'n trefi yn oes Fictoria. Fodd bynnag, roedd y systemau draenio hyn ond yn cludo'r carthion, yn gymysg â dŵr glaw a dŵr wyneb yn aml, i bwynt cyfleus i'w ryddhau i'r amgylchedd dŵr, ac roedd hynny'n creu llygredd dŵr a risgiau difrifol i iechyd y cyhoedd.

---

[17] Drinking Water 2012 – Private Water Supplies in Wales July 2013 – Adroddiad gan Brif Arolygwr Dŵr Yfed Cymru - http://dwi.defra.gov.uk/about/annual-report/2012/

Mae systemau carthffosiaeth wedi datblygu ers hynny, yn sgîl cyflwyno systemau draenio ar wahân ar gyfer carthffosiaeth fudr a dŵr wyneb ar ddatblygiadau newydd. Yna, bydd y dŵr wyneb yn cael ei ryddhau'n uniongyrchol i'r amgylchedd dŵr, heb gael ei drin, yn seiliedig ar y rhagdybiaeth nad yw'n llygredig. Mae'r dull hwn o wahanu wedi bod yn effeithiol wrth reoli'r system carthffosiaeth fudr sy'n weddill ac mewn gweithfeydd trin carthffosiaeth.

Cafodd y systemau trin eu datblygu drwy'r 20fed ganrif, er mwyn lleihau effaith gollyngiadau carthion. Mae'r dechnoleg drin wedi datblygu o ffermydd carthion a thanciau gwahoddi syml, i systemau trin modern sydd ond yn defnyddio cyfran fach o'r tir a ddefnyddiwyd ar y ffermydd gwreiddiol. Mae'r gweithfeydd trin cymhleth hyn yn cynhyrchu elifion o'r safon uchaf, sy'n diwallu'r safonau modern ar gyfer rhyddhau i'r amgylchedd dŵr. Fodd bynnag, maent yn defnyddio llawer iawn o ynni ac maent yn cynhyrchu lefelau sylweddol o allyriadau carbon.

Mae angen i slwtsh carthion a gaiff ei gynhyrchu yn y broses drin gael ei brosesu ymhellach cyn y gellir ei ddychwelyd i'r tir fel cyflyrydd pridd/gwrtaith neu ei losgi er mwyn adfer ynni. Yng Nghymru, mae'r ffocws ar dreulio ar gyfer cynhyrchu ynni at ddefnydd amaethyddol ac nid yw slwtsh carthion yn cael ei losgi.

Mewn ardaloedd gwledig, nad ydynt yn cael eu gwasanaethu gan systemau carthffosiaeth, mae carthffosiaeth fudr o'r rhan fwyaf o eiddo yn cael ei drin gan ddefnyddio tanc septig a rhyddhau i'r tir. Perchenogion eiddo unigol sy'n gyfrifol am y systemau hyn, ac mae'n rhaid iddynt eu cofrestru gyda Cyfoeth Naturiol Cymru.


### Darparu gwasanaethau dŵr a rheoleiddio amgylcheddol yng Nghymru

Awdurdodau trefol oedd yn gyfrifol am ddarparu gwasanaethau dŵr o oes Fictoria ymlaen. Ar ôl i'r awdurdodau dŵr gael eu creu ym 1974, cafodd system ranedig o systemau cyflenwi dŵr, trin carthion, rheoli perygl o lifogydd a rheoleiddio amgylcheddol eu huno. Cafodd yr awdurdodau dŵr eu sefydlu i adlewyrchu dalgylchoedd afonydd. Yng Nghymru, roedd dau Awdurdod Dŵr, sef Severn Trent a oedd yn gwasanaethu dalgylch afon Hafren a chanol Cymru, ac Awdurdod Datblygu Dŵr Cenedlaethol Cymru a oedd yn gwasanaethu gweddill Cymru a rhai rhannau o Loegr. Hefyd, roedd Cwmni Dŵr Wrecsam a Dwyrain Sir Ddinbych a Chester Waterworks Company (a gawsant eu cyfuno ym 1997 fel Cwmni Dŵr Dyffryn Dyfrdwy) yn gyfrifol am gyflenwi dŵr yn ardal Wrecsam a Chaer.

Cafodd y diwydiant dŵr ei breifateiddio ym 1989, ac o ganlyniad i hyn, yr Awdurdod Afonydd Cenedlaethol (a ddaeth yn rhan o Asiantaeth yr Amgylchedd ym 1996 a Cyfoeth Naturiol Cymru yn 2013) oedd yn gyfrifol am reoli'r perygl o lifogydd a rheoleiddio'r amgylchedd. Cafodd Dŵr Cymru a Severn Trent Water eu penodi i gyflenwi dŵr a gwasanaethau carthffosiaeth yn eu hardaloedd eu hunain, gyda chwmnïau yng Nghaer a Wrecsam yn darparu cyflenwadau dŵr cyhoeddus yn eu hardaloedd, nes

iddynt uno i greu Cwmni Dŵr Dyffryn Dyfrdwy.  Mae dau gwmni arall, Albion Water a Scottish and Southern, wedi cael eu penodi ers hynny i gyflenwi gwasanaethau mewn safleoedd penodol yng Nghymru. Mae Ffigur 5 yn nodi ffiniau a lleoliadau'r Cwmnïau Dŵr sy'n gweithredu yng Nghymru.

*Ffigur 5 - Ffiniau Cwmnïau Dŵr yng Nghymru*




Ers i'r diwydiant dŵr gael ei breifateiddio, gwelwyd buddsoddiad sylweddol gan y diwydiant yng Nghymru.  O ganlyniad i hyn, mae ansawdd ein dŵr amgylcheddol a'n dŵr yfed wedi gwella, yn ogystal â'r gwasanaethau sy'n cael eu darparu i fusnesau a chwsmeriaid domestig yng Nghymru.  Heddiw, mae'r diwydiant dŵr a charthffosiaeth yng

Nghymru yn cyflenwi’r rhan fwyaf o’n gwasanaethau dŵr allweddol, sydd yn darparu ar gyfer ein hanghenion dynol sylfaenol, fel dŵr yfed, ond hefyd er mwyn iechyd y cyhoedd, hylendid a glanweithdra.  O ganlyniad i hyn, mae’r rhan fwyaf ohonom yn mwynhau cyflenwad dŵr a gwasanaethau draenio digonol a dibynadwy am gost resymol.

Ers cael ei breifateiddio, mae wedi bod yn bwysig rheoleiddio’r diwydiant dŵr er mwyn diogelu defnyddwyr a’r amgylchedd.  Mae’r diwydiant dŵr yn cael ei reoleiddio gan dri chorff annibynnol gwahanol yng Nghymru.  Y rhain yw’r Arolygiaeth Dŵr Yfed, Cyfoeth Naturiol Cymru ac Ofwat.  Hefyd, mae Cyngor Defnyddwyr Cymru yn cynrychioli buddiannau cwsmeriaid ac yn gweithredu i ddatrys anghydfodau.

Yn ogystal â buddsoddiadau’r cwmnïau dŵr, mae gwaith Cyfoeth Naturiol Cymru, sy’n cael ei wneud yn aml mewn partneriaeth gyda thirfeddianwyr a grwpiau gwirfoddol, wedi arwain at nifer o welliannau i’r ecoleg dŵr, er enghraifft drwy gael gwared ar rwystrau sy’n amharu ar ecoleg afonydd.  Mae’r rheoliadau amgylcheddol sydd wedi’u cyflwyno a’u gorfodi gan Cyfoeth Naturiol Cymru, er mwyn diogelu’r amgylchedd, ac er mwyn cynnal safonau dŵr yfed gan awdurdodau lleol a’r Arolygiaeth Dŵr Yfed hefyd wedi cefnogi gwelliannau yn y meysydd hyn.

Ym 1999, cafodd nifer o feysydd eu datganoli i Gymru, yn cynnwys y cyflenwad dŵr, rheoli adnoddau dŵr, ansawdd dŵr, cynrychioli defnyddwyr gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth, a rheoli’r perygl o lifogydd a diogelu’r arfordir.  Mae’r pwerau hyn yn galluogi Llywodraeth Cymru, gyda’i dealltwriaeth fanwl o faterion sy’n ymwneud ag adnoddau dŵr yng Nghymru, i nodi ffordd briodol o reoli dŵr yng Nghymru yn y dyfodol. Fodd bynnag, nid oes gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol llawn o ran dŵr a charthffosiaeth.

Wrth reoli’r amgylchedd dŵr a’r gwasanaethau dŵr, mae Llywodraeth Cymru yn derbyn cyfrifoldeb llwyr o’i goblygiadau rhyngwladol.  Yn benodol, mae yna nifer o Gyfarwyddebau Ewropeaidd sy’n dylanwadu ar ein dull gweithredu (gweler blwch 1 am fanylion).  Y rhai mwyaf arwyddocaol o’r rhain yw’r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed[18] a’r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr[19] a gyflwynwyd yn 2000.  Roedd y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyflwyno’r cysyniad o reoli dalgylchoedd fel y sail i reoli adnoddau dŵr a sefydlu ardaloedd basn afon, a chreu cynllun rheoli basn afon ar gyfer pob un o’r rhain.  Roedd hefyd yn annog cyfranogiad gweithredol gan bob parti â diddordeb yn y gwaith o gynhyrchu, adolygu a diweddaru’r cynlluniau hyn.

[18] Y Gyfawrwyddeb Dŵr Yfed - http://ec.europa.eu/environment/water/water-drink/.
[19] Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr - http://ec.europa.eu/environment/water/water-framework/

**Blwch 1 - Cyfarwyddebau Ewropeaidd sy’n gysylltiedig â rheoli adnoddau dŵr**

**Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr - 2000/60/EC**
Sefydlodd y Gyfarwyddeb hon fframwaith ar gyfer gwarchod a rheoli dŵr. Mae ei hamcanion yn cynnwys atal a lleihau llygredd, hybu defnydd cynaliadwy o ddŵr, gwarchodaeth amgylcheddol, gwella ecosystemau dyfrol a lliniaru effeithiau llifogydd a sychder.

**Y Gyfarwyddeb Nitradau - 91/676/EC**
Ei hamcanion yw gwarchod dyfroedd rhag llygredd a achosir gan nitradau o ffynonellau amaethyddol drwy gyfrwng nifer o fesurau. Mae’r rhain yn cynnwys monitro dŵr arwyneb a daear, dynodi parthau perygl, cyhoeddi codau o arferion amaethyddol da, rhoi rhaglenni gweithredu ar waith, a gwerthuso’r camau gweithredu sydd wedi'u rhoi ar waith.

**Y Gyfarwyddeb Dŵr Ymdrochi - 2006/7/EC**
Mae’r Gyfarwyddeb hon canolbwyntio ar ag ansawdd dŵr ymdrochi yn Aelod-Wladwriaethau’r Undeb Ewropeaidd.  Mae’n ymwneud â’r dyfroedd hynny y mae’r awdurdodau cenedlaethol yn awdurdodi ymdrochi ynddynt, a lle mae nifer sylweddol o ymdrochwyr yn mynd i'r dŵr yn rheolaidd. Nid yw’n berthnasol i byllau nofio.

**Y Gyfarwyddeb Dŵr Daear - 2006/118/EC**
- Pwrpas y Gyfarwyddeb hon yw atal a dileu llygredd dŵr daear. Mae ei darpariaethau’n cynnwys: meini prawf ar gyfer asesu statws cemegol dŵr daear, meini prawf ar gyfer datgan tueddiadau cynyddol arwyddocaol a pharhaus yn lefel y llygredd mewn dŵr daear, a darpariaethau ar gyfer diffinio mannau cychwyn ar gyfer gwyrdroi'r tueddiadau hyn, ac atal a chyfyngu ar ryddhau llygredd yn anuniongyrchol (ar ôl trylifo drwy bridd neu is-bridd) i ddŵr daear.

**Y Gyfarwyddeb Cynefinoedd - 92/43/EEC**
**Y Gyfarwyddeb Adar - 2009/147/EC**
Y Cyfarwyddebau hyn yw conglfaen polisi cadwraeth natur Ewrop, yn seiliedig ar ddwy elfen bwysig, rhwydwaith Natura 2000 o safleoedd gwarchodedig a gwarchod rhywogaethau.  Mae’r gyfarwyddeb Cynefinoedd yn gwarchod mwy na 1,000 o rywogaethau o anifeiliaid a phlanhigion a mwy na 200 o “fathau o gynefinoedd” (e.e. mathau arbennig o fforestydd, gwlybdiroedd, ac ati) o bwysigrwydd Ewropeaidd.

**Y Gyfarwyddeb Trin Dŵr Gwastraff Trefol – 91/271/EEC**
Nod y Gyfarwyddeb hon yw diogelu'r amgylchedd rhag effeithiau niweidiol rhyddhau dŵr gwastraff trefol ac effeithiau rhai sectorau diwydiannol penodol, ac mae’n ymwneud â chasglu, trin a rhyddhau’r dyfroedd gwastraff hyn.

**Y Gyfarwyddeb Atebolrwydd Amgylcheddol - 2004/35/EC**
Mae’r gyfarwyddeb hon yn ymwneud ag atal ac adfer wedi difrod amgylcheddol yn seiliedig ar yr egwyddor o’r llygrwr yn talu.

**Y Gyfarwyddeb Dŵr Yfed - 98/83/EC**
Mae’r Gyfarwyddeb hon yn ymwneud ag ansawdd dŵr sydd i gael ei yfed gan bobl ac mae'n cynnwys cyflenwadau cyhoeddus a phreifat, pennu safonau ar gyfer ansawdd a monitro.

## Yr heriau – pam y mae angen i ni newid

Nid yw dŵr yn adnodd di-ben-draw y gellir ei ailgyflenwi'n rhwydd. Mae angen rheoli'r adnodd hwn yn ofalus iawn er mwyn sicrhau bod anghenion yr amgylchedd, pobl a'r economi yn cael eu diwallu yn yr hirdymor. Mae'n bodoli mewn system ddeinamig o wlypdiroedd, afonydd, dyfrhaenau, llynnoedd, aberoedd a'r arfordir. Mae'n ddibynnol, ac yn cael ei ddylanwadu'n helaeth, gan ein patrymau tywydd. Mae'n ein cyrraedd ni, y defnyddwyr, drwy system gasglu, storio, trin a chyflenwi cymhleth, sy'n gostus i'w hadeiladu a'i gweithredu.

Yng Nghymru, rydym yn wynebu nifer o heriau yn cynnwys newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth a chynnydd yn y galw am ddŵr, a bydd hyn yn effeithio ar y ffordd y byddwn yn rheoli ein hadnoddau dŵr. Mae'r holl bethau hyn yn mynd i ddylanwadu ar ein hamgylchedd dŵr, y diwydiant dŵr a'i reoleiddwyr, rheolwyr tir, yn ogystal â'r boblogaeth ehangach dros y bum mlynedd ar hugain nesaf.

### Effeithiau newid yn yr hinsawdd

Rydym yn deall bod ein hinsawdd yn newid, ond mae rhywfaint o ansicrwydd ynglŷn â beth mae hyn yn ei olygu i ni fel unigolion ac wrth gynllunio sut y byddwn yn rheoli ein hadnoddau dŵr yn y dyfodol. Cyflwynir y ddealltwriaeth orau sydd ar gael gan Ragolygon Hinsawdd y DU 2009 (UKCP09)[20].

Er y gellir datgan yn gymharol hyderus y bydd y tymheredd cyfartalog yn cynyddu, mae'n anoddach rhagweld effaith hyn ar batrymau glaw. Mae'r rhagolygon yn awgrymu y bydd y tymheredd yng Nghymru yn cynyddu ac y bydd patrymau glaw tymhorol yn newid, gyda chynnydd yn y gaeaf a gostyngiad yn yr haf, gyda digwyddiadau tywydd eithriadol yn digwydd yn amlach ac yn ddwysach.

Gall y canlyniadau hyn gael effaith arwyddocaol ar adnoddau dŵr. Mae tywydd cynhesach yn fwy tebygol o arwain at fwy o anweddiad yn ein cronfeydd dŵr niferus ac o afonydd a chynnydd mewn galw. Bydd glawiadau dwysach yn achosi mwy o lifogydd dŵr wyneb ac yn golchi mwy o lygrwyr i'n nentydd, afonydd a'n dyfroedd arfordirol. Bydd hefyd yn lleihau'r dŵr sy'n ail-lenwi ein hadnoddau dŵr tanddaearol yn yr ardaloedd hynny yng Nghymru lle maent yn bwysig. Er bod ansicrwydd sylweddol ynglŷn â lefelau glawiadau yn y dyfodol, mae'r effeithiau cyffredinol ar lifoedd afonydd yn debygol o weld llifoedd is yn ystod yr haf a thymheredd uwch o bosibl yn yr afonydd.

Hefyd, mae amodau sychder yn fwy tebygol o ddigwydd, gydag astudiaeth gan Swyddfa'r Met[21] yn awgrymu cynnydd deg waith yn fwy yn nifer y cyfnodau o sychder erbyn 2100. Gallai digwyddiadau megis sychder 1975-76 ddigwydd bob 10 mlynedd ar gyfartaledd. Mae ein

---

[20] http://ukclimateprojections.defra.gov.uk
[21] An extreme value analysis of UK drought and projections of change in the future, Swyddfa'r Met, 2010. Journal of Hydrology

dibyniaeth ar adnoddau dŵr wyneb yma yng Nghymru yn golygu bod angen i ni sicrhau y bydd ein seilwaith dŵr yn ddigonol ar gyfer yr amodau a ragwelir.

Bydd y newidiadau hyn yn effeithio ar y ddarpariaeth o wasanaethau carthffosiaeth a gwasanaethau trin carthion yng Nghymru am gost resymol. Efallai y bydd cynnydd yn amlder arllwysiadau o orlifiadau carthffosydd cyfunol, llifogydd carthion, a charthffosydd yn cael eu cloi gan y llanw (h.y. lefelau uchel o ddŵr llanw yn cau gollyngfeydd draenio).

Mae'r newidiadau hyn yn debygol o gynyddu'r pwysau ar yr amgylchedd dŵr. Bydd cynnydd mewn llygredd, llifoedd llai a thymheredd uwch posibl yn effeithio ar y bywyd gwyllt sy'n dibynnu ar afonydd a llynnoedd. Er enghraifft, gallai hyn effeithio ar rywogaethau pysgod mudol sensitif megis eog, sewin a gwangod. I'r cwmnïau dŵr, os bydd ansawdd y dŵr yn dirywio, mae'n bosibl y byddant yn wynebu costau ychwanegol i drin y dŵr i'w ddefnyddio gan y cyhoedd.

**Twf yn y boblogaeth**

Mae cynnydd o 5% wedi bod ym mhoblogaeth Cymru ers 2001, i 3.06 miliwn yn 2011[22]. Mae'r tuedd hwn yn debygol o barhau, gyda'r rhagolwg y bydd y boblogaeth yn cynyddu 5% i 3.17 miliwn erbyn 2020 a 12% i 3.37 miliwn erbyn 2035[23]. Rhagwelir y bydd y boblogaeth yn heneiddio'n raddol, ac y bydd nifer y bobl 65 oed a throsodd yn cynyddu o tua 55 y cant rhwng 2010 a 2023. Mae'r cynnydd hwn yn y boblogaeth a phoblogaeth sy'n heneiddio yn cynyddu'r galw am fwyd, dŵr a gwasanaethau sylfaenol eraill. Gwelwyd cynnydd o tua 1.1miliwn yn nifer y cartrefi yng Nghymru ym 1991 i bron i 1.3 miliwn erbyn 2009. Fel cyfran, cynyddodd nifer yr aelwydydd un person o 25% o'r holl aelwydydd ym 1991 i 31% yn 2009[24]. Mae'r tuedd hwn yn debygol o barhau, gan roi pwysau cynyddol ar dir ar gyfer tai, cynhyrchiant bwyd, y galw am ddŵr a chyflenwadau ynni.

Bydd tueddiadau tebyg yn y boblogaeth yn Lloegr yn cynyddu'r ddibyniaeth yno ar gyflenwadau diogel o ddŵr o Gymru.

**Newid yn y galw**

Er bod gostyngiad mawr wedi bod yn anghenion dŵr diwydiannau yng Nghymru, mae cynnydd wedi bod yn y defnydd domestig. Mae aelwydydd yn defnyddio tua 52%[25] o'r dŵr sy'n cael ei ddarparu drwy'r cyflenwad cyhoeddus. Mae'r person cyffredin yng Nghymru a Lloegr yn

[22]Cyfrifiad 2011 - http://www.ons.gov.uk/ons/guide-method/census/2011/index.html
[23]Amcanestyniadau poblogaeth a gynhyrchwyd gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol - http://www.ons.gov.uk/ons/taxonomy/index.html?nscl=Population+Projections
[24] Amcangyfrifon aelwydydd, 1991-2009 SDR 23/2011 - http://wales.gov.uk/statistics-and-research/?lang=en
[25] Asiantaeth yr Amgylchedd – Save Water- http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/beinggreen/117266.aspx

defnyddio 150 litr[26] o ddŵr y dydd (tua dau lond bath). Mae'r rhan fwyaf o'r dŵr sy'n cael ei ddefnyddio yn y cartref yn cael ei ddefnyddio i ymolchi a fflysio'r toiled, ond mae hefyd yn cynnwys yfed, coginio, golchi'r car a dyfrio'r ardd. Mae pob un ohonom yn defnyddio bron i 50%[27] yn fwy o ddŵr nag yr oeddem ni dros bum mlynedd ar hugain yn ôl. Bydd y newidiadau yn y galw yn cael effaith ar adnoddau dŵr a charthffosiaeth a thrin carthion.

## Ymagwedd fwy integredig

Mae'n rhaid i ni ymateb i'r heriau hyn er mwyn sicrhau amgylchedd iach sy'n gallu gweithredu'n effeithiol, ac sy'n sail i ffyniant cymdeithasol ac economaidd. Fodd bynnag, nid ydym bob amser yn rheoli ein hadnoddau naturiol, yn cynnwys tir a dŵr, mewn ffordd sy'n rhoi ystyriaeth ddigonol i'r cysylltiadau rhwng canlyniadau amgylcheddol, cymdeithasol ac economaidd, neu mewn ffordd sy'n pwysleisio pwysigrwydd cynnal ein hamgylchedd yn yr hirdymor, er mwyn gwella ansawdd bywyd y genhedlaeth bresennol a chenedlaethau'r dyfodol.

Rydym wedi gwneud gwelliannau yn y ffordd rydym yn rheoli ein hadnoddau dŵr, sydd wedi'i ysgogi'n rhannol gan ddeddfwriaeth Ewropeaidd a chyflawni safonau penodol. Fodd bynnag, rydym eisiau gwneud mwy na dim ond cyflawni'r safonau hyn. Rydym yn dymuno adeiladu ar yr arfer presennol hwn er mwyn arfer ymagwedd fwy integredig at reoli adnoddau naturiol yn eu cyfanrwydd. Mae hyn yn golygu y bydd penderfyniadau sy'n effeithio ar yr holl adnoddau naturiol yn ceisio canfod y canlyniad gorau, gan ystyried materion economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol, ac ymgorffori cydnerthedd yn ein hecosystemau. Rydym yn credu y bydd yr ymagwedd ehangach hon at reoli ein hadnoddau naturiol a chydbwyso'r buddiannau i bobl yn nhermau swyddi, eu bywoliaeth a'u hiechyd yn effeithio ar yr amgylchedd naturiol ac yn ein galluogi i wneud y defnydd gorau posibl o'n hadnoddau yn yr hirdymor.

Rydym yn awyddus i bobl Cymru gydnabod pa mor werthfawr yw dŵr i Gymru fel adnodd, i ymfalchïo yn ein hamgylchedd dŵr a gwneud y defnydd gorau posibl o'r dŵr hwnnw. Mae'n rhaid i ni gydnabod bod dŵr yn hollbwysig i nifer o sectorau busnes yng Nghymru, yn cynnwys amaethyddiaeth, cynhyrchu bwyd a diod, cynhyrchu ynni, gweithgynhyrchu a thwristiaeth. Gallai adnoddau dŵr, sydd wedi'u rheoli'n dda, gynnig cyfleoedd i ddenu busnesau, sydd angen cyflenwad dŵr diogel ac o safon uchel, i fuddsoddi yng Nghymru a chefnogi ein nodau twf gwyrdd a chreu swyddi.

[26] Asiantaeth yr Amgylchedd – Save Water - http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/beinggreen/117266.aspx

[27] Asiantaeth yr Amgylchedd – Save Water - http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/beinggreen/117266.aspx

# 4. Ein Cynigion

Mae ein cynigion ar gyfer datblygu ymagwedd fwy integredig ar gyfer rheoli ein hadnoddau dŵr yn adlewyrchu ein hymagwedd gyffredinol at Reoli Adnoddau Naturiol[28]. Mae hyn yn cynnwys hyrwyddo system gydgysylltiedig i ddatblygu a rheoli dŵr, tir ac adnoddau cysylltiedig, er mwyn sicrhau'r lefelau uchaf o les economaidd a chymdeithasol, a hynny mewn ffordd deg, wrth gynyddu cydnerthedd ecosystemau hollbwysig yr un pryd.

Yn y bennod hon rydym yn canolbwyntio ar ein cynigion ar gyfer newid:

- **Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau** - Mae'r adran hon yn nodi sut rydym yn cynllunio ar gyfer rheoli ein hadnoddau dŵr mewn ffordd gynaliadwy, gan ddiwallu anghenion cymdeithas a chynnig cyfleoedd ar gyfer twf gwyrdd ond hefyd yr angen i ddiogelu a gwella ein hamgylchedd naturiol.
- **Gweithredu i Leihau Llygredd** - Mae'r adran hon yn cyflwyno ein cynigion i fynd i'r afael â llygredd drwy annog rheolwyr tir a busnes, a phob un ohonom ni fel unigolion, i fabwysiadu arferion da a gweithdrefnau effeithiol.
- **Gwella'r Ffordd yr Ydym yn Cynllunio a Rheoli ein Gwasanaethau Dŵr** - Mae'r adran hon yn nodi sut y byddwn yn sicrhau bod ein gwasanaethau dŵr yn parhau i fod yn gadarn, cynaliadwy ac yn cynnal gwasanaethau o ansawdd uchel yn awr ac yn y dyfodol.
- **Fforddiadwyedd Dŵr a Chyflenwi Gwasanaethau Gwych i Gwsmeriaid** - Mae'r adran hon yn nodi ein cynigion ar gyfer sicrhau bod pobl a busnesau yng Nghymru yn gallu cael mynediad i wasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy, sy'n gynaliadwy, diogel a dibynadwy.
- **Diogelu a Gwella Ansawdd Dŵr Yfed** - Mae'r adran hon yn nodi ein hymagwedd i gynnal safon uchel bresennol ansawdd ein dŵr yfed cyhoeddus a sicrhau bodunrhyw broblemau ansawdd yn cael eu datrys yn effeithiol.
- **Ymagwedd Newydd ar gyfer Draenio** - Mae'r adran hon yn nodi ein hymagwedd ar gyfer sicrhau bod dŵr gwastraff a dŵr wyneb yn cael eu rheoli mewn ffordd integredig.
- **Cefnogi Dulliau Cyflenwi** - Mae'r adran hon yn nodi nifer o gynigion cyffredinol a fydd yn cefnogi'r broses o gyflenwi ein hamcanion a'n canlyniadau strategol.

Ym mhob un o'r adrannau hyn, rydym yn cyflwyno'r materion allweddol y mae angen eu hystyried a'u trafod, ein prif weithredoedd arfaethedig a chwestiynau ymgynghori penodol.

---

[28] Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd - http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?skip=1&lang=cy

## 4.1 Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau

### Prif Faterion

### Rheoli Adnoddau Dŵr ac Adnoddau Naturiol

Mae dŵr yn adnodd naturiol hollbwysig sy'n cefnogi ystod eang o ecosystemau naturiol yng Nghymru. Mae angen inni herio ein hunain drwy'r amser er mwyn sicrhau ein bod yn rheoli'r adnodd hwn yn effeithiol ar gyfer yr hirdymor, er mwyn diogelu a gwneud y defnydd gorau o'r hyn mae dŵr yn ei roi inni, a chyflenwi nodau economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol yr un pryd. Mae rheoli dŵr mewn ffordd integredig yn golygu gosod dŵr yn gadarn yng nghyd-destun rheoli adnoddau naturiol. Byddwn yn archwilio'r newidiadau i'r system reoliadol, er mwyn sicrhau ei bod yn hyblyg ac yn cymell gwelliannau i arferion rheoli tir. (Mae'r rhain wedi'u nodi mewn mwy o fanylder yn *Adran 4.2 Gweithredu i Leihau Llygredd t35-40*).

Rheoli dalgylchoedd yw sail ein hymagwedd integredig. Er ein bod yn dueddol o ystyried materion rheoli dŵr fel materion unigol yn hanesyddol, mae ein gwaith yn cyflwyno'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr[29] wedi pwysleisio'r manteision o fabwysiadu ymagwedd integredig ar gyfer rheoli dalgylchoedd afonydd. Mae'r ymagwedd hon ar gyfer rheoli dŵr yn golygu bod angen ystyried amgylchiadau lleol, yn ogystal â chydnabod y cyswllt sy'n bodoli rhwng y tir a dŵr, a bod angen rheoli'r ddau gyda'i gilydd. Er enghraifft, mae'r ffordd y mae ardaloedd ucheldirol yn cael eu rheoli yn gallu effeithio ar allu priddoedd mawnog i ddal dŵr glaw. Mae systemau draenio gwell mewn ardaloedd o goedwigoedd a thir pori yn gallu achosi i ddŵr ffo lifo'n gyflymach ar ôl glaw, gan greu perygl o lifogydd ac effeithio ar i ansawdd y dŵr ymhellach i lawr yr afon. Mae lefelau uchel o dda byw yn gallu cael effaith debyg, oherwydd mae'r pridd wedi'i gywasgu, sy'n golygu bod dŵr yn llifo oddi arno'n gyflym ac yn cynyddu'r risg o erydiad. Gyda dulliau rheoli tir priodol[30], gellir atal neu hyd yn oed wyrdroi effeithiau andwyol o'r fath, gan leihau'r perygl o lifogydd, gwella ansawdd y dŵr a chynyddu argaeledd dŵr wrth i ddŵr glaw gael ei ddal yn y tir a chael ei ryddhau'n araf.

Mae'r Gyfarwyddeb yn mynnu bod Aelod-wladwriaethau yn sefydlu ardaloedd basn afon a chreu cynllun rheoli basn afon ar gyfer pob un o'r ardaloedd hyn. Yng Nghymru, rydym yn rhannu dwy ardal basn afon gyda Lloegr, sef basn afon Hafren a basn afon Dyfrdwy. Mae'r drydedd ardal basn afon, Gorllewin Cymru, i gyd yng Nghymru. Nodir y rhain yn Ffigur 6. Caiff y cynlluniau hyn eu hadolygu bob chwe mlynedd er mwyn

---

[29] Roedd y Gyfarwyddeb hon yn sefydlu fframwaith ar gyfer diogelu dŵr wyneb mewndirol (afonydd a llynnoedd), dyfroedd trawsnewidiol (aberoedd), dŵr arfordirol a dŵr daear. Mae'n ceisio sicrhau bod pob ecosystem ddyfrol a, chan roi ystyriaeth i'w hanghenion dŵr, ecosystemau a gwlyptiroedd daearol, yn cyflawni 'statws da' erbyn 2015.

[30] www.werh.org/documents/TimPagellaPontBrenCaseStudy.pdf

ein helpu i reoli ein hadnoddau dŵr yn fwy effeithiol. Caiff y cynlluniau nesaf eu cyflwyno yn 2015.

*Ffigur 6 – Ardaloedd Basn Afon y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr*




Oherwydd natur gymhleth y deddfwriaethau sy'n ymwneud â dŵr, yr angen i reoli dalgylchoedd sy'n cael eu rhannu â Lloegr a'r ystod o raddfeydd, o ardal leol i ddalgylch a hyd yn oed cenedlaethol, mae angen sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau cyfyngedig.

Byddwn yn parhau i weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i adolygu'r broses o gyflwyno pob Cyfarwyddeb sy'n gysylltiedig â dŵr, i sicrhau ein bod yn nodi unrhyw synergedd, cyfleoedd i symleiddio a chost-effeithlonrwydd ychwanegol yn y ffordd rydym yn cyflwyno Cyfarwyddebau.

Ar lefel leol, bydd dulliau rheoli gwell ar gyfer dalgylchoedd yn ein helpu i flaenoriaethu ein gwaith er mwyn sicrhau ei fod yn gweddu'n well ar gyfer pob dalgylch. Credwn fod cyfle inni ddelio â Chyfarwyddebau a'u cyflwyno mewn ffordd ddoethach, gan ddefnyddio'r ymagwedd dalgylch a gwella ein hymgysylltiad â chymunedau, er mwyn ein tywys a'n llywio drwy'r broses hon a rhoi mwy o ystyriaeth i amgylchiadau lleol pan fydd cydymffurfiaeth â'r Cyfarwyddebau yn caniatáu i wneud hynny.

Byddwn yn ategu'r dull rheoli dŵr hwn ar lefel dalgylch gyda chamau gweithredu ymarferol. Mae gwaith i ddatblygu'r strategaeth hon wedi dangos bod dulliau rheoli tir gwael yn rhoi pwysau arwyddocaol ar yr amgylchedd dŵr yng Nghymru.

Mae'r Cynllun Datblygu Gwledig presennol yn cefnogi ymyriadau rheoli tir, sy'n ceisio gwella ansawdd y dŵr a lleihau'r perygl o lifogydd. Cyhoeddwyd ymgynghoriad ar ein cynigion terfynol ar gyfer Rhaglen Datblygu Gwledig Cymru 2014-2020[31] ym mis Chwefror 2014. Cyfanswm y gyllideb ar gyfer y Rhaglen Datblygu Gwledig ar gyfer Cymru 2014-2020 yw £953 miliwn ar draws cyfnod y rhaglen, gyda 60% (£572 miliwn) yn cael ei ddyrannu ar gyfer mesurau ardaloedd penodol, gan gyfeirio'n benodol at y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r cynigion yn yr ymgynghoriad yn cynnwys cyngor ar faterion sy'n ymwneud â dŵr, gan gynnwys rheoli tir a buarthau. Er enghraifft, bydd arferion da wrth fwydo a rhoi dŵr i dda byw yn gallu atal difrod i dir a chefnennau nentydd a fyddai fel arall yn achosi erydiad a llygredd. Hefyd, rhoddir ystyriaeth i arferion da wrth storio gwastraff, cynllunio i reoli maethynnau a chynhyrchu silwair sydd hefyd yn cyfrannu at y gwaith o ddiogelu'r amgylchedd dŵr. Mae'r Cynllun arfaethedig yn cynnwys dull cyfalaf a refeniw cymysg, a fydd yn cefnogi gwelliannau ar ffermydd ac mewn coedwigoedd a fydd wedi'u cysylltu, ymhlith pethau eraill, â safonau lles a safonau amgylcheddol. Yn amodol ar gymeradwyaeth gan y Comisiwn Ewropeaidd, bydd y gefnogaeth hon yn cael ei hymestyn i fusnesau nad ydynt yn seiliedig ar y tir, ac mae'n bosibl y gellir cyflwyno ymyriadau a allai fynd i'r afael â'r problemau sy'n gysylltiedig â llygredd o fwyngloddiau metel.

Bydd cynllun Glastir Uwch yn parhau i weithredu fel y prif ddull ar gyfer targedu gweithgarwch er mwyn cyflawni gofynion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Bydd yn helpu i wella ansawdd a dulliau rheoli dŵr, drwy fynd i'r afael â materion ar hyd y cyrsiau dŵr, yn hytrach na chael eu cyfyngu gan ymagwedd ffermydd unigol. Bydd hyn yn cael ei ategu gan welliannau i'r seilwaith, a fydd yn cael eu cyflawni drwy'r cynllun grantiau Cynhyrchu Cynaliadwy.

[31] http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingandcountryside/cap/ruraldevelopment/rural-development-plan-for-wales-2014-2020/?skip=1&lang=cy

Bydd ein dull o reoli dalgylchoedd a'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon hefyd yn helpu i hysbysu'r gwaith o ddatblygu polisi cyffredinol ar gyfer rheoli adnoddau naturiol.  Mae Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd yn cynnig y dylid datblygu dull o reoli adnoddau naturiol ar sail ardal[32]. Mae hyn yn rhagweld proses o gynllunio a phennu blaenoriaethau sy'n cydgysylltu'r adnoddau sy'n cael eu defnyddio mewn ardal benodol, a allai gynnwys dalgylchoedd.  Bydd yr asesiad a'r gwaith o gydgysylltu adnoddau yn cael ei drefnu yn ôl yr ecosystemau a'r gwasanaethau maent yn eu darparu.

## Gwella ymgysylltiad dinesig

Mae ein hamgylchedd dŵr yn bwysig i bob un ohonom.  Mae dŵr yn hanfodol ar gyfer bywyd, ac mae wedi llunio ein tirlun a'n hymdeimlad o le - ein hafon neu nant leol, hoff ddarn o arfordir neu lyn mynydd.  Mae hyn yn golygu llawer mwy na'r berthynas a allai fod gennym gyda'n cwmni gwasanaethau dŵr.  Er mwyn cydnabod y berchenogaeth eang hon, mae ffocws ar ymgysylltiad a chyfranogiad dinesig effeithiol yn elfen hollbwysig o'n hymagwedd i reoli dŵr ac adnoddau naturiol yn fwy cyffredinol, sydd wedi'i gyflwyno ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd.  Rydym yn credu, ac yr ydych chi wedi rhoi gwybod inni, y gellir gwneud penderfyniadau gwell a  mwy pendant ar faterion rheoli dŵr gyda chyfranogiad grwpiau cymunedol lleol, busnesau ac unigolion lleol.  Bydd ymagwedd gyfranogol sy'n cynnwys cymunedau lleol yn sicrhau bod y rhai sy'n rheoli dŵr, y rhai sy'n elwa ar gyflenwad dŵr dibynadwy ac o ansawdd da, a'r rhai sydd â'r potensial i effeithio ar ein hadnoddau dŵr yn rhan o'r broses o bennu agenda a gwneud penderfyniadau.

Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyfrannu rhywfaint at y nod o gynnwys cymunedau yn ei phaneli cyswllt Basn Afon.  Fodd bynnag, mae eu maint yn golygu ei bod yn anodd mynd i'r afael â materion lleol.  Gan weithio gydag awdurdodau lleol a chwmnïau dŵr, byddwn yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru, fel y corff rheoliadol sy'n gyfrifol am sicrhau bod ein hamgylchedd dŵr yn cael ei reoli'n effeithiol, adeiladu ar ei waith ar y Cynlluniau Rheoli Basn Afon a sicrhau cyfranogiad cymunedol gwell ac estynedig ar lefel dalgylch ac ardaloedd lleol.  Bydd hyn yn helpu i hysbysu ein dulliau rheoli dŵr yn ogystal â'n gwaith rheoli adnoddau ehangach, a sicrhau bod gweithredoedd rheoli dŵr a thir ar lefel dalgylchoedd yn cael eu hintegreiddio gyda'n hymagwedd arfaethedig sy'n seiliedig ar ardaloedd er mwyn cynllunio adnoddau naturiol, gyda gwybodaeth a phrofiad cymunedau yn yn helpu i nodi heriau a chyfleoedd.

Byddwn yn annog ymagwedd hyblyg i'r ymgysylltiad hwn, yn hytrach nag 'un ateb sy'n addas i bawb', oherwydd rydym yn cydnabod nad gweithio ar sail dalgylch fydd y ffordd orau o gyflawni'r canlyniadau a ddymunir

---

[32] Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd t14-50- http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?skip=1&lang=cy

mewn rhai ardaloedd.  Efallai y bydd angen inni weithio ar raddfa tirluniau neu efallai mai defnyddio graddfa crynofa ddŵr fyddai'r ymagwedd orau mewn rhai ardaloedd sydd â phroblemau penodol.  Bydd gweithio ar y graddfeydd hyn yn ein helpu i ddeall y cyd-destun lleol, megis cyfleoedd economaidd neu risgiau newid yn yr hinsawdd, sy'n amrywio ar draws Cymru.

## Gwneud y defnydd gorau o'n Dŵr

Mae dŵr yn darparu ystod eang o fuddiannau i'n cymdeithas, gan gynnwys swyddi, cyfleoedd hamdden, cynhyrchu ynni a'n hiechyd.  Fodd bynnag, mae'n anodd rhoi gwerth ar nifer o'r buddiannau hyn.  Er mwyn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o ddŵr a'n bod yn cael y budd mwyaf o'n hamgylchedd dŵr ar gyfer pobl Cymru, mae'n rhaid inni wella'r system trwyddedau tynnu dŵr, canfod ffyrdd o roi gwerth ar ddarparwyr gwasanaethau dŵr a chymryd cyfrifoldeb fel unigolion am y ffordd yr ydym yn defnyddio dŵr.



### Adnoddau dŵr sy'n cael eu rheoli'n dda

Rydym wedi disgrifio ym Mhennod 3 (t15-26), yr heriau sy'n ein hwynebu wrth geisio sicrhau bod gennym ddigon o ddŵr ar gyfer pobl, busnesau a natur.  Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am reoli adnoddau dŵr, gan gynnwys rheoleiddio dulliau tynnu dŵr.  Tynnu dŵr yw'r broses o dynnu dŵr o adnoddau naturiol gan gynnwys afonydd, llynnoedd a dyfrhaenau a'r ffordd rydym yn cyflawni ein hanghenion o ran ein cyflenwad dŵr yng Nghymru.  Os nad ydym yn cynnwys dŵr a ddefnyddir yn y sector ynni, sy'n cael ei ddychwelyd yn syth i'r amgylchedd, yna mae mwyafrif helaeth y dŵr a dynnir yng Nghymru yn

mynd i gefnogi'r cyflenwad dŵr cyhoeddus, gyda thynnu dŵr at ddibenion diwydiannol yn elfen sylweddol hefyd. Mae'n cael ei reoleiddio drwy system o drwyddedau sy'n cael eu cyhoeddi gan Cyfoeth Naturiol Cymru. Sefydlwyd trwyddedau ar gyfer tynnu dŵr ym 1963 er mwyn diogelu tynwyr dŵr ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi, ond nid yw'n darparu'r hyblygrwydd digonol i fynd i'r afael â heriau argaeledd dŵr yn y dyfodol, na'r angen i ddiogelu ein hamgylchedd naturiol[33].
Er mwyn sicrhau bod gennym adnoddau dŵr cadarn a chryf sy'n cefnogi amcanion twf gwyrdd o greu swyddi newydd a thwf economaidd, ac sydd wedi'u trwyddedu'n deg, rydym yn adolygu'r system trwyddedau tynnu dŵr presennol, mewn cydweithrediad â Llywodraeth y DU. Rydym wedi ymgynghori ar newidiadau arfaethedig i'r system trwyddedau tynnu dŵr a bydd canlyniad yr ymgynghoriad hwn yn hysbysu polisïau rheoli adnoddau dŵr yng Nghymru yn y dyfodol.

Roedd yr ymgynghoriad[33] wedi canolbwyntio ar ddau opsiwn ar gyfer newid y system trwyddedau tynnu dŵr bresennol. Os bydd yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn gefnogol ar y cyfan, bydd ein rhaglen weithredu yn ceisio sicrhau na fydd hyn yn amharu ar weithrediadau'r tynwyr dŵr.

Mae'r system trwyddedau tynnu dŵr hefyd yn cynnwys nifer o eithriadau hanesyddol sy'n galluogi i gyflenwadau digyfyngiad o ddŵr gael eu tynnu at ddibenion penodol, megis llywio a gwagio chwareli, neu mewn rhai ardaloedd daearyddol penodol. Er mwyn gallu rheoli adnoddau dŵr yn deg a chynhwysfawr, mae'n rhaid inni gynnwys yr enghreifftiau hyn o dynnu dŵr yn y system drwyddedu. Er mwyn cyflawni hyn, byddwn yn ymgynghori ar y cyd â Llywodraeth y DU yn ystod chwarter olaf 2014 ar y ffordd orau o gyflawni hyn.

**Gwerthfawrogi dŵr**

Mae ein hasedau dŵr yn darparu nifer o wasanaethau ecosystemau pwysig i ni. Mae gan rai o'r gwasanaethau hyn werth uniongyrchol neu werth marchnadwy clir, megis cyflenwadau adnoddau dŵr. Fodd bynnag, mae'n anodd rhoi gwerth y farchnad ar wasanaethau eraill yr ydym yn dibynnu arnynt neu'n eu gwerthfawrogi, megis puro dŵr a chadw dŵr.

Credwn fod angen inni geisio rhoi gwerth ar ddŵr, er mwyn i werth economaidd dŵr helpu i wneud y penderfyniadau ar y defnydd gorau ohono. Un ffordd o wneud hyn yw rhoi gwerth ar y gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ein hadnoddau naturiol a sefydlu marchnad talu am wasanaethau ecosystemau (TWE).

Mae TWE yn cynnwys gwneud taliadau i reolwyr tir neu adnoddau naturiol eraill, yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau ecosystemau penodol, megis diogelu ansawdd dŵr neu gadw dŵr. Er enghraifft, gallai fod yn briodol gwneud taliadau i reolwyr tir i gymryd camau i reoli eu tir neu dda byw, sy'n lleihau'r risg o erydu pridd a chreu canlyniadau niweidiol i ansawdd y dŵr. Mae cynlluniau o'r fath yn ein galluogi i

[33] Asiantaeth yr Amgylchedd – Current and Future Water Resources - http://www.environment-agency.gov.uk/research/library/publications/40731.aspx

gysylltu gwerth y farchnad i'r gwasanaethau y mae'r amgylchedd naturiol yn eu darparu o ganlyniad i'r ffordd mae'n cael ei reoli. Drwy wneud hyn, gall talu am wasanaethau ecosystem fod yn elfen ganolog yn ein dyhead ar gyfer twf gwyrdd, yn arbennig yn yr economi wledig. Credwn y gallai cynlluniau TWE weithio'n dda mewn cysylltiad â dŵr, oherwydd mae'r ymyriadau yn uwch i fyny'r dalgylch yn aml yn dylanwadu ar y buddiannau yn rhan isaf y dalgylchoedd.



Rydym wedi comisiynu astudiaeth, a fydd yn cael ei chwblhau erbyn y Gwanwyn 2014, i edrych ar y dulliau posibl y gellir eu defnyddio i ddatblygu taliad ar gyfer marchnad gwasanaethau ecosystemau yng Nghymru. Mae'r astudiaeth yn ystyried cyfranogwyr posibl mewn marchnad o'r fath, sut farchnad fyddai hon yng Nghymru a beth fyddai rôl bosibl Llywodraeth Cymru. Mae'n bwysig asesu pa gyfleoedd sy'n bodoli, i berchenogion ein cyfalaf naturiol ac i'r busnesau a allai elwa ar unrhyw farchnad sy'n cael ei chreu. Rydym hefyd yn ymgynghori, fel rhan o Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd[34], i weld a oes angen pwerau newydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru mewn cysylltiad â rheoleiddio neu achredu TWE. Bydd yr argymhellion yn yr astudiaeth hon a'r ymateb i'r ymgynghoriad ar Fil yr Amgylchedd yn ein helpu i gwblhau ein cynigion ar ddatblygu cynlluniau TWE yng Nghymru.

### Gweithredoedd unigol

Rydym eisiau sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau posibl o'r dŵr yr ydym yn ei dynnu o'r amgylchedd naturiol. Mae lleihau gwastraff a cheisio gwella effeithlonrwydd dŵr yn elfennau canolog wrth geisio cyflawni hyn. Ymhlith y buddiannau o wneud defnydd mwy effeithlon a

---

[34] Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd – http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?status=closed&lang=en

chynaliadwy o ddŵr mae lleihau ôl troed carbon, o ganlyniad i orfod trin a phwmpio llai o ddŵr, yn ogystal â lleihau'r cyfaint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio a'r ynni sydd ei angen i'w wresogi, yn arbennig yn y cartref. Hefyd, mae lleihau'r dŵr a gyflenwir yn arwain at lai o ddŵr gwastraff, sy'n lleihau'r pwysau ar gapasiti carthffosydd, gorsafoedd pwmpio a systemau trin. Gall hyn gyfrannu at ai o angen neu oedi yn yr angen i fuddsoddi mewn seilwaith, gofynion ynni is, llai o allyriadau carbon a chynyddu gallu i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd. Mae gollyngiadau a hyrwyddo defnydd effeithlon o ddŵr yn cael eu trafod yn fanwl yn yr adran ganlynol *4.3 Gwella'r ffordd yr ydym yn cynllunio a rheoli ein systemau dŵr (t41-46).*

Gall pob un ohonom helpu i leihau gwastraff a gwella effeithlonrwydd dŵr, fel unigolion yn ein cartrefi ein hunain ac fel busnesau sy'n cyflenwi a defnyddio dŵr. Byddwn yn parhau i weithio gydag Ofwat, cwmnïau dŵr a Cyfoeth Naturiol Cymru i gyflawni hyn.

**Buddiannau ehangach i'r gymuned**

Mae adnoddau dŵr sydd wedi'u rheoli'n dda yn darparu nifer o fawr o fuddiannau, gan gynnwys cymorth uniongyrchol ar gyfer swyddi a thwf gwyrdd. Fel rhan o'n gwaith i sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n holl adnoddau naturiol, byddwn yn gweithio ar draws Llywodraeth Cymru i ddatblygu cyfleoedd twristiaeth a hamdden ein dyfroedd mewndirol ac arfordirol.



Wrth geisio gwireddu'r buddiannau y gall ein hadnoddau dŵr eu cynnig er mwyn creu swyddi a thwf gwyrdd ym maes twristiaeth a hamdden, mae angen inni ystyried iechyd, diogelwch a phryderon amgylcheddol, a ddylai fod yn brif ystyriaeth wrth asesu'r cyfleodd hyn.

Bydd y risgiau hyn yn amrywio yn ôl y gweithgarwch, er enghraifft pysgota, caiacio neu nofio, a natur y safle, a phob asesiad unigol o anghenion. Er enghraifft, cwmnïau dŵr sy'n rheoli ac sy'n berchen ar nifer o gronfeydd dŵr a'r tir amgylchynol yng Nghymru, ac mae ganddynt bosibiliadau ar gyfer ystod eang o ddefnyddiau hamdden. Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr a pherchenogion cronfeydd dŵr eraill i gynnal a gwella mynediad priodol a defnydd o'r asedau hyn at ddibenion hamdden.

Mae'n fwy anodd inni roi gwerth ar rai o'r buddiannau sy'n deillio o'n hamgylchedd dŵr. Mae cael mynediad at nodweddion dŵr, sy'n aml wedi'u cysylltu â mannau gwyrdd, yn gallu bod yn llesol i les ac iechyd corfforol a meddyliol da mewn ardaloedd trefol a gwledig. Mae cynlluniau sy'n cael eu rheoli'n dda ar hyd a lled Cymru eisoes yn defnyddio nodweddion dŵr at ddibenion addysgol a gwella gwerthfawrogiad y cyhoedd o'r angen i reoli adnoddau dŵr yn effeithiol. Byddwn yn gweithio ar draws Llywodraeth Cymru i annog gwelliannau i'r amgylchedd adeiledig presennol drwy ddefnyddio dŵr a gwella'r ffordd mae dŵr yn cael ei integreiddio yng nghynlluniau datblygiadau newydd drwy'r ymagwedd Cynllunio trefol sy'n sensitif i ddŵr – *gweler adran 4.6 Ymagwedd Newydd ar gyfer Draenio (t55-60).*

**Cefnogi busnesau**

Mae argaeledd gwasanaethau dŵr cydnerth yn hollbwysig er mwyn cefnogi busnesau. Yng Nghymru, mae cwmnïau sydd eisoes yn dibynnu ar ddŵr i gefnogi popeth o gynhyrchu papur a dur i brosesu bwyd a bragu - mae dulliau effeithiol o reoli dŵr yn ategu miloedd o swyddi yn y sectorau hyn. Yn y blynyddoedd diweddar, mae nifer o ddefnyddwyr diwydiannol wedi lleihau eu defnydd o ddŵr drwy wella effeithlonrwydd ac ailgylchu er mwyn lleihau costau gweithredol. Yn ogystal â'r defnyddwyr diwydiannol, mae adnoddau dŵr sydd wedi'u rheoli'n dda hefyd yn cefnogi swyddi mewn meysydd gan gynnwys pysgodfeydd - cyhoeddir mwy na 55,000 o drwyddedi gwialen yng Nghymru i bysgotwyr hamdden, yn ogystal â 50 o drwyddedi dŵr croyw masnachol - pysgodfeydd cregyn, a chyflogaeth yn yr amgylchedd morol. Mae argaeledd cyflenwadau dŵr o ansawdd uchel o afonydd a dŵr daear, a thrwy gwmnïau dŵr, yn cynnig cyfleoedd pwysig i ddenu busnesau i Gymru. Yn benodol, mae angen inni edrych ymhellach, er mwyn deall yr effaith y tu allan i Gymru o'r dŵr sydd ei angen i gynhyrchu'r bwyd a'r deunyddiau yr ydym yn eu defnyddio yn ein bywyd bob dydd. Gyda phwysau cynyddol ar adnoddau dŵr o amgylch y byd, efallai y bydd cyfleoedd i'n hannog i ddefnyddio ein hadnoddau dŵr er mwyn disodli'r cynhyrchion hynny sy'n cael eu mewnforio o rannau eraill o'r byd ar hyn o bryd, lle mae dŵr yn brin.

**Blwch 2 - Dŵr ac Ynni**

**Cynhyrchu trydan**
Mae angen llawer iawn o ddŵr oeri ar gyfer cynhyrchu trydan yn effeithlon yn y rhan fwyaf o orsafoedd thermol (glo, nwy a biomas) a gorsafoedd pŵer niwclear. Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o orsafoedd pŵer yn defnyddio dŵr yr arfordir neu aberoedd ac mae'r rhan fwyaf o'r dŵr yn cael ei ddychwelyd i'r amgylchedd. Mae cynhyrchu pŵer yn cynrychioli'r cyfaint mwyaf o ddŵr a ddefnyddir at ddibenion diwydiannol yng Nghymru.

**Ynni dŵr**
Mae hyn yn trosi'r ynni mewn dŵr sy'n disgyn yn drydan, ac mae wedi cael ei ddefnyddio am fwy na chant o flynyddoedd. Mae datblygiadau technolegol a chyflwyno cynlluniau cymhelliant wedi golygu bod nifer o gynlluniau ynni dŵr bach newydd yn hyfyw. Mae'r dŵr fel arfer yn cael ei ddargyfeirio i ffwrdd o nant er mwyn mynd drwy dyrbin. Gall hyn arwain at atal llwybr bywyd gwyllt a llai o ddŵr yn llifo yn y sianel naturiol, ac felly mae angen rheoli hyn yn ofalus.

**Ynni o garthion**
Mae treulio slwtsh carthion drwy dreulio anaerobig yn cynhyrchu nwy sy'n cynnwys methan a slwtsh sy'n cynnwys maethynnau gwerthfawr. Gellir defnyddio'r nwy o gynhyrchu trydan, sy'n helpu i leihau costau gweithredu gweithfeydd trin carthion a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Gellir ailgylchu'r slwtsh carthion sydd wedi'i drin fel cyflyrydd pridd er mwyn rhoi deunydd organig a maethynnau ar y tir, sy'n lleihau'r angen am wrteithiau artiffisial.

**Ffracio**
Mae'r broses o dynnu nwyon hydrocarbon o greigiau o dan y ddaear drwy dechneg a elwir yn "Ffracio" wedi cynyddu'n gyflym yn y blynyddoedd diweddar, yn arbennig yng Ngogledd America. Y broses yw drilio i mewn i greigiau a phwmpio hylif i mewn iddynt o dan bwysedd uchel, er mwyn hollti'r creigiau ac ysgogi llif nwy i'r ffynnon. Y prif hylif yw dŵr, gyda nifer o ychwanegion, a gynlluniwyd i gynorthwyo'r broses hollti. Mae'n hollbwysig sicrhau bod ffynhonnell ddŵr ar gael ar gyfer ffracio, ac mae hefyd yn hollbwysig bod rhagofalon penodol ar waith er mwyn atal achos o lygru dŵr daear naturiol.

Mae pob un o'r rhain yn cynrychioli goblygiadau ar gyfer rheoli dŵr, ac mae angen inni gydbwyso eu heffaith ar yr amgylchedd dŵr yn erbyn y buddiannau i'r economi genedlaethol a'r economi leol ac ar allyriadau carbon deuocsid.

Drwy sicrhau bod ein hadnoddau dŵr yn cael eu rheoli'n dda, gallwn gefnogi twf gwyrdd a chreu swyddi newydd. Er enghraifft, mae cysylltiadau pwysig rhwng argaeledd dŵr a chynhyrchu ynni, fel a ddangosir ym mlwch 2. Yn benodol, mae cynhyrchu ynni dŵr yn ffynhonnell ynni carbon isel sy'n gallu cyfrannu at y datblygiad gwledig y

mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i'w annog a'i gefnogi'n ariannol. Rydym wedi gweld cynnydd sylweddol yn nifer y prosiectau datblygu ynni dŵr bach (llai na 100 cilowat) yng Nghymru yn ddiweddar. Mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn nifer y ceisiadau am gefnogaeth ar gyfer cynlluniau ynni dŵr cymunedol i raglen Ynni'r Fro Llywodraeth Cymru[35].

## Prif Gamau Gweithredu

- Byddwn yn adolygu'r broses o gyflwyno deddfwriaethau domestig a rhyngwladol yn barhaus, er mwyn nodi synergedd, cyfleodd i symleiddio a chost-effeithlonrwydd ac ystyried blaenoriaethau dalgylchoedd.
- Rydym yn ymgynghori ar Gynllun Datblygu Gwledig terfynol, diwygiedig a fydd, drwy integreiddio ein dulliau rheoli adnoddau naturiol yn sicrhau, yn amodol ar gytundeb y Comisiwn Ewropeaidd, bod yr amgylchedd dŵr yn cael ei ystyried wrth ddarparu cyngor ac wrth gynllunio cymhellion.
- Byddwn yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru i ddatblygu'r Paneli Cyswllt Rheoli Basn Afon fel dull o ehangu cyfranogiad cymunedau yn y gwaith o ddatblygu polisi dŵr ar lefel dalgylchoedd lleol. Bydd hyn yn helpu i hysbysu, ac yn esblygu gyda'r gwaith o ddatblygu ymagwedd rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal.
- Rydym yn adolygu ein system trwyddedau tynnu dŵr er mwyn hysbysu polisïau yn y dyfodol mewn cysylltiad â rheoli adnoddau dŵr. Yn ddiweddar, gwnaethom gynnal ymgynghoriad ar yr opsiynau a byddwn yn cyhoeddi ein hymagwedd derfynol yn 2014.
- Byddwn yn cynnwys eithriadau tynnu dŵr i'r system drwyddedu.
- Byddwn yn asesu'r cyfleodd i berchenogion ein cyfalaf naturiol a busnesau i sefydlu taliad ar gyfer marchnad gwasanaethau ecosystemau.

## Cwestiynau Ymgynghori

**1.** O safbwynt gweithredu'r ddeddfwriaeth, a oes unrhyw feysydd penodol yr hoffech i ni ganolbwyntio arnynt?

**2.** A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ac ehangu cyfranogiad cymunedau mewn dulliau rheoli dalgylchoedd integredig?

**3.** Rydym wedi dangos y cysylltiadau agos rhwng rheoli tir a rheoli'r amgylchedd dŵr. A ydych chi'n ymwybodol o enghreifftiau o arfer da y byddai'n bosibl eu hailgynhyrchu mewn mannau eraill?

---

[35] http://www.energysavingtrust.org.uk/wales/Communities/Finding-funding/Ynni-r-Fro-programme/Rhaglen-Ynni-r-Fro
Ers 2010, mae Ynni'r Fro wedi derbyn 53 o geisiadau gan gynlluniau dŵr cymunedol ac o'r rhain dylai tua 25 ohonynt aeddfedu dros y ddwy i dair blynedd nesaf.

**4**: Pa gyfleoedd ydych chi'n eu rhagweld i ddatblygu cynlluniau TWE mewn cysylltiad â rheoli dŵr yng Nghymru? Beth ydych chi'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud i ddatblygu'r cynlluniau hyn?

**5.** Beth arall y gallwn ei wneud er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n dŵr, yn arbennig yn nhermau cefnogi ein hagenda ar gyfer twf gwyrdd?

## 4.2 Gweithredu i Leihau Llygredd

### Prif Faterion

### Mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig

Mae gweithredu i atal a rheoli llygredd dŵr yn hollbwysig er mwyn diogelu ansawdd dŵr.  Mae effaith llygredd ffynhonnell o bwys (o safleoedd penodol megis gwaith trin carthion neu eiddo diwydiannol) wedi'i lleihau o ganlyniad i reoliadau rheolaethol a buddsoddiad gan gwmnïau.  Fodd bynnag, mae bygythiad yn bodoli o hyd i'r amgylchedd dŵr gan lygredd gwasgaredig.  Mae llygredd gwasgaredig yn digwydd o ganlyniad i nifer o weithgareddau sy'n aml yn deillio o ffynonellau llygredd bychain a allai fod yn anodd eu nodi a'u rheoli.  Maent yn digwydd ym mhob sector economaidd, a gallant ddigwydd hefyd o ganlyniad i'n gweithgareddau ni fel unigolion.  Mae hyn yn golygu y gall pob un ohonom helpu i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig.



Mae arferion rheoli tir gwael mewn ardaloedd trefol a gwledig yn gallu achosi llygredd gwasgaredig.  Er mwyn sicrhau bod gennym ymagwedd gydgysylltiedig ar gyfer rheoli tir a dŵr, sy'n mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig, byddwn yn gweithio gyda'r sectorau adeiladu, coedwigaeth ac amaethyddiaeth i ddeall, adolygu a, lle y bydd yn briodol, newid yr arferion presennol.  Mae'r Cynlluniau Rheoli Basn Afon[36][37][38] yn datgan

[36] Cynllun Rheoli Basn Afon Dyfrdwy Asiantaeth yr Amgylchedd - http://www.environment-agency.gov.uk/cy/ymchwil/cynllunio/124748.aspx ,
[37] Cynllun Rheoli Basn Afon Gorllewin Cymru Asiantaeth yr Amgylchedd - http://www.environment-agency.gov.uk/cy/ymchwil/cynllunio/125095.aspx?

bod dulliau rheoli tir gwael yn rhoi pwysau sylweddol ar yr amgylchedd dŵr yng Nghymru, barn sy'n cael ei chefnogi yn ein hymgynghoriad cychwynnol ar y Strategaeth hon. Pwysleisiodd tystiolaeth bellach faint y broblem mewn cyfres o "Arolygon Teithiau Cerdded ar hyd yr Afon" a gynhaliwyd ar gyfer Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru yn 2011.

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi cynhyrchu cynllun gweithredu ar lygredd gwasgaredig[39] a fydd yn helpu i arwain a llywio blaenoriaethau lleol fel rhan o'r ymagwedd Cynlluniau Basn Afon[40]. Mae'r cynllun yn amlygu wyth maes sy'n peri pryder ac mae'n disgrifio'r camau gweithredu y mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu eu cymryd i weithio gyda'r rhai sy'n achosi'r problemau i leihau llygredd dŵr gwasgaredig.

**Blwch 3 – Wyth maes blaenoriaeth ar gyfer Mynd i'r Afael â Llygredd Gwasgaredig**

Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi nodi wyth maes blaenoriaeth ar gyfer mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig yn eu cynllun Llygredd Gwasgaredig i Gymru. Y rhain yw:

- ystadau diwydiannol,
- gollyngiadau carthion bach sy'n gwasanaethu eiddo preifat, gan gynnwys tanciau carthion,
- camgysylltiad draenio,
- draenio dŵr wyneb o ardaloedd datblygedig,
- rheoli da byw,
- rheoli tir,
- storio – slyri, tanwydd, olew, cemegau,
- dŵr mwyngloddiau

Wrth gyflwyno'r cynllun hwn, ac er mwyn sicrhau bod gennym ymagwedd gydgysylltiedig ar gyfer rheoli tir a dŵr sy'n mynd i'r afael â llygredd dŵr gwasgaredig, byddwn yn gweithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a'r sectorau adeiladu ac amaethyddiaeth i ddatblygu dealltwriaeth gyffredin o'r broblem ac i nodi a gweithredu gwelliannau i arferion presennol.

---

[38] Cynllun Rheoli Basn Afon Hafren Asiantaeth yr Amgylchedd - http://www.environment-agency.gov.uk/research/planning/124941.aspx http://www.environment-agency.gov.uk/cy/ymchwil/cynllunio/124941.aspx?

[39] Cyfoeth Naturiol Cymru - Cynllun Gweithredu ar gyfer Llygredd Gwasgaredig http://naturalresourceswales.gov.uk/our-work/policy-advice-guidance/water-policy/?lang=cy#.Uz1RL7lOXxM

[40] Mae Rheoli Basn Afon yn broses gynllunio a chyflenwi barhaus (I ddatblygu Cynlluniau Rheoli Basn Afon). Mae'r Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn cyflwyno cyfres ffurfiol o gylchoedd o 6 blynedd. Bydd y cylch cyntaf yn dod i ben yn 2015 pan fydd y Cynlluniau Rheoli Basn Afon yn cael eu diweddaru a'u hail-gyflwyno, yn dilyn gwaith cynllunio ac ymgynghori pellach.

**Darparu cyngor a chyllid er mwyn atal llygredd a gwella arferion rheoli tir**

Rydym yn cefnogi ffocws ar atal llygredd yn y lle cyntaf. Rydym yn disgwyl i'n rheoleiddwyr weithredu ymagwedd ragweithiol wrth weithio gyda pherchenogion a busnesau drwy ddarparu cyngor ac arweiniad er mwyn mynd i'r afael ag achosion sylfaenol llygredd. Rydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu effeithiolrwydd eu canllawiau yn rheolaidd a rhoi cyngor.

I fusnesau, mae Llywodraeth Cymru (drwy Busnes Cymru) a Cyfoeth Naturiol Cymru eisoes yn darparu nifer o adnoddau atal llygredd amrywiol sy'n ceisio helpu i leihau'r risgiau gyda chyngor hawdd ei ddefnyddio. Rydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru nodi'r ffordd orau o dargedu a chyflenwi'r adnoddau hyn yn y dyfodol, gan weithio gydag asiantaethau eraill y llywodraeth a phartneriaid busnes pan fydd hynny'n briodol.

Rydym yn cydnabod pwysigrwydd helpu tirfeddianwyr i weithredu arferion rheoli tir cynaliadwy. Gyda thua 80% o'r tir yn cael ei ddefnyddio at ddibenion cynhyrchu amaethyddol, mae rheoli tir yn chwarae rhan bwysig wrth benderfynu ar ansawdd ein tir a'n hamgylchedd dŵr. Mae Ffigur 4 yn awgrymu mai llygredd amaethyddol yw un o'r prif resymau dros fethiant y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr. Mae'r rhan fwyaf o'r methiannau hyn yn gysylltiedig â thrin silwair a slyri. Gall cynlluniau rheoli maethynnau wella arferion rheoli tir, gan helpu i leihau'r broses o golli maethynnau yn cynnwys nitrogen a ffosfforws o gaeau a chyrsiau dŵr ac felly gallant ddarparu buddiannau ariannol i'r ffermwyr, yn ogystal â diogelu'r amgylchedd dŵr. Mae ein CDG presennol yn cynnwys darparu cyllid i ddatblygu cynlluniau rheoli maethynnau mewn rhai amgylchiadau. Mae ein Cynllun arfaethedig ar gyfer 2014-20 yn cynnwys cyngor a chyllid ar gynlluniau rheoli maethynnau drwy'r Gwasanaeth Cynghori Ffermwyr.

Mae'r Gyfarwyddeb Nitradau yn cyflwyno gofyniad i fonitro nitradau mewn dŵr a dynodi tir fel Ardal Perygl Nitradau pan fydd angen, er mwyn darparu diogelwch priodol. Bydd Cyfoeth Naturiol Cymru yn parhau i weithio'n agos i fonitro nitradau mewn crynofeydd dŵr a bydd hefyd yn gweithio'n agos gyda ffermwyr a thirfeddianwyr i'w helpu i leihau'r nitradau sy'n cael eu colli o'u tir a nodi yn arbennig yr ardaloedd hynny lle gallai gweithredu yn awr atal y gofyniad i ddynodi yn y dyfodol.

Byddwn yn parhau i weithio ar draws Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Cynllun Datblygu Gwledig (CDG) a chynlluniau megis Glastir[41] yn ystyried gwella'r dulliau rheoli dŵr; a chynnal a gwella bioamrywiaeth lle bynnag y bydd yn bosibl (*gweler adran 4.1 Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau t23-34).* Bydd y cynigion integredig ar gyfer rheoli adnoddau naturiol ym

[41] Glastir yw cynllun Llywodraeth Cymru sy'n talu am gyflenwi nwyddau a gwasanaethau amgylcheddol penodol

Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd[42] yn sicrhau bod blaenoriaethau a chyfleoedd, a chymhellion ariannol priodol, yn cael eu halinio'n well ar lefel genedlaethol a lleol.

**Gwella ymagweddau rheoliadol er mwyn mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig**

Yn ystod ein hymgysylltiad cychwynnol wrth ddatblygu'r Strategaeth hon, cyflwynwyd nifer o safbwyntiau ar yr anawsterau sy'n wynebu Cyfoeth Naturiol Cymru wrth gymryd camau rheoliadol ar lygredd gwasgaredig yn y system reoliadol bresennol. Mae'n anodd i Cyfoeth Naturiol Cymru reoli llygredd gwasgaredig drwy gyhoeddi trwyddedau neu ganiatâd. Er bod gan Cyfoeth Naturiol Cymru bwerau sefydledig i fynd i'r afael â materion llygredd dŵr difrifol a chronig, nid yw ei bwerau rheoliadol presennol yn ddigonol er mwyn mynd i'r afael â phroblemau llygredd gwasgaredig. Byddai safonau rheoliadol ehangach, ond a fyddai'n hawdd eu gorfodi, yn helpu i ddarparu eglurder a hyblygrwydd gweithredol i fusnesau.

Credwn y byddai rheolau rhwymol cyffredinol yn ddull defnyddiol ac addas i ddelio â llygredd gwasgaredig. Mae'r ymagwedd hon yn darparu dulliau cymesur o fynd i'r afael â gweithgareddau a allai niweidio'r amgylchedd, y mae rhai ohonynt eisoes yn cael eu rheoleiddio drwy drwyddedau neu ganiatâd, ac sy'n gallu gweithio i wella ansawdd yr amgylchedd drwy ddarparu arfer gorau a dderbynnir ar gyfer gweithgarwch fel safon i'w ddilyn. Maent yn cael eu defnyddio yn yr Alban i fynd i'r afael â gweithgareddau risg isel sy'n gyfrifol am nifer o broblemau llygredd dŵr gwasgaredig. Er mai effaith gymharol fach y mae'r math hwn o lygredd yn ei chael ar yr amgylchedd, gall yr effaith gronnus fod yn ddifrifol.

Gall rheolau rhwymol cyffredinol gyflwyno cyfres o reolau ar gyfer gweithgarwch yr ydym yn credu fydd yn gweithio'n effeithiol ochr yn ochr â chosbau cymesur. Byddai'r rheolau'n cael eu cynllunio er mwyn amlinellu arfer da, a fyddai'n diogelu'r amgylchedd. Er enghraifft, yn hytrach na galw am gydymffurfiaeth gyda safon rifol ar gyfer olew sy'n cael ei ryddhau o wahanwr olew, sy'n anodd yn dechnegol i'w fonitro ac yn ddrud, gallai rheolau alw am waith archwilio a chynnal a chadw rheolaidd a chadw golwg ar gofnodion archwiliadau a chynnal a chadw. Maent yn ddelfrydol ar gyfer gweithgareddau risgiau isel sy'n gyfrifol yn aml am nifer o broblemau llygredd dŵr gwasgaredig.

Gall rheolau rhwymol cyffredinol, o'u defnyddio gyda chosbau ariannol amrywiadwy a hysbysiadau cyfreithiol, helpu Cyfoeth Naturiol Cymru i fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig yn fwy effeithiol. Byddai hyn hefyd yn hwyluso'r gost o gyflenwi amcanion y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr yn effeithiol yng Nghymru.

[42] Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd - http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?skip=1&lang=cy

Rydym yn cynnig defnyddio Bil yr Amgylchedd i ehangu cwmpas ein pwerau ar reolau rhwymol cyffredinol, lle gellir dangos bod y rhain yn ddull effeithiol o fynd i'r afael â llygredd gwasgaredig a materion amgylcheddol eraill, gan gynnwys:

- Gweithgareddau sy'n debygol o gael effaith andwyol ar yr amgylchedd dŵr, gan gynnwys
  - gweithgareddau sy'n gysylltiedig â llygredd gwasgaredig
  - tynnu dŵr o'r amgylchedd dŵr
- Gweithgareddau a allai leihau'r perygl o lifogydd
- Gweithgareddau a allai gael effaith negyddol ar ansawdd pridd
- Gweithgareddau a allai gael effaith negyddol ar fioamrywiaeth

Roedd yr ymgynghoriad diweddar ar Fil yr Amgylchedd yn gofyn am safbwyntiau ar roi'r pŵer i Weinidogion Cymru sefydlu Rheolau Rhwymol Cyffredinol. Cafwyd cefnogaeth gyffredinol gan yr ymatebwyr i'w defnyddio i reoleiddio gweithgarwch risg isel. Am nad yw pob un o'r meysydd hyn yn ymwneud â llygredd gwasgaredig, cynhelir ymgynghoriad pellach ar y rheolau ar reoli tir drwy ymgynghoriad ar ofynion trawsgydymffurfio.

Nid ydym yn bwriadu rhestru'r rheolau penodol a fydd yn cael eu sefydlu mewn deddfwriaeth sylfaenol. Gwneir hyn yn nes ymlaen drwy is-ddeddfwriaeth, ar ôl nodi'r angen am reol rwymol gyffredinol ac asesu'r dystiolaeth ar gyfer cymeradwyo'r cynnig. Rydym yn cynnig mai Cyfoeth Naturiol Cymru fydd y corff gorfodi ar gyfer y rheolau rhwymol cyffredinol. Bydd Bil yr Amgylchedd yn cyflwyno cosbau ariannol amrywiadwy am dorri'r rheolau hyn. Byddai'r cosbau hyn yn cyd-fynd â phwerau presennol Cyfoeth Naturiol Cymru i gyhoeddi cosbau ariannol amrywiadwy, sy'n cael eu nodi yn Neddf Gorfodi Rheoleiddiol a Sancsiynau 2008.

Mae llygredd olew wedi parhau i effeithio ar yr amgylchedd dŵr yng Nghymru, ac mae'r rhain yn deillio yn aml o ollyngiadau olew o danciau storio a phibellau israddol. Rydym yn bwriadu ymgynghori ar reoliadau ar gyfer safonau gofynnol ar gyfer storio olew, oherwydd mae'r rhain wedi bod yn effeithiol yn yr ymdrechion i leihau llygredd gwasgaredig o ffynonellau storio a chyflenwi olew mewn rhannau eraill o'r DU.

**Cynnal rheoliadau yn ffynhonnell y llygredd**

Rydym yn cydnabod bod gollyngiadau o weithfeydd trin carthion, systemau carthffosydd, gweithgareddau diwydiannol a ffynonellau eraill yn gallu achosi llygredd. Rydym yn disgwyl i weithredwyr y safleoedd a'r systemau hyn gynllunio i fuddsoddi ynddynt a'u cynnal a'u cadw er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'u trwyddedau amgylcheddol. Rydym hefyd yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru gynnal ei safonau uchel o roi caniatâd, monitro a gorfodi'r gweithgareddau hyn pan fydd angen.

## Prif gamau gweithredu

Mae llygredd gwasgaredig wedi'i nodi mewn Cynlluniau Rheoli Basn Afon fel y prif fater ar gyfer diogelu a gwella ansawdd dŵr yng Nghymru. Gan weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru, rydym wedi nodi nifer o fesurau a fydd yn helpu i ddarparu ymagwedd fwy cytbwys at leihau llygredd gwasgaredig o ardaloedd gwledig a datblygedig. Yn eu plith mae:

- Rheoliadau i leihau llygredd olew. Rydym yn bwriadu cynnal ymgynghoriad ar hyn yn 2014.
- Byddwn yn gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru adolygu effeithiolrwydd ei ddarpariaeth bresennol o gyngor ar atal llygredd a'i gamau gorfodi er mwyn sicrhau eu bod yn addas at y diben.
- Byddwn yn annog Cyfoeth Naturiol Cymru a'n Gwasanaethau Cynghori Amaethyddol ein hunain i weithio gyda thirfeddianwyr er mwyn datblygu dealltwriaeth gyffredin o lygredd gwasgaredig a sut y gallant helpu i'w atal drwy ddulliau gwell o reoli'r tir.
- Byddwn yn adolygu sut y gellir defnyddio mentrau a chyllid presennol y Llywodraeth er mwyn helpu i leihau'r risg o lygredd.
- Byddwn yn ymchwilio ymhellach i weld beth fyddai'r ffordd orau o ddefnyddio rheolau rhwymol cyffredinol yng Nghymru, yn arbennig er mwyn mynd i'r afael â llygredd gwasgaredig. Bydd yr ymatebion isod i gwestiynau'r ymgynghoriad yn hysbysu'r ymagwedd a gyflwynir drwy Fil yr Amgylchedd o ran rheolau rhwymol cyffredinol.

## Cwestiynau Ymgynghori

**6.** Ydych chi'n cytuno â'n ffocws ar lygredd gwasgaredig? Os nad ydych, esboniwch pam.

**7.** A oes unrhyw broblemau llygredd ychwanegol y credwch y dylem eu nodi? Os felly, pa gamau gweithredu ydych chi'n credu sydd eu hangen?

**8.** Ydych chi'n cytuno â chwmpas y gweithgareddau ar gyfer y Rheolau Rhwymol Cyffredinol, fel y'u nodir?

**9.** Ydych chi'n cytuno mai cosbau ariannol amrywiadwy yw'r ffordd orau i Cyfoeth Naturiol Cymru orfodi'r rheolau rhwymol cyffredinol?

# 4.3 Gwella'r ffordd yr ydym yn cynllunio ac yn rheoli ein gwasanaethau dŵr

## Prif Faterion

### Gwaith Cynllunio Cwmnïau Dŵr

Mae proses gynllunio fanwl eisoes yn bodoli ar gyfer cynnal a chadw a datblygu ein hadnoddau dŵr a'n systemau cyflenwi. Mae gan gwmnïau dŵr ddyletswydd statudol i gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Adnoddau Dŵr bob pum mlynedd. Mae'n rhaid i bob cynllun ddangos cyflenwadau a'r galw am ddŵr dros gyfnod o 25 mlynedd i'r cwmni ac mae'n rhaid iddynt ystyried amcanestyniadau o newid yn yr hinsawdd, twf yn y boblogaeth yn ogystal â hysbysu cynlluniau seilwaith a buddsoddi'r cwmnïau dŵr yn y dyfodol.

Mae'n rhaid i gwmnïau dŵr gynhyrchu cynllun sychder ar gylch o bum mlynedd, sy'n nodi'r camau gweithredu y byddant yn eu cymryd yn y tymor byr wrth i gyfnod o sychder barhau. Mae'r cynlluniau hyn yn hysbysu cynlluniau rheoli asedau cwmnïau, sy'n rhoi amlinelliad o'u cynlluniau buddsoddi arfaethedig dros gylch o bum mlynedd, y Cylch Cynllunio Rheoli Asedau. Yr ydym yn credu y dylai'r broses hon fod yn gydnaws â'r ymagwedd o reoli adnoddau naturiol ar sail ardal.

Fodd bynnag, nid oes gofyniad i ymgymerwyr carthffosiaeth ddatblygu a chynnal cynllun strategol ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth. Mae'r rhan fwyaf o'r rhwydwaith carthffosydd yn hen, mae carthffosydd Dŵr Cymru ar gyfartaledd yn 60 oed, er bod rhai ohonynt yn dyddio yn ôl i'r cyfnod Fictoraidd. Ar y lefelau buddsoddi presennol, mae'n bosibl na fydd carthffosydd cyhoeddus newydd yn cael eu gosod am hyd at 700 o flynyddoedd[43]. Mae angen archwilio, cynnal a chadw ac uwchraddio'r seilwaith carthffosydd a draeniau hyn sy'n heneiddio, er mwyn iddynt allu parhau i weithredu'n effeithiol ac mae angen ystyried yr effaith ar filiau cwsmeriaid yn awr ac yn y dyfodol.

Yr ydym yn credu bod angen gwaith cynllunio hirdymor ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth fel rhan o gylch cynllunio cyfredol, sydd wedi'i gysylltu â chynlluniau datblygu awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau pan fydd datblygiadau newydd yn cael eu cyflwyno, bod cyfleusterau dŵr gwastraff digonol ar gael i gyflawni'r amcanion ansawdd dŵr. Gallai'r gwaith cynllunio hwn ddilyn yr un broses â'r cynlluniau rheoli adnoddau dŵr a sychder. O ystyried nad oes gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer carthffosiaeth, byddwn yn gweithio gyda'r cwmnïau dŵr i gyflwyno gwaith cynllunio ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn wirfoddol.

Credwn hefyd bod cyfleoedd i edrych ar amseriad ac aliniad y swyddogaethau cynllunio amrywiol hyn, er mwyn lleihau'r baich ar y

---

[43] http://www.dwrcymru.com/library/PR14/YCYP_Eng.pdf

cwmnïau sydd â phrosesau cynllunio gwahanol. Gallai hyn sicrhau bod gan eu cynlluniau busnes ymagwedd sy'n fwy strategol.

Wrth chwilio am gyfleoedd i ddiwygio amseriad ac aliniad y cynlluniau hyn, rydym yn awyddus i sicrhau bod y broses gynllunio yn arddangos ac yn cynnwys:

- Cynlluniau rheoli a buddsoddi cydweithredol ar gyfer dalgylchoedd;
- Ymgorffori ac alinio cynlluniau rheoli adnoddau dŵr gyda'r polisi adnoddau naturiol Cenedlaethol a phrosesau cynllunio adnoddau naturiol fesul ardal, sy'n cael eu cynnig ym Mhapur Gwyn Bil yr Amgylchedd, er mwyn sicrhau bod gwaith cynllunio gwasanaethau dŵr yn hysbysu ac yn ystyried ein blaenoriaethau ar gyfer rheoli adnoddau naturiol;
- Rhagdybiaeth o blaid atebion cynaliadwy, a thystiolaeth o'u defnydd yn hytrach nag ehangu neu adnewyddu capasiti'r seilwaith presennol;
- Strategaeth ar gyfer ymgysylltu â rhanddeiliaid, awdurdodau lleol, cwsmeriaid a phobl ifanc;
- Tystiolaeth bod atebion cynaliadwy ar gyfer dŵr gwastraff a thrin wedi cael eu hystyried.

## Gollyngiadau

Mae gollyngiadau dŵr o bibellau cwmnïau dŵr yn wastraff dŵr ac ynni. Fodd bynnag, dim ond pan fydd y buddiannau o leihau gollyngiadau yn fwy na'r costau y bydd rheidrwydd ar gwmnïau i ddelio â hyn. Mae hyn yn flaenoriaeth bwysig i gwsmeriaid, a gall niweidio enw da'r diwydiant. Mae'r diwydiant wedi dangos y gall ganfod ac atgyweirio gollyngiadau yn fwy effeithiol – mae nifer y gollyngiadau wedi gostwng 36% ers 1994-95 a disgwylir i'r nifer ostwng 3% arall erbyn 2015[44].

Wrth i dechnoleg a thechnegau rheoli ddatblygu, ac wrth i werth dŵr fel adnodd naturiol hollbwysig gynyddu, rydym yn disgwyl i lefelau gollyngiadau barhau i leihau. Mae'n rhaid i gwmnïau dŵr roi ystyriaeth lawn i reoli gollyngiadau fel rhan o ffordd effeithlon o gynnal cyflenwad dŵr diogel i gwsmeriaid. Rydym yn disgwyl i gwmnïau ddatblygu ymagwedd strategol at reoli gollyngiadau, a ddylai hysbysu eu rhagolygon o ollyngiadau yn yr hirdymor, rhagolygon sy'n cael eu cynhyrchu fel rhan o'u cynlluniau rheoli adnoddau dŵr. Rydym yn disgwyl i gwmnïau ragweld gostyngiad yng nghyfanswm y gollyngiadau yn ystod y cyfnod cynllunio. Os na fydd hyn yn bosibl, yna mae'n rhaid i gwmni dŵr gyfiawnhau ei sefyllfa yn glir. Fel isafswm, rydym yn disgwyl i bob cwmni gymryd camau gweithredu i sicrhau nad yw'r rhagolygon o gyfanswm y gollyngiadau yn cynyddu uwch ar unrhyw adeg yn y cyfnod cynllunio ac ni ddylai achosi diffyg yn y cyflenwad.

[44] Manteisio i'r eithaf ar bob Diferyn – Ymgynghoriad ar ddiwygio'r system rheoli tynnu dŵr - http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/making-the-most-of-every-drop/?skip=1&lang=cy

Rydym yn cydnabod y gall amodau tywydd difrifol achosi problemau gyda gollyngiadau a byddwn yn disgwyl i gwmnïau dŵr gynllunio ar gyfer rhwydwaith sy'n fwy cydnerth.  Rydym yn disgwyl i gwmnïau barhau i arloesi a datblygu arbenigedd wrth atal, nodi ac atgyweirio gollyngiadau yn fwy effeithiol.  Rydym yn disgwyl i Ofwat barhau i gyflwyno gwelliannau ar gyfer gollyngiadau, gan adeiladu ar y gwelliannau sydd eisoes wedi'u cyflawni ers i'r targedau gael eu cyflwyno.

## Hyrwyddo Defnydd Effeithlon o Ddŵr

Mae defnyddio dŵr yn effeithlon, fel unigolion a busnesau, yn rhan hanfodol o reoli ein hadnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy yn y tymor hwy.  Mae defnyddio dŵr mewn ffordd fwy effeithlon hefyd yn helpu i leihau'r ynni sy'n cael ei ddefnyddio, mae'n arbed arian ac yn gwneud synnwyr busnes da.  Mae gwelliannau i effeithlonrwydd ynni yn hollbwysig ar gyfer twf gwyrdd – gan wella gwytnwch a chynhyrchiant busnesau, cymunedau a sefydliadau gwasanaeth cyhoeddus, lleihau effeithiau defnydd a chynhyrchiant, trechu tlodi a lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr.



Mae'r defnydd yr ydym ni'n ei wneud o ddŵr fel unigolion wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf[45]. Er mwyn annog pobl i ddefnyddio llai o ddŵr, mae angen inni roi mwy o werth ar ein dŵr fel adnodd a gwneud mwy i ddefnyddio dŵr yn effeithlon.  Oherwydd yr ynni sy'n cael ei ddefnyddio wrth drin a chyflenwi dŵr yfed, bydd unrhyw ostyngiad yn y defnydd o ddŵr hefyd yn helpu i leihau ein hôl troed carbon.

[45] Asiantaeth yr Amgylchedd – Save Water - http://www.environment-agency.gov.uk/homeandleisure/beinggreen/117266.aspx

Mae ein gwaith yn datblygu'r Strategaeth hon wedi dangos yr angen am well dealltwriaeth o agweddau at ddŵr a'r ffyrdd mwyaf effeithiol o leihau defnydd y pen. Byddwn yn gweithio gyda'r cwmnïau dŵr a phartïon perthnasol eraill i ymchwilio i agweddau'r cyhoedd at ddefnyddio dŵr a gwerth dŵr yng Nghymru a byddwn yn ystyried gwerth targedau cwmnïau ar gyfer defnydd y pen.

Ochr yn ochr â hyn byddwn yn gweithio gyda rheolwyr cynlluniau tlodi tanwydd Llywodraeth Cymru, Nest ac Arbed, er mwyn annog mesurau arbed dŵr fel rhan o'u pecynnau cymorth. Bydd hyn hefyd yn galluogi i fesuryddion effeithlonrwydd dŵr ac ynni gael eu gosod mewn tai yr un pryd, gan gynyddu effaith y cynlluniau hyn a lleihau nifer yr ymweliadau i eiddo.

Fel rhan o'n hymdrechion i sicrhau bod ein hadnoddau yn cael eu rheoli mewn ffordd gynaliadwy, yn awr ac yn y dyfodol, byddwn hefyd yn asesu ac yn ymgynghori ar nifer o opsiynau ar gyfer gosod mesuryddion ar gyfer ein holl gyflenwadau dŵr yng Nghymru mewn rhaglen raddol a chymesur. Mae tystiolaeth[46] sy'n cefnogi'r gred y gallai hyn, gyda strwythurau tariff priodol ac arloesol, gan gynnwys Tariffau Cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar anghenion cwsmeriaid, annog defnyddwyr i roi mwy o ystyriaeth i werth dŵr a'u defnydd ohono. Hefyd, mae system lle mae pob busnes a chwsmer domestig yn talu am yr hyn maent yn ei ddefnyddio yn fwy eglur a theg.

Rydym yn cydnabod y byddai angen cyflwyno rhaglen mesuryddion dŵr i Gymru mewn cydweithrediad â strwythurau codi taliadau arloesol, gan gynnwys tariffau cymdeithasol, er mwyn sicrhau bod cartrefi sydd â phroblemau fforddiadwyedd yn cael eu diogelu. Bydd angen rhoi ystyriaeth ofalus i gostau gosod, cynnal a chadw a darllen y mesuryddion wrth asesu'r opsiynau a'r effaith ar filiau cwsmeriaid. Byddwn yn disgwyl i gwmnïau dŵr edrych ar dechnoleg arloesol ar gyfer eu cyflwyno. Byddwn yn gweithio gyda'r cwmnïau dŵr, rheoleiddwyr a'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr i ddatblygu opsiynau ar gyfer gosod mesuryddion ar gyfer pob cyflenwad dŵr.

Byddwn hefyd yn gweithio gyda'r cwmnïau dŵr a phartïon perthnasol eraill i annog a chymell ymgysylltiad y cyhoedd ar y defnydd a wneir o ddŵr, herio canfyddiadau a hyrwyddo buddiannau effeithlonrwydd dŵr. Ein nod yw cynorthwyo defnyddwyr domestig a defnyddwyr busnes i leihau eu defnydd o ddŵr drwy newid eu gweithgareddau a disodli hen ddyfeisiadau dŵr aneffeithlon gyda rhai newydd gan gynnwys cawodydd, toiledau, tapiau a pheiriannau. Mae Llywodraeth Cymru yn gweithio yn awr i gyflwyno fframwaith ar gyfer darparu gwasanaethau cynghori arbenigol. Darperir mynediad at y gwasanaethau hynny drwy Busnes

[46] Wessex Water Towards Sustainable Charging - http://www.wessexwater.co.uk/about/threecol.aspx?id=9026&linkidentifier=id&itemid=9026

Cymru[47] (ar gyfer busnesau), Cyswllt Ffermio[48] (ar gyfer busnesau Fferm a Choedwigoedd), a drwy wasanaeth cynghori ar adnoddau a fydd yn helpu cartrefi, cymunedau a sefydliadau'r sector cyhoeddus i fynd i'r afael â materion effeithlonrwydd adnoddau.

**Diogelwch cyflenwad**

Mae llifogydd, cyfnodau hir o dywydd sych, a digwyddiadau tywydd eithafol eraill yr ydym wedi'u profi ar draws y DU yn y blynyddoedd diwethaf wedi dangos bod angen i'n gwasanaethau a'n rhwydweithiau cyflenwi dŵr a dŵr gwastraff allu parhau i weithredu er gwaethaf digwyddiadau o'r fath a bod angen cynllunio'n effeithiol ar gyfer argyfyngau. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer rheoli ein hamgylchedd dŵr yn gyffredinol.

Byddwn yn parhau i weithio gyda'r cwmnïau dŵr i ddatblygu cynlluniau sy'n nodi asedau strategol, sy'n ystyried effaith colli gwasanaeth a chynllunio darpariaethau amgen. Os bydd angen, mae gennym y pŵer i gyhoeddi Cyfarwyddiadau Mesurau Diogelwch a Brys a Chanllawiau cysylltiedig sy'n ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau dŵr gymryd camau priodol i ddarparu system ddiogel a byddwn yn asesu'r angen am Gyfarwyddiadau o'r fath ar sail barhaus.

**Lleihau effeithiau newid yn yr hinsawdd**

Yn ogystal â sicrhau bod gwasanaethau dŵr yn gallu gwrthsefyll amodau tywydd eithriadol, mae gan y sector dŵr rôl bwysig yn y gwaith o leihau allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae Strategaeth Newid yn yr Hinsawdd Llywodraeth Cymru yn pennu targedau clir ar gyfer lleihau'r allyriadau hyn, yn ogystal â fframwaith i helpu i sicrhau bod Cymru yn addasu i effeithiau newid yn yr hinsawdd. Defnyddiodd sector dŵr y DU 8,650 GWh[49] o drydan yn 2008/9 ac yn 2006/7 roedd yn gyfrifol am 5.5%[50] o allyriadau nwyon tŷ gwydr. Mae gan y cwmnïau rôl bwysig yn yr agenda lleihau allyriadau ac addasu drwy leihau eu defnydd, cynhyrchu eu hynni eu hunain a darparu cyngor ar ddŵr ac ynni i gartrefi. Rydym yn disgwyl i gwmnïau adlewyrchu camau addasu i leihau allyriadau a newid yn yr hinsawdd yn eu Cynlluniau Rheoli Asedau.

---

[47] Busnes Cymru - http://business.wales.gov.uk/cy
[48] Cyswllt Ffermio - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/farmingconnect/?lang=en
[49] Ofwat Playing our part – how can we cut greenhouse gas emissions in the water and sewerage sectors? - http://www.ofwat.gov.uk/sustainability/climatechange/prs_web_1007emissions
[50] Adroddiad Gwyddoniaeth Asiantaeth yr Amgylchedd SC0700010 - http://www.environment-agency.gov.uk/static/documents/Research/The_greenhouse_gas_implications_of_future_water_resources_options_-_SUMMARY.pdf

## Prif gamau gweithredu

- Er mwyn lleihau'r baich cynllunio ar gwmnïau dŵr, byddwn yn adolygu'r prosesau deddfwriaethol, rheoliadol a chynllunio sy'n gysylltiedig â rheoli gwasanaethau dŵr.
- Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr i gyflwyno gofyniad newydd ar gyfer cynlluniau rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth ar sail wirfoddol.
- Byddwn yn ymchwilio i agweddau'r cyhoedd ar y defnydd a wneir o ddŵr a gwerth dŵr yng Nghymru, er mwyn helpu busnesau a chartrefi i wneud defnydd mwy effeithlon o ddŵr.
- Byddwn yn ymgynghori ar sut y gallwn leihau defnydd domestig a defnydd busnes a rôl mesuryddion dŵr yn y cynllun hwn. Byddwn yn addasu dichonolrwydd targedau defnydd y pen er mwyn annog effeithlonrwydd.
- Byddwn yn sefydlu gwasanaeth cynghori newydd ar adnoddau er mwyn helpu i fynd i'r afael â materion effeithlonrwydd adnoddau.
- Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr ac Ofwat i sicrhau bod gwasanaethau dŵr yn gallu gwrthsefyll digwyddiadau tywydd eithafol a chynhyrchu Cynlluniau Gwrthsefyll ar gyfer y Sector. Byddwn yn cyflwyno Cyfarwyddiadau Mesurau Diogelwch a Brys a chanllawiau fel y bo'n briodol.

## Cwestiynau Ymgynghori

**10.** Ydych chi'n cytuno â'r egwyddor o alinio'r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a'r Cynllun Sychder gyda'r Cylch Cynllunio Rheoli Asedau?

**11.** Ydych chi'n cytuno bod angen gwella ein cynlluniau ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn yr hirdymor?

**12.** Sut y gallwn ni sicrhau bod cynlluniau Cwmnïau Dŵr yn cysylltu â chynlluniau rheoli adnoddau naturiol ehangach? Beth yw eich barn ar sut y dylid cyflwyno hyn?

**13.** Ydych chi'n cytuno â'r cynigion i annog defnydd mwy effeithlon o ddŵr? A oes yna unrhyw gamau gweithredu pellach y gallwn eu cymryd?

**14.** Ydych chi'n cytuno â'n hymagwedd ar gyfer mesuryddion? Pa ffactorau eraill y dylem eu hystyried?

**15.** Ydych chi'n cytuno â'r ymagwedd hon ar gyfer rheoli gollyngiadau? A oes ffyrdd y gallwn sicrhau bod gollyngiadau yn cael eu lleihau mewn ffordd gynaliadwy?

## 4.4 Fforddiadwyedd Dŵr a Darparu Gwasanaethau Gwych i Gwsmeriaid

### Prif Faterion

### Mynediad at Wasanaethau Dŵr a Charthffosiaeth Fforddiadwy

Mae sicrhau bod pobl a busnesau yn gallu cael mynediad at wasanaethau dŵr a charthffosiaeth fforddiadwy yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cymru. Yn arbennig, rydym yn pryderu am lefel y taliadau dŵr ac effaith y cynnydd mewn ffioedd ar y cwsmeriaid hynny sy'n cael eu gwasanaethu gan gwmnïau, ac sy'n lleiaf abl i dalu.

Mae fforddiadwyedd dŵr yn un rhan o'r broblem tlodi gyffredinol, lle mae aelwydydd yn cael anhawster i fforddio hanfodion bywyd. Ystyrir bod aelwydydd yn byw mewn tlodi dŵr os byddant yn gwario mwy na 3%[51] o'u hincwm ar eu bil dŵr; os ydynt yn gwario mwy na 5%, ystyrir eu bod mewn tlodi dŵr difrifol. Mae data Ofwat ar gyfer 2009-10[52], yn dangos bod tua 30% o bobl sy'n derbyn gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth gan Dŵr Cymru yn gwario mwy na 3% o'u hincwm ar eu bil dŵr a bod tua 14% yn gwario mwy na 5% o'u hincwm ar eu bil dŵr.

Mae'r *Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi*[53] yn cyflwyno prif amcanion Llywodraeth Cymru ar gyfer atal tlodi yn yr hirdymor, helpu pobl allan o dlodi a lleddfu effeithiau tlodi. Mae'r Cynllun Gweithredu yn cydnabod bod angen inni gydgysylltu mwy gyda'n partneriaid er mwyn sicrhau canlyniadau gwell i bawb yng Nghymru.

Er mwyn cefnogi amcanion y Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi, rydym wedi cyhoeddi canllaw[54] i gwmnïau dŵr a charthffosiaeth ac Ofwat ar dariffau cymdeithasol. Diben y tariffau Cymdeithasol yw lleihau ffioedd i ddefnyddwyr dŵr sy'n cael anawsterau i dalu eu biliau. Roedd Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010[55] yn rhoi pwerau i Lywodraeth Cymru

---

[51] I Fitch, M. a Price, H. Water Poverty in the UK. Cyhoeddwyd gan Public Utilities Access Forum, Gorffennaf 2002, cyhoeddwyd ar y we gan Sefydliad Siartredig Iechyd yr Amgylchedd: www.cieh.org/uploadedFiles/Core/Policy/Publications_and_information_services/Policy_publications/Publications/waterpoverty.pdf

[52] Ofwat, Affordability and debt 2009 -10 – tablau'r cwmni, gwefan Ofwat: http://www.ofwat.gov.uk/future/customers/metering/affordability/pap_tec201105afftables, fel ar 1 Tachwedd 2013. Mae'r tablau hyn yn seiliedig ar amcangyfrifon ar gyfer ardaloedd cwmnïau carthffosiaeth daearyddol ac nid cwsmeriaid cwmnïau penodol. Felly, bydd y rhain yn cynnwys cwsmeriaid cwmnïau dŵr yn unig sy'n gweithredu yn yr un ardaloedd daearyddol.

[53] Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu ar gyfer Trechu Tlodi 2012-16 cyhoeddwyd Mehefin 2012, gwefan Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/topics/socialjustice/publications/tacklepovactionplan/?lang=en

[54] Canllaw Tariffau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/publications/social-tariff-guidance/?skip=1&lang=cy

[55] Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents

gyhoeddi canllawiau i’r cwmnïau dŵr a charthffosiaeth i gynnwys tariffau cymdeithasol yn eu cynlluniau ffioedd. Bydd tariffau cymdeithasol yn galluogi’r cwmnïau hyn i leihau’r costau i bobl a fyddai’n cael anhawster fel arall i dalu eu bil yn llawn. Mae’r Canllaw hefyd yn cyflwyno’r lefelau lle bydd cwsmeriaid yn gyffredinol yn croes-sybsideiddio, er mwyn ariannu Tariffau Cymdeithasol. Wrth fynd i’r afael â fforddiadwyedd, mae angen inni gydbwyso cost unrhyw fesurau yn erbyn y cynnydd dilynol i’r biliau dŵr, gan sicrhau nad oes baich gormodol ar gwsmeriaid yn gyffredinol.

Mae’r canllaw yn cyflwyno’r fframwaith sy’n galluogi’r cwmnïau dŵr i ddatblygu tariff cymdeithasol. Mae’r canllaw yn cynnwys pa ffactorau y mae’n rhaid i gwmnïau dŵr eu hystyried wrth benderfynu a ddylai un grŵp o gwsmeriaid sybsideiddio un arall. Mae hefyd yn esbonio beth y dylai Ofwat ei ystyried wrth gymeradwyo cynlluniau ffioedd. Byddwn yn disgwyl i gwmnïau dŵr gyflwyno tariffau cymdeithasol ar gyfer y cyfnod codi tâl nesaf o 2015.

Byddwn yn adolygu’r defnydd o’r tariffau cymdeithasol hyn, a’u heffeithiolrwydd, fel rhan o adolygiad ehangach o’r cymorth a’r gefnogaeth sydd ar gael i fynd i’r afael â materion fforddiadwyedd. Cynhelir yr adolygiad hwn yn ystod cyfnod yr Adolygiad Pris nesaf (2015 i 2020) er mwyn caniatáu amser i’r cwmnïau dŵr roi mesurau ar waith er mwyn inni allu mesur llwyddiant y mesurau hyn.

## Mynd i'r Afael â Dyled

Ochr yn ochr â’r mesurau i sicrhau fforddiadwyedd dŵr, mae angen ymagwedd effeithiol arnom i leihau’r swm o ddyled drwg sydd gan bob cwmni. Mae dyled drwg yn aml yn cael ei achosi yn y diwydiant dŵr am nad yw’n bosibl casglu’r ddyled (ar ôl disbyddu pob ymdrech resymol) neu mae’r gost adfer yn fwy na’r ddyled. Dros y degawd diwethaf, mae dyled drwg cwmnïau dŵr wedi cynyddu oherwydd yr aelwydydd hynny nad ydynt yn talu eu biliau dŵr a charthffosiaeth[56]. Yng Nghymru, gall y refeniw sy’n cael ei golli ychwanegu cymaint ag £20[57] y flwyddyn i fil aelwyd.

Gellir cysylltu problemau dyled gyda gallu cwsmeriaid i dalu. Dylai rhoi cymorth i aelwydydd sy’n profi anawsterau helpu i leihau lefelau dyled drwg. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i gwmnïau dŵr adnabod eu cwsmeriaid a chynnig atebion arloesol, er enghraifft tariffau sydd wedi’u

[56] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar ymdrin â ‘dyled drwg’ yn y diwydiant dŵr yng Nghymru, Atodiad 2 – Cyfnod Ymgynghori Asesiad Effaith Rheoleiddiol Chwefror 2013, cyhoeddwyd Chwefror 2013, gwefan Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/tackling-bad-debt-in-the-water-industry/?lang=cy

[57] Dŵr Cymru. O’r cwmnïau dŵr sy’n gweithredu’n gyfan gwbl neu’n bennaf yng Nghymru, mae Dŵr Cymru yn amcangyfrif bod swm sy’n gyfwerth ag £20 o fil cyfartalog cwsmeriaid yn mynd tuag at y costau o adfer refeniw dyledus. Fodd bynnag, mae’n bosibl y gallai’r swm hwn amrywio rhwng cwmnïau, oherwydd mae’r dulliau a ddefnyddir i gyfrifo’r swm hwn yn sensitif i bolisïau dileu dyled y cwmnïau unigol. Felly, ystyrir bod y swm £20 yn amcangyfrif uchaf ac felly dylid ei ystyried gyda pheth gofal.

targedu'n briodol a chynlluniau talu, er mwyn lleihau nifer y bobl sy'n mynd i ddyled a chynyddu'r nifer sy'n mynd i'r afael â'u dyledion.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn awyddus i sicrhau bod gan y cwmnïau dŵr yr offer priodol i fynd i'r afael â dyled drwg. Rydym wedi ymgynghori'n ddiweddar ar Reoliadau drafft[58] sy'n ei gwneud yn ofynnol i landlordiaid ddarparu manylion eu henw a'u cyfeiriad eu hunain, yn ogystal ag enw a dyddiad geni'r tenant a dyddiad dechrau eu daliadaeth, i'r cwmni dŵr perthnasol. Byddai hyn yn ei gwneud yn haws i'r cwmnïau dŵr gasglu taliadau am filiau a lleihau'r costau y mae cwsmeriaid eraill yn gorfod eu talu ar hyn o bryd, a fydd yn arwain at filiau dŵr llai i bawb.

Er mwyn cael dealltwriaeth well o ddyled dŵr yng Nghymru, byddwn yn cynnal ymchwil pellach fel rhan o'n hadolygiad ehangach o faterion fforddiadwyedd.

## Gwasanaethau gwych i gwsmeriaid

Dylid sicrhau bod ffocws cryf ar gwsmeriaid yn sail i'r prosesau o gyflenwi gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru, ac mae hyn yn galw am ddealltwriaeth gadarn o anghenion cwsmeriaid heddiw ac yn y dyfodol, yn ogystal rhoi â llais cryf i ddefnyddwyr. Rydym yn awyddus i'r cwmnïau dŵr adeiladu ar waith y Grŵp Her Cwsmeriaid agynhaliwyd yn ystod proses Adolygiad Cyfnodol 2014, gan sicrhau bod dulliau ymgysylltu â chwsmeriaid ac eu gwaith ymchwil o'r fath yn cael eu cynnwys fel rhan allweddol o'u gweithrediadau. Rydym yn disgwyl i'r diwydiant dŵr a rheoleiddwyr ystyried ymchwil eu hunain ar ddefnyddwyr ac ymchwil partïon eraill ac ymateb yn briodol i ganfyddiadau'r ymchwil. Rydym hefyd yn disgwyl i gwmnïau sy'n gweithredu yng Nghymru fod ymhlith y goreuon ar bob mesur perfformiad, gan gynnwys y rhai sy'n gysylltiedig â gwasanaethau cwsmeriaid[59].

Yn ogystal â sicrhau gwasanaethau o ansawdd uchel i gwsmeriaid domestig, rydym yn awyddus i sicrhau bod busnesau yng Nghymru yn elwa ar ddiwydiant dŵr sy'n ymatebol a hyblyg. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr yng Nghymru ymgysylltu'n effeithiol gyda'r awdurdodau lleol, y cymdeithasau tai a datblygwyr pan fydd cynigion datblygu yn cael eu cyflwyno. Yn yr un modd, disgwyliwn i gwmnïau dŵr weithio'n effeithiol gyda busnesau pan fydd gofynion newydd neu ddiwygiedig yn cael eu nodi ar gyfer cyflenwadau. Rydym hefyd yn disgwyl i reoleiddwyr gefnogi'r prosesau hyn yn briodol.

Yn benodol, rydym yn disgwyl i'n cwmnïau dŵr fod yn fwy rhagweithiol a chefnogol o anghenion busnesau yng Nghymru, a chynnig gwasanaethau

[58] Llywodraeth Cymru, Ymgynghoriad ar ymdrin â 'dyled drwg' yn y diwydiant dŵr yng Nghymru, cyhoeddwyd Mehefin 2013 safle Llywodraeth Cymru: http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/tackling-bad-debt-in-the-water-industry/?lang=en,
[59] Mae OFWAT yn darparu gwybodaeth ar berfformiad cwmnïau dŵr http://www.ofwat.gov.uk/regulating/reporting/prs_web2012-13performance

gwych i'w cwsmeriaid. Rydym yn disgwyl y bydd Ofwat yn dal i chwarae rôl allweddol wrth yrru arbedion effeithlonrwydd ac annog cwmnïau dŵr yng Nghymru i fod yn arloesol mewn perthynas â'u cwsmeriaid busnes. Dylai'r rôl hon gynnwys sicrhau ein bod yn gallu dangos bod gwasanaethau i fusnesau'n cymharu'n ffafriol â'r gwasanaethau a ddarperir gan gwmnïau dŵr yn Lloegr, gan gofio bod trefn o gystadleuaeth manwerthiant wedi'i gyflwyno yn Lloegr. Rydym ar hyn o bryd yn cynnal gwaith ymchwil ar ofynion cwsmeriaid busnes yng Nghymru (adran *4.7 Cefnogi Dulliau Cyflenwi t61-68*) a byddwn yn parhau i adolygu ac asesu opsiynau i sicrhau ein bod yn cefnogi anghenion busnesau yng Nghymru.



Rydym yn cefnogi ac yn gwerthfawrogi'r gwaith mae'r Cyngor Defnyddwyr Dŵr yn ei wneud i gynrychioli buddiannau cwsmeriaid dŵr a chydnabod yr heriau penodol i ddarparu cynrychiolaeth effeithiol i ddefnyddwyr mewn diwydiant sydd â monopoli daearyddol a phrosesau pennu prisiau cymhleth. Mae'r gynrychiolaeth hon yn arbennig o bwysig er mwyn cynrychioli cwsmeriaid yn ystod Adolygiadau Cyfnodol Ofwat ar gyfer pennu prisiau. Hefyd, yn ystod y blynyddoedd nesaf, byddwn yn gweld nifer o adolygiadau a newidiadau i'r gwaith o reoleiddio a chynllunio strategol ar gyfer y sector dŵr. Mae gan y Cyngor Defnyddwyr Dŵr rôl allweddol yn y broses o hysbysu'r newidiadau hyn a sicrhau bod buddiannau cwsmeriaid domestig a busnesau yng Nghymru yn cael eu cynrychioli.

Roedd tîm Adolygiad Gray yn argymell yn gryf i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU bod angen cynrychiolaeth effeithiol ar gyfer defnyddwyr yn y sector dŵr i'r dyfodol a bod angen cadw'r swyddogaethau y mae Cyngor Defnyddwyr Cymru yn eu cyflawni ar hyn o bryd. Rydym yn

rhannu'r farn hon ac yn gwerthfawrogi eu rôl yn cynrychioli defnyddwyr yng Nghymru.

Byddwn yn cydweithio gyda Llywodraeth y DU i adolygu rôl a swyddogaethau Cyngor Defnyddwyr Cymru ar ôl yr Adolygiad Cyfnodol i bennu prisiau yn 2014, er mwyn sicrhau bod defnyddwyr yn derbyn cynrychiolaeth effeithiol. Bydd hyn yn helpu i hysbysu ein penderfyniad ar y dull mwyaf priodol i gynrychioli defnyddwyr yng Nghymru. Bydd ein penderfyniad yn seiliedig ar dystiolaeth gadarn ac ar y buddiannau i gwsmeriaid yng Nghymru yn y yr hirdymor – mae'n hollbwysig ein bod yn ystyried anghenion cwsmeriaid yn y dyfodol yn ogystal ag anghenion y cwsmeriaid presennol. A thra bod ffocws ar gwsmeriaid yn bwysig, credwn fod mwy i'n perthynas â dŵr na'r biliau rydym yn eu talu i'n darparwyr dŵr. Dŵr yw un o'n hadnoddau ac asedau naturiol pwysicaf ac fel y nodwyd yn *adran 4.1: Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau (t23-34),* byddwn yn ceisio ysgogi mwy o ddiddordeb a chyfranogiad dinesig yn y gwaith o gynllunio a rheoli ein hadnoddau dŵr.

## Prif gamau gweithredu

- Rydym yn cynnal adolygiad o ofynion cwsmeriaid busnes yng Nghymru a byddwn yn gweithio gyda busnesau, rheoleiddwyr a'r diwydiant dŵr i geisio canfod cyfleoedd i wella gwasanaethau i fusnesau a dysgu o brofiadau mewn lleoedd eraill. Bydd y gwaith ymchwil hwn yn helpu i lywio ein cyfeiriad polisi yn y dyfodol.
- Ar ôl dadansoddi'r ymatebion, byddwn yn cyflwyno rheoliadau yn 2014 a fydd yn helpu cwmnïau i leihau lefel y dyledion sy'n ddyledus iddynt. Byddwn yn cynnal ymchwil pellach i faterion fforddiadwyedd, ond byddwn yn disgwyl i gwmnïau dŵr fod yn arloesol yn y ffordd maent yn cynorthwyo eu cwsmeriaid i reoli dyled.
- Er mwyn mynd i'r afael â thlodi dŵr, byddwn yn cynnal adolygiad ar dlodi dŵr a beth sy'n cael ei wneud i leihau nifer yr aelwydydd sy'n cael anawsterau i dalu eu biliau.

## Cwestiynau Ymgynghori

**15.** Sut y gallwn sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu ar draws y diwydiant dŵr, er mwyn sicrhau bod atebion arloesol, sy'n mynd i'r afael â phroblemau tlodi dŵr, yn cael eu rhannu gydag eraill?

**16.** A ydym ni wedi nodi'r materion a'r camau gweithredu allweddol mewn cysylltiad â fforddiadwyedd dŵr?

**17.** A oes unrhyw ymagweddau eraill y gallwn eu mabwysiadu er mwyn cefnogi anghenion cwsmeriaid domestig a busnes?

# 4.5 Diogelu a Gwella Ansawdd Dŵr Yfed

## Prif Faterion

### Cynnal a gwella ansawdd dŵr yfed

Byddwn yn gweithredu i gynnal safon uchel bresennol ansawdd ein dŵr yfed cyhoeddus a sicrhau cydymffurfiaeth â'r Gyfarwyddeb Dŵr Yfed. Mae'r cyflenwad o ddŵr yfed i'n cartrefi, busnesau a diwydiant yn wasanaeth hollbwysig, sy'n cefnogi gweithgarwch economaidd ac yn diogelu iechyd y cyhoedd a'r amgylchedd. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr weithredu ar y canfyddiadau yn adroddiadau blynyddol[60] y Gyfarwyddiaeth Dŵr Yfed er mwyn cynnal a gwella ansawdd dŵr yfed.

Mae adroddiadau'r Gyfarwyddiaeth Dŵr Yfed wedi tynnu sylw yn benodol at yr angen i wneud gwelliannau i gyflenwadau dŵr preifat[61]. Mae natur wledig y rhan fwyaf o ardaloedd yng Nghymru yn golygu bod nifer o bobl yn dibynnu ar eu cyflenwadau dŵr eu hunain. Mae yna fwy na 17,700 o gyflenwadau dŵr preifat yng Nghymru, sy'n gwasanaethu mwy na 166,000 o bobl. Hefyd, mae mwy na 30,000 o bobl sy'n byw mewn mwy na 13,000 eiddo unigol sy'n cael eu gwasanaethu gan gyflenwad preifat ac sydd wedi'u heithrio rhag cael eu monitro. Cyflwynwyd deddfwriaeth newydd ar gyflenwadau dŵr preifat yn 2010[62] gyda chyfnod cyflwyno o bum mlynedd sy'n nodi'r safonau y mae'n rhaid i bob cyflenwad preifat gydymffurfio â hwy. Mae'r ddeddfwriaeth hon yn disodli deddfwriaeth gynharach, sy'n cadarnhau dyletswyddau awdurdodau lleol i fonitro cyflenwadau preifat, cynnal cofnodion ac anfon y rhain at yr Arolygiaeth Dŵr Yfed a Gweinidogion Cymru. Erbyn 2015, rydym yn disgwyl i ddata digonol ar ansawdd dŵr preifat ein galluogi i gynnal adolygiad o effeithiolrwydd y rheoliadau hyn. Yn y tymor hwy, byddwn yn gweithio gyda'r Bartneriaeth Iechyd Dŵr[63] yng Nghymru a'r Gyfarwyddiaeth Dŵr Yfed i ddatblygu canllawiau a strategaeth ymgysylltu i helpu perchenogion cyflenwadau preifat i wella eu dealltwriaeth o faterion iechyd y cyhoedd ac ansawdd dŵr yng Nghymru a'u cyfrifoldebau statudol.

### Systemau cyflenwi dŵr priodol sydd wedi'u rheoli'n dda

Mae seilwaith cyflenwi dŵr priodol sydd wedi'i reoli'n dda yn hollbwysig er mwyn cynnal a gwella ansawdd dŵr a lleihau gollyngiadau. Ond mae hefyd yn hollbwysig sicrhau bod pibellau a ffitiadau sy'n cysylltu â'r seilwaith hwn yn addas i'r diben.

[60] Adroddiad Blynyddol y Gyfarwyddiaeth Dŵr Yfed - http://dwi.defra.gov.uk/about/annual-report/
[61] Adroddiad ar gyflenwadau dŵr preifat y Gyfarwyddiaeth Dŵr Yfed 2012 - http://dwi.defra.gov.uk/about/annual-report/2012/
[62] Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010 - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/privatesupplies/?skip=1&lang=cy
[63] Partneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru - http://www.dwrcymru.co.uk/cy-GB/Company-Information/Business-Operations/Water-Health-Partnership-for-Wales.aspx

Mae pibellau cyflenwi dŵr o fewn ffiniau eiddo yn gallu effeithio ar ansawdd y dŵr yn y tap, a gallant achosi gollyngiadau afreolus[64]. Mae'r pibellau cyflenwi hyn yn eiddo preifat ac maent yn cysylltu adeiladau i'r seilwaith cyflenwi dŵr cyhoeddus, sy'n gyfrifoldeb i'r cwmnïau cyflenwi dŵr. Mae nifer ohonynt yn hen ac wedi erydu, ac mae hyn yn gallu achosi gollyngiadau a gall effeithio ar ansawdd y dŵr. Yn aml, nid yw'r perchenogion yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau i gynnal a chadw'r pibellau hyn ac felly nid oes unrhyw ddulliau cynlluniedig i'w hatgyweirio a'u hadnewyddu.

Rydym yn gweithio gyda Llywodraeth y DU i ymchwilio i fanteision ac anfanteision trosglwyddo'r pibellau cyflenwi dŵr hyn i gwmnïau cyflenwi dŵr[65]. Gallai trosglwyddiad o'r fath helpu i reoli ac atgyweirio'r pibellau hyn mewn ffordd fwy strategol a darbodus ac, ynghyd â rhaglen adnewyddu arfaethedig, bydd yn creu ymagwedd fwy cynaliadwy at reoli'r rhwydwaith a fydd yn helpu i gynnal ansawdd dŵr yfed. Gallai trosglwyddiad hefyd arwain at ostyngiad yn nifer y gollyngiadau, drwy gyflymu'r amseroedd atgyweirio yn sgîl eglurder ynglŷn â pherchenogaeth a pholisi gwasanaeth cwmnïau dŵr.

Er mwyn diogelu ansawdd dŵr yfed mewn adeiladau a lleihau risgiau i iechyd, mae'n hollbwysig bod deunyddiau a ffitiadau addas yn cael eu defnyddio a'u bod yn cael eu gosod yn briodol. Mae arferion gosod gwael neu ddefnyddio ffitiadau dŵr heb eu cymeradwyo yn gallu arwain at lygru dŵr. Gallai hyn gynnwys, er enghraifft, plwm yn cael ei gyflwyno o ganlyniad i ddefnyddio sodr plwm nad ydynt wedi'u cymeradwyo i'w defnyddio mewn systemau dŵr yfed neu achos o draws-gysylltiad sy'n creu cyswllt i ddŵr nad yw'n ddŵr yfed. Mae'r Rheoliadau Ffitiadau Dŵr[66] yn ceisio mynd i'r afael â'r risgiau hyn a diogelu ansawdd dŵr yfed mewn adeiladau. Mae'r Water Regulations Advisory Service (WRAS) yn cael ei ariannu gan y cwmnïau dŵr i ddarparu cyngor ar ddefnyddio a gosod ffitiadau dŵr. Er mwyn codi safonau arferion plymio, mae nifer o gynlluniau cymeradwyo yn cael eu datblygu ar gyfer contractwyr, megis y Cynllun Gosodwyr WaterSafe. Byddwn yn gweithio gyda chwmnïau dŵr, WRAS a gosodwyr i hyrwyddo cynlluniau o'r fath.

Mae pibellau a ffitiadau dŵr sy'n cynnwys plwm wedi cael eu defnyddio at ddibenion plymio hyd at yn gymharol ddiweddar. Mae effeithiau plwm mewn dŵr yfed ar iechyd, yn arbennig i blant, wedi bod yn destun gwaith ymchwil rhyngwladol[67]. Ar hyn o bryd, mae'r risgiau hyn yn cael eu rheoli drwy ddosio dŵr yfed gyda ffosffad, sy'n rhwystro'r plwm rhag hydoddi yn

[64] Adnoddau Dŵr Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru - http://www.environment-agency.gov.uk/cy/ymchwil/llyfrgell/cyhoeddiadau/40731.aspx?
[65] Ymgynghoriad Defra ar reoli pibellau cyflenwadau dŵr preifat yn y dyfodol https://www.gov.uk/government/consultations/future-management-of-private-water-supply-pipes
[66] Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) (1999) - http://www.legislation.gov.uk/uksi/1999/1148/contents/made
[67] Sefydliad Iechyd y Byd – Water Related Diseases - http://www.who.int/water_sanitation_health/diseases/lead/en/

y dŵr. Er nad hyn yw'r dull mwyaf economaidd o reoli'r risg o blwm[68], mae'n diddymu'r risgiau hirdymor o bibellau a ffitiadau plwm. Hefyd, mae adnoddau ffosffad yn gyfyngedig[69], ac mae ei ddefnyddio mewn dŵr yfed yn cyflwyno goblygiadau ar gyfer trin carthion a llygredd dŵr. Byddwn yn gweithio gyda'r Gyfarwyddiaeth Dŵr Yfed, y cwmnïau dŵr ac eraill i ymchwilio i ddulliau amgen o ddefnyddio ffosffad ar gyfer rheoli'r risgiau o blwm a ddefnyddir mewn gwaith plymio.

## Prif gamau gweithredu

- Byddwn yn gweithio gyda'r Arolygiaeth Dŵr Yfed i adolygu'r ddeddfwriaeth berthnasol yn gyson. Yn 2015, byddwn yn adolygu effeithiolrwydd y Rheoliadau Cyflenwadau Dŵr Preifat (Cymru) 2010.
- Byddwn yn hyrwyddo cynlluniau cymeradwyo contractwyr, megis Cynllun Gosodwyr WaterSafe er mwyn gwella safon gosodiadau plymio yng Nghymru.
- Byddwn yn ymchwilio i gostau a manteision trosglwyddo perchenogaeth cyfran o'r pibellau cyflenwi dŵr sy'n eiddo preifat ar hyn o bryd, i'r cwmnïau cyflenwi dŵr.

## Cwestiynau Ymgynghori

**18.** A oes unrhyw faterion ychwanegol ynglŷn ag ansawdd dŵr yfed y dylem eu hystyried? Ydych chi'n cytuno â'n cynnig i ymchwilio i drosglwyddo pibellau cyflenwi dŵr i'r cwmnïau dŵr?

**19.** A ddylem ni ddatblygu ac ymgynghori ar strategaeth hirdymor i ddiddymu'r risgiau iechyd o ddefnyddio plwm mewn gwaith plymio?

[68] IWA - Optimisation of Corrosion Control for Lead in Drinking Water Using Computational Modelling Techniques - http://www.iwapublishing.co.uk/template.cfm?name=isbn9781780404783

[69] IWA - Phosphorus Removal Potential Using Biogenic Iron Oxides - http://www.iwapublishing.co.uk/template.cfm?name=isbn9781843396154

## 4.6 Ymagwedd Newydd ar gyfer Draenio

Rydym yn awyddus i gael seilwaith priodol ar gyfer draenio dŵr gwastraff a dŵr wyneb, sy'n cael ei reoli mewn ffordd integredig. Mae'r adran hon yn canolbwyntio ar seilwaith adeiledig, gyda'r materion draenio tir yn cael eu trafod yn bennaf yn *adran 4.1 Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau (t23-34).* Fodd bynnag, mae rhai materion sefydliadol a chysylltiadau gyda'r ymagwedd gynaliadwy ar gyfer draenio sy'n cael eu disgrifio isod.

### Prif Faterion

### Ymagwedd gynaliadwy ar gyfer draenio

Mewn ardaloedd gwledig a datblygedig, mae llifogydd dŵr wyneb a llygredd gwasgaredig yn faterion sy'n peri pryder cynyddol. Bydd y cynnydd sy'n cael ei ragweld mewn digwyddiadau dŵr glaw dwys yn cyflwyno hyd yn oed mwy o heriau i'n systemau draenio a'r ffordd y byddwn yn rheoli'r tir. Mae angen ymagwedd arnom ar gyfer draenio sy'n gallu ymdopi â'r heriau hyn a helpu i fynd i'r afael â'r risg o lifogydd dŵr wyneb a llygredd gwasgaredig. Mae'r ymagwedd systemau draenio cynaliadwy (SDCau) ar gyfer rheoli dŵr wyneb yn ceisio delio â'r dŵr glaw ar yr wyneb ac yn agos i ble mae'n disgyn. Gellir defnyddio'r ymagwedd hon mewn ardaloedd gwledig ac ardaloedd datblygedig, er mwyn arafu llif dŵr, lleihau'r perygl o lifogydd a diogelu ansawdd dŵr.

Mae'r ymagwedd SDCau yn defnyddio technegau gan gynnwys ymdreiddiad a chadw sy'n dynwared llif o safle yn ei gyflwr naturiol. Mae cynlluniau SDCau fel arfer yn defnyddio cyfuniadau o osodiadau gan gynnwys palmentydd hydraidd, suddfannau, toeon gwyrdd, pantiau a phyllau dŵr.

Gellir defnyddio'r ymagwedd SDCau yn effeithiol mewn ardaloedd gwledig a threfol ac mae'n cefnogi datblygiadau newydd heb ychwanegu at y perygl o lifogydd neu lygredd. Mewn ardaloedd gwledig, gall arferion rheoli tir gyfrannu llawer at y gwaith o leihau'r perygl o lifogydd ymhellach i lawr yr afon a diogelu ansawdd dŵr (*gweler adran 4.1 Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau t23-34)* ond gall technegau SDCau hefyd ddarparu ffyrdd o reoli dŵr wyneb o fuarthau ac adeiladau ar ffermydd.

Mewn ardaloedd datblygedig, mae llai o ddŵr ffo i garthffosydd yn darparu capasiti ychwanegol, heb orfod gwneud gwaith peirianneg drud, ac mae systemau mwy naturiol megis gwlyptiroedd a phantiau yn gwella bioamrywiaeth ac amwynder. Hefyd, gall ymagwedd SDCau ddarparu nifer o fanteision ychwanegol gan gynnwys gwella amwynder gweladwy datblygiadau, darparu mannau agored, a chyfrannu at gydnerthedd ecosystemau drwy rwydweithiau cynefinoedd.

Er gwaethaf y manteision hyn, rydym yn rhagweld bod cyfran y datblygiadau newydd a'r ailddatblygiadau sydd wedi'u draenio gan SDCau o ryw fath yn isel, ac mae'r nifer sydd wedi manteisio ar hyn wedi

bod yn araf.  Mae Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010 (FWMA) [70] yn ei gwneud yn ofynnol i ddatblygiadau newydd gynnwys system ddraenio gynaliadwy.  Rydym yn bwriadu ymgynghori ar safonau cenedlaethol ar gyfer SDCau a chyflwyno'r darpariaethau SDCau yn 2014.



Gellir defnyddio'r ymagwedd SDCau hefyd er mwyn mynd i'r afael â phroblemau draenio dŵr wyneb mewn ardaloedd datblygedig presennol. Gall ôl-osodiadau o'r fath, er enghraifft y cynllun Rainscape yn Llanelli[71], wella'r amgylchedd i bobl leol, darparu mwy o fannau gwyrdd ac ardaloedd hamdden a lleihau'r perygl o lifogydd.  Gall leddfu'r pwysau ar systemau draenio presennol, sy'n creu arbedion o ran gwaith cynnal a chadw neu uwchraddio.  Mae hefyd yn darparu cyfle i ymgysylltu â'r gymuned leol ar eu rôl hwy yn y gwaith o reoli draeniau a dŵr.  Mae'r ymagwedd SDCau yn elfen ganolog o'r gwaith o reoli dŵr wyneb yn y dyfodol a chefnogi dulliau arloesol o ddraenio dŵr wyneb yng Nghymru.

I gefnogi hyn, byddwn yn gweithio gyda chwmnïau carthffosiaeth ac awdurdodau priffyrdd i hwyluso'r defnydd o systemau naturiol wrth ddatblygu seilwaith ac er mwyn adfer neu greu nodweddion dŵr, megis gwlyptiroedd a sianelau naturiol afonydd, lle bydd buddiannau i fywyd gwyllt, cymunedau a chwsmeriaid.

Ar gyfer datblygiadau newydd, mae ymagwedd sy'n cynnwys dulliau rheoli cylchoedd dŵr mewn gwaith cynllunio a dylunio datblygiadau wedi'i harloesi yn Awstralia[72].  Mae'r dull hwn, a elwir yn Gynllunio Trefol sy'n

[70] Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr - http://www.legislation.gov.uk/ukpga/2010/29/contents
[71] http://www.dwrcymru.com/cy-GB/My-Wastewater/RainScape.aspx
[72] http://www.melbournewater.com.au/wsud

Sensitif i Ddŵr (WSUD) yn defnyddio egwyddorion SDCau, ac yn adeiladu ar egwyddorion gwasanaethau ecosystemau i leihau'r defnydd o ddŵr, lleihau'r perygl o lifogydd a gwella ansawdd dŵr. Mae'r ymagwedd integredig hon yn cyflwyno buddiannau eang, gan gynnwys defnyddio llai o ynni, cynefinoedd mwy amrywiol, adfywio trefol a pherthynas well rhwng pobl a'u dŵr. Byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr yn Llywodraeth Cymru a rhanddeiliaid gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, cyrff proffesiynol (e.e. Y Sefydliad Cynllunio Trefol Brenhinol yng Nghymru, Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig, Sefydliad y Peirianwyr Sifil a Sefydliad Tirwedd Cymru), datblygwyr a sefydliadau academaidd i nodi sut y gellir defnyddio'r ymagwedd WSUD yng Nghymru.

## Y cyfrifoldeb am y seilwaith draenio a charthffosiaeth

Oherwydd y ffordd y mae systemau draenio wedi datblygu dros amser, mae nifer o unigolion a sefydliadau yn berchen arnynt ac yn gyfrifol amdanynt. Mae draeniad sy'n cael ei gasglu o'n hardaloedd datblygedig yn cael ei gasglu gan rwydwaith o bibellau sy'n cludo draeniad budr, elifion masnach a dŵr glaw o amgylch eiddo a ffyrdd. Mae carthffosydd cyhoeddus yn eiddo i gwmnïau carthffosiaeth a hwy sy'n eu cynnal a'u cadw. Mae draeniau preifat yn cysylltu eiddo unigol i garthffosydd ac awdurdodau priffyrdd (awdurdodau lleol fel arfer) sydd fel arfer yn gyfrifol am ddraenio ffyrdd. Yn ystod y gweithdai a drefnwyd gennym cyn yr ymgynghoriad, mynegwyd pryderon ynglŷn â natur gymhleth y trefniadau ar gyfer draenio dŵr wyneb ac achosion pan nad oedd yn amlwg pwy oedd yn berchen ar asedau o'r fath - mae'r rhain yn asedau amddifad i bob pwrpas.

Mewn ardaloedd gwledig, Cyfoeth Naturiol Cymru neu nifer o Fyrddau Draenio Mewnol sy'n aml yn gyfrifol am ddraenio. Yn dilyn arolwg o'r Byrddau Draenio Mewnol yn 2013, mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi y byddant yn trosglwyddo eu swyddogaethau i Cyfoeth Naturiol Cymru ym mis Ebrill 2015[73].

Awdurdodau priffyrdd sy'n gyfrifol am ddraenio priffyrdd, ac awdurdodau lleol yn y rhan fwyaf o achosion. Mae'r berthynas rhwng draeniau priffyrdd a'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus yn gymhleth, gyda rhai o'r draeniau priffyrdd yn cludo dŵr wyneb o systemau cyhoeddus ac mae rhai draeniau priffyrdd yn rhyddhau i garthffosydd cyhoeddus. Mae gollyngiadau o ddraeniau priffyrdd i'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus yn gallu cael effeithiau arwyddocaol ar gapasiti'r rhwydwaith carthffosydd ac effeithiau ychwanegol ar ansawdd dŵr ymhellach i lawr y gadwyn gyflenwi. Mae gwaith ymchwil Dŵr Cymru ar gyfer y Strategaeth Rheoli Dŵr Wyneb[74] yn amcangyfrif bod tua 24% o ddŵr wyneb sy'n llifo i'r rhwydwaith carthffosydd yn ddraeniad priffyrdd.

[73] Datganiad Ysgrifenedig Llywodraeth Cymru – Trefniadau Byrddau Draenio Mewnol yng Nghymru at y Dyfodol
http://wales.gov.uk/about/cabinet/cabinetstatements/2013/idb/?skip=1&lang=cy
[74] Strategaeth Rheoli Dŵr Wyneb Dŵr Cymru - http://www.dwrcymru.com/cy-GB/Environment/Surface-Water-Management-Strategy.aspx

Mae deddfwriaethau gwahanol yn rheoli rolau perthnasol awdurdodau priffyrdd a chwmnïau carthffosiaeth. Gan weithio gyda'r holl bartïon perthnasol, byddwn yn adolygu deddfwriaethau ac arferion sy'n gysylltiedig â draenio, gan ganolbwyntio ar ddŵr wyneb, draeniau priffyrdd ac asedau amddifad. Rydym yn awyddus i weld a yw'r trefniadau presennol yn addas i'r diben, neu a allwn wella'r trefniadau yng nghyd-destun y strategaeth hon. Ein nod yw gwella dulliau diogelu ansawdd dŵr a rheoli'r perygl o lifogydd drwy leihau'r dŵr wyneb sy'n ymuno â'r system garthffosiaeth gan ddefnyddio'r ymagwedd ddraenio gynaliadwy (SDCau).

Byddwn hefyd, fel rhan o'r adolygiad hwn ar ddraenio, yn asesu cyflwyniad y broses ar gyfer mabwysiadu carthffosydd cyhoeddus a gyflwynwyd ym mis Hydref 2012 a'r safonau Gweinidogol cysylltiedig, ac yn ystyried a oes angen canllawiau statudol o dan Adran 106B Deddf y Diwydiant Dŵr 1991[75].

| **Blwch 4 – Newidiadau Diweddar i'r cyfreithiau draenio** |
|---|
| Yn dilyn nifer o ymgynghoriadau dros gyfnod o fwy na deng mlynedd, mae Rheoliadau'r Diwydiant Dŵr (Cynlluniau ar gyfer Mabwysiadu Carthffosydd Preifat) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i gwmnïau carthffosydd fod yn gyfrifol am gynnal a chadw carthffosydd preifat a draeniau ochrol sy'n cysylltu â'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus. Y newid hwn oedd y newid mwyaf i'r cyfreithiau ar garthffosiaeth ers i'r cyfleustodau dŵr gael eu preifateiddio ym 1989, a oedd yn diddymu'r faich annheg ar unigolion, ac yn gwella'r rheolaeth gyffredinol dros y rhwydwaith carthffosydd. |
| Er y cafodd y carthffosydd preifat eu trosglwyddo dros nos i'r cwmnïau carthffosydd, mae sefyllfa'r gorsafoedd pwmpio yn fwy cymhleth. Mae'r rheoliadau yn ei gwneud yn ofynnol i orsafoedd pwmpio preifat gael eu mabwysiadu erbyn 1 Hydref 2016. Mae yna rai eithriadau, er enghraifft, y rhai sy'n gwasanaethu tŷ unigol neu safle diwydiannol â pherchenogaeth unigol, lle nad yw'r rheoliadau yn galw i'r rhain gael eu mabwysiadu. Y perchenogion preifat fydd yn parhau i fod yn gyfrifol amdanynt. Mae'n hollbwysig bod eu perchenogion yn parhau i'w cynnal a'u cadw a'u gweithredu'n gyfrifol. |
| Er mwyn peidio â chreu stoc newydd o garthffosydd preifat, cyflwynwyd gofyniad i bob carthffos newydd gael ei adeiladu i safonau gofynnol ac yna ei fabwysiadu gan y cwmnïau carthffosydd yn ardal Dŵr Cymru ar 1 Hydref 2012. Byddwn yn ystyried gweithredu'r gofyniad hwn fel rhan o'n hadolygiad arfaethedig o'r darpariaethau draenio. |

[75] Trefniadau mabwysiadu newydd ar gyfer carthffosydd a draeniau ochrol - http://wales.gov.uk/topics/environmentcountryside/epq/waterflooding/sewers/adoptionarrangements/?skip=1&lang=cy

## Carthffosydd cyhoeddus

Wrth ddatblygu'r strategaeth hon, mynegwyd pryderon ynglŷn â gwaredu gwastraff solet domestig a masnachol i'r rhwydwaith carthffosydd o ganlyniad i gynnydd yn y mwydwyr o dan y sinc sy'n cael eu cyflwyno. Mae'r defnydd o'r mwydwyr hyn yn ychwanegu at y gwaith trin carthion a gallant greu rwystrau mewn carthffosydd. Byddwn yn gweithio gyda'n cydweithwyr polisi gwastraff, ymgymerwyr carthffosiaeth a phartïon perthnasol eraill i sicrhau ymagwedd gyson ar gyfer y mater hwn. Ein nod yw lleihau'r swm o wastraff solet, megis bwyd a phapur, sy'n cael ei waredu yn y rhwydwaith carthffosydd a chynyddu'r buddiannau o waredu gwastraff o'r fath drwy gompostio a threulio anaerobig.

## Carthffosydd preifat

Er bod y rhan fwyaf o eiddo yng Nghymru yn cael eu gwasanaethu gan systemau draenio cyhoeddus, nid yw tua 100,000 o eiddo yng Nghymru, mewn ardaloedd gwledig yn bennaf, wedi'u cysylltu â'r prif bibellau carthffosydd.

Mae systemau carthffosydd preifat fel arfer yn gwasanaethu un eiddo neu nifer fach ohonynt. Mae tri math cyffredin o systemau yn cael eu defnyddio – gweithfeydd bach trin carthion, tanciau carthion a charthbyllau sy'n darparu gwasanaethau carthffosydd digonol, o gael eu gosod a'u cynnal a'u cadw'n briodol, er y gall problemau godi os bydd gormod o systemau o'r fath mewn ardal. Mae'n rhaid cofrestru gweithfeydd trin carthion a thanciau carthion gyda Cyfoeth Naturiol Cymru. Pan fydd perchenogion yn ystyried eu cyfrifoldebau cynnal a chadw o ddifrif, mae'r rhain yn ddigonol pan na fydd carthffos gyhoeddus yn ddewis economaidd. Mae systemau amgen, ynni isel, megis toiledau compost neu systemau gwely cyrs, hefyd yn addas ar gyfer datblygiadau bach. Rydym yn ceisio cynorthwyo perchenogion drwy weithio gyda Cyfoeth Naturiol Cymru a phartneriaid eraill i ddarparu canllaw ar sut i gynnal a chadw tanciau carthion. Byddwn hefyd yn ymgysylltu ag awdurdodau lleol, sydd â dyletswydd i sicrhau bod perchenogion systemau carthffosiaeth preifat yn eu cynnal a'u cadw, er mwyn atal perygl i iechyd y cyhoedd neu'r amgylchedd.

Fodd bynnag, mae nifer o faterion sy'n ymwneud â'r amgylchedd a chynaliadwyedd sy'n gysylltiedig â charthbyllau, oherwydd y costau i'w gwagio a'r allyriadau carbon sy'n cael eu creu yn sgîl symudiadau niferus y tanceri. Efallai y bydd perchenogion yn amharod i'w gwagio oherwydd y costau, sy'n golygu y bydd angen i awdurdodau lleol gymryd camau gorfodi am eu bod yn orlawn neu'n gollwng. Mae Rheoliadau Adeiladu eisoes yn trin carthbyllau fel y dewis olaf, ac nid ydynt yn cael eu caniatáu bellach yn yr Alban. Gall carthbyllau fod yn briodol ar gyfer y tymor byr, er enghraifft mewn swyddfa ar safle adeiladu ffordd, ond nid ydym yn credu eu bod yn briodol fel dull o ddelio â charthion yn yr hirdymor. Byddwn yn ymchwilio i'r cyfyngiadau ar y defnydd o garthbyllau ar gyfer unrhyw beth ar wahân i safleoedd dros dro.

Gall perchenogion eiddo mewn ardaloedd gwledig wneud cais am ddarpariaeth draenio o dan Adran 101A Deddf y Diwydiant Dŵr 1991, ac mae'n rhaid i'r ymgymerwr carthffosiaeth asesu'r cais yn erbyn meini prawf penodol[76]. Os bydd yr ymgymerwr yn gwrthod y cais, Cyfoeth Naturiol Cymru sy'n gyfrifol am wneud penderfyniad ar unrhyw anghydfod. Gall gweithredu Adran 101A fod yn broses hir a chymhleth, ac mae adborth gan randdeiliaid wedi dangos y gallai gwelliannau i'r canllawiau statudol helpu i leihau nifer yr anghydfodau a chyflymu proses Adran 101A. Byddwn yn diweddaru ac yn ymgynghori ar ddogfen ddiwygiedig, a fydd yn darparu canllawiau i ymgymerwyr carthffosiaeth ac yn gweithredu fel ffynhonnell wybodaeth i randdeiliaid ac ymgeiswyr eraill. Byddwn hefyd yn ystyried sut y gellir diwygio Adran 101A er mwyn gwella ei gweithrediad.

## Prif gamau gweithredu

- Byddwn yn ymgynghori ar gyflwyno Atodlen 3 Deddf Rheoli Llifogydd a Dŵr 2010[76] sy'n cyflwyno gofyniad i ddatblygiadau newydd gynnwys systemau draenio cynaliadwy (SDCau). Byddwn hefyd yn ceisio canfod ffyrdd o annog y defnydd o'r ymagwedd SDCau, er mwyn delio â phroblemau capasiti mewn ardaloedd datblygedig presennol.
- Byddwn yn cynnal adolygiad o berchenogaeth draeniau a deddfwriaeth gysylltiedig, gan roi pwyslais penodol ar ddŵr wyneb ac asedau amddifad. Bydd yr adolygiad hwn gan gynnwys gweithredu proses mabwysiadu carthffos orfodol ac effeithiolrwydd Safonau Adeiladu Gweinidogion 2012.
- Byddwn yn ystyried beth yw'r ffordd orau o leihau'r gwastraff solet sy'n cael ei waredu, megis bwyd a phapur, drwy'r rhwydwaith carthffosydd cyhoeddus, gan gynnwys newidiadau deddfwriaethol posibl drwy Fil yr Amgylchedd.
- Byddwn yn diweddaru ac yn ymgynghori ar ganllaw diwygiedig ar gyfer cynlluniau carthffosiaeth ar gyfer cymunedau gwledig o dan Adran 101A Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac yn ystyried deddfu i symleiddio'r broses.

## Cwestiynau Ymgynghori

**21.** Ydych chi'n cytuno â'n blaenoriaethau ar gyfer materion draenio?

**22.** Mae'r adran hon wedi canolbwyntio ar y seilwaith adeiledig, sy'n gwasanaethu ardaloedd datblygedig yn bennaf. A ddylem ystyried unrhyw beth arall ar gyfer ardaloedd gwledig?

**23.** A oes unrhyw faterion arwyddocaol eraill y credwn y dylem fod wedi'u cynnwys?

[76] Canllaw Adran 101A Llywodraeth Cymru - http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/connecting-properties-to-public-sewers/?skip=1&lang=cy

## 4.7 Cefnogi Dulliau Cyflenwi

### Prif Faterion

### Cydweithio

Mae Llywodraeth Cymru eisoes yn ymgysylltu ac yn cydweithio i gyflenwi ein hamcanion polisi ar gyfer dŵr. Yn ogystal ag ymgysylltiad uniongyrchol gyda phartneriaid drwy ein fforwm rhanddeiliaid presennol y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr a Fforwm y Diwydiant Dŵr (gweler isod), mae ein hasiantaethau, gan gynnwys Cyfoeth Naturiol Cymru, yn ymgysylltu'n uniongyrchol gyda chymunedau ar faterion rheoli dŵr. Rydym wedi datgan yn *Adran 4.1 Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau (t23-34)* sut yr ydym yn disgwyl i Cyfoeth Naturiol Cymru adeiladu ar y pwyslais hwn ar ymgysylltiad lleol a chynnwys cymunedau yn y gwaith cynllunio a gwneud penderfyniadau. Nid yw hyn yn golygu gwneud rhywbeth newydd o reidrwydd ond, yn hytrach cydnabod bod paneli cyswllt Basn Afon yn cwmpasu ardaloedd mawr, a chanfod ffordd o ddefnyddio gwybodaeth a phrofiad lleol i gynghori ar integreiddio dulliau rheoli adnoddau dŵr.

**Blwch 5 – Fforwm y Diwydiant Dŵr**

Mae Fforwm y Diwydiant Dŵr yng Nghymru yn uno sefydliadau allweddol er mwyn cynllunio cyfeiriad strategol ar gyfer gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru. Cafodd y fforwm ei sefydlu yn dilyn llwyddiant Fforwm PR09 Cymru, lle daeth rhanddeiliaid ynghyd i weithio ar y broses o bennu prisiau'r cwmnïau dŵr yn 2009.

Aelodaeth:

- Albion Water Limited
- Cyngor Defnyddwyr Cymru
- Dŵr Dyffryn Dyfrdwy
- Arolygiaeth Dŵr Yfed
- Dŵr Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr (Ofwat)
- Llywodraeth Cymru
- Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru

Mae Fforwm y Diwydiant Dŵr wedi bod yn fforwm defnyddiol ar gyfer ysgogi cydweithrediad yn y sector hwn, ond mae wedi canolbwyntio ar y diwydiant dŵr yng Nghymru. Gan gydnabod yr heriau sy'n cael eu cyflwyno yn y strategaeth hon, yn ogystal â phwysigrwydd sicrhau bod y dulliau ymgysylltu yn syml a chlir, rydym yn bwriadu adeiladu ar waith y Fforwm. Byddwn yn ehangu aelodaeth a chylch gwaith y Fforwm, pan fydd yn briodol inni wneud hynny, er mwyn sicrhau ei fod yn canolbwyntio ar rai o'r heriau cyffredinol sy'n cael eu creu wrth reoli dŵr yng Nghymru,

er enghraifft cynnwys cynrychiolaeth berthnasol ar reoli tir neu gynrychiolaeth academaidd.  Bydd cylch gwaith y Fforwm yn cael ei adolygu er mwyn sicrhau ffocws ar gyflenwi amcanion y Strategaeth, a sicrhau yn benodol bod cyswllt rhwng gwaith y Fforwm a gwaith y Grŵp Cyfeirio Adnoddau Natur ehangach.  Byddwn yn gweithio hefyd ac yn cefnogi cysylltiadau cryfach rhwng y sector addysg uwch yng Nghymru, y Llywodraeth, rheoleiddwyr a chwmnïau dŵr er mwyn helpu i gyflawni'r Strategaeth.

**Fframwaith rheoliadol sydd wedi'i alinio ag anghenion Cymru**

Mae rôl y rheoleiddwyr yn y gwaith o annog a chymell cwmnïau dŵr i gyflawni ar gyfer eu cwsmeriaid a'r amgylchedd yn elfen ganolog o'n gweledigaeth ar gyfer dŵr yng Nghymru.  Rydym yn disgwyl i'n rheoleiddwyr weithio mewn ffordd ragweithiol ac adeiladol gyda'i gilydd, a phartneriaid allweddol eraill, er mwyn sicrhau proses effeithiol o wneud penderfyniadau, er mwyn lleihau beichiau rheoliadol pan fydd hynny'n briodol a helpu i weithredu nodau'r Strategaeth hon.

Rydym wedi sefydlu Cyfoeth Naturiol Cymru yn ddiweddar er mwyn sicrhau bod gwaith rheoleiddio amgylcheddol yng Nghymru yn canolbwyntio ar gyflenwi ymagwedd fwy integredig ar gyfer rheoli ein hadnoddau naturiol.  Rydym wedi pennu cylch gwaith a blaenoriaethau manwl blynyddol i Cyfoeth Naturiol Cymru, ac rydym wedi datblygu canlyniadau cyffredin gyda'r corff newydd er mwyn sicrhau aliniad llawn gyda'n polisïau.

Ochr yn ochr â hyn, rydym wedi cyhoeddi Canllaw Cymdeithasol ac Economaidd i Ofwat sy'n nodi ein polisi yn y maes hwn, polisi y bydd Ofwat yn ei ystyried wrth lunio cynlluniau busnes cwmnïau sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru.  Rydym yn bwriadu disodli'r Canllaw Cymdeithasol ac Amgylcheddol gyda Datganiad Polisi Strategol i Ofwat.  Bydd y Datganiad Polisi Strategol yn cyflwyno fframwaith strategol Llywodraeth Cymru a'r blaenoriaethau polisi a fydd yn sail i waith Ofwat.  Bydd yn nodi sut y byddwn yn disgwyl i Ofwat ystyried effeithiau gwahaniaethau rhwng polisi dŵr Llywodraeth Cymru a pholisi dŵr Llywodraeth y DU a chasglu tystiolaeth briodol er mwyn hysbysu penderfyniadau rheoliadol effeithiol a phenderfyniadau polisi ehangach effeithiol.  Yn unol â *Principles of Economic Regulation*[77] mae'r canllaw hwn yn ceisio darparu darlun hirdymor o flaenoriaethau cyffredin Llywodraeth Cymru, gan ddarparu sefydlogrwydd i Ofwat a'r diwydiant, ac ni fydd yn cael ei ddiweddaru fwy nag unwaith yn ystod tymor y Cynulliad.

Rydym yn awyddus i weld mwy o arloesedd yn y sector dŵr, er mwyn canfod atebion sy'n fwy effeithlon a chost effeithiol.  Rydym yn cydnabod pwysigrwydd sicrhau bod iechyd y cyhoedd yn cael ei ddiogelu a bod goblygiadau amgylcheddol yn cael eu cyflawni, ond rydym yn awyddus i sicrhau bod y Rheoleiddwyr yn darparu cymhelliant ac anogaeth ar gyfer

[77] BIS- Principles of Economic Regulation - http://www.bis.gov.uk/policies/better-regulation/improving-regulatory-delivery/principles-for-economic-regulation

arloesedd o fewn strwythur presennol y sector dŵr, sy'n cael ei ystyried yn aml fel strwythur sy'n agored i risgiau. Rydym yn disgwyl i fframwaith cymhellion Ofwat yn y dyfodol ddarparu'r cydbwysedd cywir rhwng gwobrau a chosbau yng nghyd-destun ymagwedd sy'n seiliedig ar ganlyniadau, sy'n cydnabod cydymffurfiaeth â goblygiadau statudol, blaenoriaethau Llywodraeth Cymru a'r amgylchiadau yng Nghymru.

Rydym yn credu y dylai pob cwsmer yng Nghymru elwa ar newidiadau i'r amgylchedd rheoliadol, a bod angen ystyried ein hamcan o sicrhau ymagwedd fwy integredig at reoli ein hadnoddau dŵr.

Er mwyn hysbysu ein hasesiad o ymagweddau rheoliadol at ddŵr yng Nghymru yn y dyfodol, rydym wedi comisiynu ymchwil annibynnol a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ddiweddarach yn 2014 ac a fydd yn sail i'n Strategaeth derfynol. Nodau'r ymchwil hwn yw asesu fframwaith rheoliadol a deddfwriaethol presennol y diwydiant dŵr yng Nghymru, er mwyn sefydlu a yw'n addas i'r diben. Bydd hefyd yn trafod opsiynau amgen er mwyn profi yn erbyn y fframwaith rheoleiddio presennol, a fydd yn sicrhau bod cwsmeriaid yng Nghymru yn derbyn y gwasanaeth gorau yng nghyd-destun ein nodau polisi cyffredinol. Rydym yn disgwyl i'r ymchwil ddarparu darlun inni o effeithiau tebygol y senarios rheoliadol gwahanol ar ddiogelwch dalgylchoedd, rheoli adnoddau naturiol yn gynaliadwy drwy gyflenwi nifer o fuddiannau ecosystem a chydnerthedd y rhwydwaith cyflenwi dŵr.

**Diwygiadau Cyfansoddiadol**

Un o'r prif gyfyngiadau ar ein gallu i gyflawni amcanion y strategaeth hon yn effeithiol yw'r setliad cyfansoddiadol ar faterion dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru. Mae'r setliad hwn wedi dyddio erbyn hyn. Mae'r rhan fwyaf o'r prif ddeddfwriaethau sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth yn seiliedig ar ffiniau cwmnïau dŵr yn hytrach na ffiniau gwleidyddol, sy'n rhagddyddio sefydliad y Cynulliad Cenedlaethol. Felly, mae Gweinidogion Cymru yn gyfrifol am gwmnïau dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yng Nghymru (Dŵr Cymru, Albion Water a Dŵr Dyffryn Dyfrdwy) a Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am gwmnïau dŵr sy'n gweithredu'n gyfan gwbl neu'n rhannol yn Lloegr (Severn Trent Water a Scottish and Southern Water). Mae gan bob un o'r cwmnïau dŵr hyn, ac eithrio Albion Water a Scottish and Southern Water, ardaloedd gweithredol sy'n croesi'r ffin rhwng Cymru a Lloegr.

Yn ogystal â'r mater hwn o ffiniau rheoliadol, mae yna fylchau sylweddol hefyd ym mhwerau'r Cynulliad Cenedlaethol, mewn cysylltiad ag agweddau ar y polisi dŵr, yn arbennig rheoleiddio economaidd, yn ogystal â charthffosiaeth.

Ein hamcanion yw alinio'r ffiniau rheoliadol ar gyfer dŵr a charthffosiaeth gyda'r ffin ddaearyddol rhwng Cymru a Lloegr, trosglwyddo cymhwysedd deddfwriaethol llawn i'r Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer yr holl faterion sy'n ymwneud â dŵr a charthffosiaeth a diddymu pŵer unochrog pŵer Llywodraeth y DU i ymyrryd yn adnoddau dŵr Cymru. Rydym yn

awyddus i greu setliad newydd ar gyfer swyddogaethau presennol Gweinidogion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU a'r cymhwysedd deddfwriaethol sydd wedi'i drosglwyddo i Gynulliad Cenedlaethol Cymru. Mae'r ymagwedd hon yn cael ei hategu gan ganfyddiadau Comisiwn Silk ar Bwerau'r Cynulliad Cenedlaethol[78].

Rydym yn credu y bydd alinio'r gwaith o reoleiddio gwasanaethau dŵr a charthffosiaeth gyda'r ffin ddaearyddol yn ein galluogi i integreiddio dŵr yn well gyda'n hymagwedd at reoli adnoddau naturiol, a sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar y cyfleoedd mae adnoddau naturiol Cymru yn eu cynnig. Bydd mabwysiadu'r ffin ddaearyddol fel y ffin reoliadol hefyd yn darparu eglurder o ran atebolrwydd i ddefnyddwyr, y cyflenwyr dŵr, llunwyr polisïau a deddfwyr. Byddai symud tuag at raniad daearyddol yn sicrhau y byddai gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn cysylltiad â'r holl faterion sy'n ymwneud â dŵr, gan gynnwys trwyddedu a phenodi a rheoleiddio ymgymerwyr dŵr. Byddai defnyddio'r ffin ddaearyddol gyda Lloegr ar gyfer rheoleiddio'r gwasanaethau dŵr yn cyd-fynd â'r cymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer Deddfau eraill Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Er mwyn ein galluogi i gael dealltwriaeth well o'r materion ymarferol sy'n gysylltiedig â symud o'r setliad presennol, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rheoleiddwyr a chwmnïau dŵr, i gynnal asesiad manwl o'r materion y bydd angen mynd i'r afael â hwy a llunio trywydd ar gyfer symud ymlaen at setliad newydd.

**Cwmnïau dŵr arloesol a rhagweithiol**

Rydym yn disgwyl i'n cwmnïau dŵr fod yn arloesol ac yn rhagweithiol wrth weithio gydag eraill, gan gynnwys rheoleiddwyr, er mwyn ceisio gwella gwasanaethau a helpu i gyflawni amcanion y Strategaeth hon.

Mae angen ymchwil a thystiolaeth dda fel sail i sector dŵr llwyddiannus ac arloesol. Gyda'r wybodaeth hon, gall y sector ddatblygu ffyrdd gwell o fynd i'r afael â materion sy'n bwysig yng Nghymru, yn awr ac yn y dyfodol. Mae rhaglenni monitro effeithiol yn hollbwysig, er mwyn sicrhau bod mesurau amgylcheddol yn cael eu cyflawni, yn ogystal â sicrhau buddsoddiadau sy'n cael eu targedu'n briodol ar gyfer gwaith cynnal a chadw a gwella yn y dyfodol. Bydd hyn yn helpu i sicrhau bod materion yn cael eu datrys yn gynharach, pan fydd yn fwy cost-effeithiol i wneud hynny, yn hytrach na'u hanwybyddu nes y bydd problem ddifrifol yn codi, sy'n golygu camau adferol sy'n fwy costus.

Rydym yn disgwyl i'r sector dŵr nodi cyfleoedd i wneud gwaith ymchwil a datblygu gyda sefydliadau yng Nghymru a thu hwnt pan fydd hynny'n briodol. Dylai cwmnïau geisio rhannu arfer da a dysgu gan eraill wrth ddatblygu gwyddoniaeth a thechnoleg briodol a chyflwyno syniadau. Dylent, yn benodol, fod yn archwilio ymagweddau arloesol a fydd yn lleihau eu costau gweithredol, yn cynyddu cydnerthedd at newid yn yr

[78] Comisiwn Silk - http://commissionondevolutioninwales.independent.gov.uk/cy/

hinsawdd, lleihau allyriadau nwyon tŷ gwydr a sicrhau bod arferion sy'n fwy effeithlon o ran adnoddau yn cael eu mabwysiadau yn eu gweithrediadau.

Yn ogystal â sicrhau gwasanaethau rhagorol i'w cwsmeriaid, dylai cwmnïau dŵr yng Nghymru annog a chefnogi eu cwsmeriaid busnes a domestig mewn ffordd ragweithiol, er mwyn bod yn fwy effeithlon o ran eu defnydd o ddŵr. Rydym hefyd yn disgwyl iddynt chwarae rôl bwysig yn y gwaith o ddatblygu mesurau i gefnogi eu cwsmeriaid mwyaf agored i niwed, o fewn y fframwaith polisi cyffredinol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru, a gyflwynir yn *Adran 4.4 Fforddiadwyedd Dŵr a Darparu Gwasanaethau Gwych i Gwsmeriaid (t47-51).*

## Cefnogi Arloesedd

Mae cefnogi arloesedd, yn arbennig yn y diwydiant dŵr, yn un o'n prif flaenoriaethau. Rydym eisoes wedi cyflwyno ein disgwyliadau i'n rheoleiddwyr, ac Ofwat yn arbennig, yn nhermau ysgogi arloesedd yn y sector hwn. Rydym hefyd wedi datgan ein disgwyliad clir y dylai arloesedd fod yn elfen ganolog o'r ymagwedd sy'n cael ei mabwysiadu gan y sector dŵr yng Nghymru a'n cwmnïau dŵr yn arbennig.

Byddwn yn cefnogi arloesedd yn y sector dŵr drwy ein strategaeth wyddoniaeth, Gwyddoniaeth i Gymru[79] a'n strategaeth arloesedd, Arloesi Cymru[80]. Mae'r strategaethau hyn yn cyflwyno ein gweledigaeth ar gyfer gwyddoniaeth ac arloesedd, y prif fentrau y byddwn yn eu cyflwyno a sut y byddwn yn mesur llwyddiant.

Cafodd y strategaethau hyn eu datblygu ar ôl ymgynghori'n eang gyda rhanddeiliaid mewnol ac allanol. Mae'r Strategaeth Wyddoniaeth yn cynnig ffordd adeiladol ymlaen o'r hyn y gallwn ei wneud i helpu gwyddoniaeth ffynnu a'r hyn yr ydym yn disgwyl i'n partneriaid, megis y rhai ym maes addysg uwch a busnes, ei wneud i wireddu'r strategaeth hon. Mae'r strategaeth yn cyflwyno menter newydd 'Sêr Cymru'. Mae'n cynnwys cyllid o hyd at £50 miliwn dros bum mlynedd ar gyfer 'sêr' academaidd newydd a Rhwydweithiau Ymchwil Cenedlaethol, ar bynciau gan gynnwys carbon isel, ynni a'r amgylchedd.

Mae'r Strategaeth Arloesedd yn mabwysiadu ymagwedd newydd at arloesi ar draws busnes, llywodraeth a'r gymdeithas gyfan. Mae hyn yn cynnwys datblygu ffyrdd mwy hyblyg o feithrin arloesedd busnes, mwy o ddychymyg ym maes caffael cyhoeddus, a chydweithio ar draws lefelau o lywodraeth.

---

[79] Llywodraeth Cymru – Strategaeth Gwyddoniaeth i Gymru- http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/csaw/?skip=1&lang=cy
[80] Llywodraeth Cymru - Arloesi Cymru - http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/innovation/innovation-strategy-wales/?lang=cy

**Cymorth Busnes ar draws y Sector**

Mae twf gwyrdd yn elfen hollbwysig o ymdrech Llywodraeth Cymru i greu twf economaidd a chreu swyddi sy'n gynaliadwy yn amgylcheddol ac sy'n gynhwysol yn gymdeithasol. Mae'r economi werdd yn elfen bwysig o dwf gwyrdd, ac mae'n disgrifio is-economi Cymru

Mae gan Gymru economi werdd sefydledig sydd eisoes yn tyfu[81], gan gynnwys clwstwr bychan ond ffyniannus o gwmnïau yn y sector dŵr a'i gadwyn gyflenwi. Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gynorthwyo'r cwmnïau hyn i gyflawni'r heriau a manteisio ar y cyfleoedd sy'n cael eu cyflwyno gan y Strategaeth hon.

Mae Ynni, Nwyddau a Gwasanaethau Amgylcheddol, ac Adeiladu yn sectorau allweddol i Lywodraeth Cymru, a byddwn yn parhau i ddarparu cymorth wedi'i deilwra i fusnesau yn y sectorau hyn a sectorau cysylltiedig, i'n galluogi i ddatblygu ein harbenigedd presennol ymhellach. Bydd ein tîm ymroddedig o Reolwyr Datblygu Busnes yn gweithio'n uniongyrchol gyda chwmnïau i'w cynghori a'u cynorthwyo mewn nifer o feysydd o ehangu busnes i ddatblygu'r gadwyn gyflenwi, datblygu rhwydweithiau lleol ac archwilio marchnadoedd rhyngwladol[82]. Byddwn yn parhau i weithio ar draws Llywodraeth Cymru i gynorthwyo busnesau yng Nghymru i wneud y defnydd gorau o'n dŵr ac ymateb i'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig gan ddŵr yn awr ac yn y dyfodol.

**Y sgiliau cywir i weithredu'r Strategaeth**

Byddwn yn ceisio adeiladu ar y sgiliau a'r arbenigedd sydd gennym yn y sector dŵr yng Nghymru er mwyn sicrhau ein bod yn cynnal ac yn datblygu lefel uchel o arbenigedd a fydd yn cefnogi busnesau yn ogystal â gofynion rheoliadol.

Mae gwyddoniaeth, technoleg, peirianneg a mathemateg, a elwir yn bynciau STEM, yn bwysig i bawb, ond mae ganddynt rôl benodol yn y sector dŵr. Rydym wedi sefydlu'r Academi Wyddoniaeth Genedlaethol er mwyn helpu i gynyddu diddordeb plant ac oedolion yn y pynciau hyn. Rydym yn awyddus i gynyddu nifer y bobl sy'n astudio pynciau STEM, ac yna dewis gyrfaoedd sy'n gysylltiedig â STEM ar bob lefel. Mae'r prosiect hwn yn rhan o'n strategaeth wyddoniaeth, Gwyddoniaeth i Gymru.

Ochr yn ochr â hyn, byddwn yn gweithio gyda sefydliadau academaidd a'r sector sgiliau i sicrhau bod gennym gyfleodd addysg a hyfforddiant penodol a fydd yn diwallu ein hanghenion ar gyfer rheoli dŵr yn y dyfodol ac annog a gwella cyfleoedd busnes a'r farchnad yng Nghymru.

---

[81] Redd gwerthiant yn yr economi werdd yng Nghymru wedi cyfrannu £5.5 biliwn at economi Cymru yn 2011/12, gan gefnogi mwy na 41,000 o swyddi. Yn ystod y dirwasgiad rhwng 2009/10 a 2011/12, gwelwyd cynnydd o tua 2.4% yn nifer y swyddi a thua 9.3% mewn gwerthiannau.

[82] www.business.wales.gov.uk

**Fframwaith Tystiolaeth a Gwerthuso**

Bydd tystiolaeth yn sail i'n dull o gyflwyno'r strategaeth hon. Mae ein proses datblygu polisi yn seiliedig ar ymchwil a dadansoddiad trylwyr o dystiolaeth. Rydym yn disgwyl i gwmnïau dŵr a rheoleiddwyr roi'r un pwyslais ar gynnal ymchwil perthnasol a chasglu tystiolaeth i hysbysu eu gwaith a'u prosesau cynllunio busnes. Rydym yn ystyried hyn yn elfen hollbwysig o gyflawni'r canlyniadau cywir i Gymru.

Byddwn yn datblygu fframwaith tystiolaeth a gwerthuso i gyd-fynd â'r strategaeth. Bydd y fframwaith hwn yn cael ei ddatblygu mewn cydweithrediad â rheoleiddwyr, y diwydiant dŵr, y byd academaidd a phartïon perthnasol eraill sydd â rôl allweddol o ran comisiynu neu wneud gwaith ymchwil a chasglu tystiolaeth. Bydd y blaenoriaethau allweddol a'r canlyniadau strategol ym Mhennod 2 yn sail i'r fframwaith hwn.

Yn benodol, bydd y fframwaith yn nodi unrhyw fylchau o ran tystiolaeth neu ddata ac yn ystyried sut y gellir mynd i'r afael â hwy, gan ystyried ymarferoldeb, cost a defnyddioldeb casglu gwybodaeth ychwanegol. Bydd hyn yn helpu i gefnogi'r gwaith o ddatblygu'r strategaeth ac yn hysbysu'r prosesau o'i adolygu a'i werthuso.

Bydd y fframwaith hefyd yn ystyried y dangosyddion ar gyfer mesur cynnydd cyffredinol y strategaeth. Mae yna nifer o ddangosyddion arwyddocaol eisoes wedi'u sefydlu ond byddwn yn asesu, fel rhan o'r gwaith o ddatblygu ein fframwaith tystiolaeth a gwerthuso, a oes angen inni fireinio'r dangosyddion hyn neu ddatblygu dangosyddion newydd.

## Prif gamau gweithredu

- Byddwn yn adolygu cylch gwaith, aelodaeth a ffocws Fforwm y Diwydiant Dŵr i sicrhau ffocws ar yr heriau cyffredinol ar gyfer rheoli dŵr yng Nghymru a chyflawni'r Strategaeth.
- Byddwn yn cyflwyno deddfwriaeth newydd drwy'r Bil Dŵr, er mwyn galluogi Gweinidogion Cymru i gyhoeddi datganiad sy'n nodi blaenoriaethau ac amcanion strategol Ofwat ar gyfer ardaloedd sy'n gweithredu yn gyfan gwbl neu'n bennaf yng Nghymru
- Byddwn yn adolygu ymagweddau rheoliadol i Gymru yn y dyfodol yng ngoleuni'r gwaith ymchwil a gomisiynwyd yn ddiweddar ar reoleiddio dŵr.
- Byddwn yn cynnal adolygiad o'r goblygiadau ymarferol o alinio'r ffiniau rheoliadol ar gyfer dŵr a charthffosiaeth gyda'r ffin ddaearyddol rhwng Cymru a Lloegr.
- Byddwn yn datblygu fframwaith Tystiolaeth a Gwerthuso er mwyn helpu i gyflwyno'r Strategaeth hon.

## Cwestiynau Ymgynghori

**24.** Ydych chi'n cytuno â'n hymagwedd i sicrhau bod gwaith rheoleiddio yn canolbwyntio ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru? A oes

gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ar gyfer y fframwaith rheoleiddio ac a yw'n addas i'r diben?

**25.** A oes unrhyw weithredoedd eraill y dylem eu cyflawni er mwyn cefnogi arloesedd ar draws y sector dŵr cyfan?

**26.** Beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu busnesau yn y sector dŵr i dyfu a ffynnu’n effeithiol?

**27.** A oes unrhyw weithredoedd eraill y mae angen i Lywodraeth Cymru eu cyflawni er mwyn cefnogi’r gwaith o gyflwyno’r Strategaeth hon?

**28.** Pa wybodaeth fyddai’n ddefnyddiol i asesu sut mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni yn erbyn y canlyniadau a’r gweithredoedd allweddol yn y Strategaeth?

## 5. Y Camau Nesaf

Wrth baratoi'r Strategaeth hon rydym wedi trafod gyda phobl ac wedi ymgysylltu'n eang.  Rydym yn ymgynghori'n ffurfiol yn awr ar ein cyfeiriad polisi ar gyfer dŵr yng Nghymru yn y yr hirdymor.

Nid ydym wedi pennu amserlenni ar gyfer cyflawni ein holl ddyheadau polisi yn yr ymgynghoriad hwn oherwydd ein bod yn awyddus i glywed eich barn am beth sy'n bwysig i chi a phryd y dylai Llywodraeth Cymru fod yn gweithredu'r cynigion er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i Gymru.

Byddwn yn ddiolchgar o dderbyn eich sylwadau cyffredinol yn ogystal â'ch ymatebion i'r cwestiynau ymgynghori penodol.  Bydd y rhain yn helpu i hysbysu ein strategaeth derfynol, a fydd yn cael ei chyhoeddi yn ddiweddarach yn 2014.

# Atodiad A – Geirfa

**Adnoddau Naturiol***

Yng Nghymru, mae adnoddau naturiol yn cynnwys y materion canlynol sy'n gysylltiedig â rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy:
(a) aer, adnoddau dŵr a phridd;
(b) safleoedd daearegol a thirweddau;
(c) biomas ac adnoddau biolegol;
(d) ecosystemau.

Esboniad o gydrannau diffiniad

(a) yn cynrychioli cyfrwng amgylcheddol cyffredinol (yn unol â disgrifiad y Comisiwn Ewropeaidd);
(b) yn cynrychioli elfennau anfiotig yn bennaf. Bydd mwynau yn cael eu cynnwys o dan elfennau daearegol sy'n ymwneud â, neu sy'n seiliedig ar ddaeareg. Mae safleoedd daearegol a thirweddau wedi'u defnyddio oherwydd eu bod yn cynrychioli elfennau gwahanol ac er bod tirweddau yn ffisiograffegol, nid yw pob nodwedd ffisiograffegol yn dirluniau;
(c) yn cynrychioli pob math o fywyd organig, planhigion, anifeiliaid ac organebau byw eraill. Drwy gynnwys biomas, mae hyn felly'n cynnwys deunydd biolegol sy'n deillio o organebau byw, neu sydd wedi byw hyd at yn ddiweddar.
(d) mae ecosystemau wedi'u cynnwys er mwyn adlewyrchu'r rhyng-gysylltiadau a'r rhyng-ddibyniaeth rhwng adnoddau naturiol unigol.

**Mae ein hymgynghoriad ar Bapur Gwyn Bil yr Amgylchedd[83] yn cyflwyno'r wybodaeth uchod fel diffiniad arfaethedig o Adnoddau Naturiol yng nghyd-destun Cymru. Cawsom nifer o ymatebion yn yr ymgynghoriad ar gwmpas y diffiniad hwn, ac rydym yn parhau i ddadansoddi ac adolygu hyn, felly mae'r diffiniad hwn yn debygol o newid.*

**Ardal basn afon**

Mae ardal basn afon yn ardal o dir a môr, sy'n cynnwys un neu fwy o fasnau afonydd cyfagos a'u dŵr daear a'u dŵr arfordir cysylltiedig, a nodir o dan Erthygl 3(1) y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr fel y brif uned ar gyfer rheoli basn afon.

**Arolygiaeth Dŵr Yfed**

Rheoleiddiwr annibynnol dŵr yfed yng Nghymru a Lloegr, sy'n gyfrifol am sicrhau bod cwmnïau yn darparu dŵr yfed diogel sy'n dderbyniol i ddefnyddwyr ac sy'n diwallu'r safonau sydd wedi'u cyflwyno mewn cyfreithiau.

[83] Papur Gwyn Bil yr Amgylchedd - http://wales.gov.uk/consultations/environmentandcountryside/environment-bill-white-paper/?skip=1&lang=cy

**Basn afon**
Mae basn afon yn ardal o dir y mae pob dŵr wyneb yn llifo iddo drwy gyfres o nentydd, afonydd ac, o bosibl, llynnoedd i'r môr mewn un aber afon, aber neu ddelta.

**Carthbyllau**
Mae carthbyllau yn danciau syml sy'n storio'r holl garthion o eiddo. Yna bydd tancer yn gwagio'r tanc hwn yn rheolaidd a bydd y carthion yn cael eu trin mewn gwaith trin carthion.

Cyn 1974, cynghorau lleol fyddai'n gwasanaethu systemau o'r fath, fel rhan o'u darpariaeth carthffosiaeth ar gyfer eu hardal. Felly, nid oedd aelwydydd yn talu unrhyw dâl penodol am y gwasanaeth tancer. Ers creu'r Awdurdodau Dŵr ym 1974, mae taliadau wedi'u cyflwyno ar gyfer gwagio carthbyllau ac mae'r rhan fwyaf o wasanaethau yn cael eu darparu ar sail fasnachol erbyn hyn. Gall y systemau hyn fod yn ddrud i ddeiliaid tai eu cynnal, ac mae llawer o dystiolaeth o orlif a phwmpio anghyfreithlon.

**Carthion**
Deunydd gwastraff o leoliadau domestig neu ddiwydiannol a gaiff ei gludo ymaith mewn carthffosydd neu ddraeniau er mwyn ei ddympio neu ei drosi fel nad yw'n wenwynig mwyach.

**Carthffosiaeth**
System o bibau a ddefnyddir i gael gwared ar ddŵr gwastraff.

**Crynofa ddŵr**
Mae crynofa ddŵr yn golygu elfen arwahanol a sylweddol o ddŵr wyneb megis llyn, cronfa ddŵr, nant, afon neu gamlas, rhan o nant, afon neu gamlas, dyfroedd trawsnewidiol neu ardal o ddŵr arfordirol.

**Cwmni Dŵr**
Mae cwmni dŵr yn sefydliad sy'n cyflenwi dŵr neu wasanaethau carthffosiaeth i eiddo domestig a busnes.

**Cydnerthedd**
Yng nghyd-destun ecosystemau, mae cydnerthedd yn cynrychioli gallu ecosystem i wrthsefyll neu i adfer yn dilyn aflonyddwch a'i allu i oroesi ac addasu er mwyn cynnal ei hamrywiaeth fiolegol, ei phrosesau naturiol a'i darpariaeth o wasanaethau ecosystemau. Gall cydnerthedd arddangos trothwyon, sy'n lefel o aflonyddwch na all y system adfer ohoni, neu pan fydd yn cael ei thrawsnewid i gyflwr arall (sy'n aml yn annymunol, ond nid yn anochel). Mae ecosystemau yn debygol o wynebu aflonyddwch ar ffurf nifer o fathau o bwysau ac ysgogwyr, sy'n cynnwys newid yn yr hinsawdd a'i sgîl-effeithiau. Wrth reoli ein hadnoddau, mae'n bwysig ein bod yn ystyried gallu ecosystemau i wrthsefyll, ymgorffori neu adfer yn dilyn aflonyddwch.

**Cyfoeth Naturiol Cymru**
Cyfoeth Naturiol Cymru yw rheoleiddiwr amgylcheddol Cymru, sy'n gyfrifol am ddiogelu a gwella ein hadnoddau naturiol a hyrwyddo datblygiad cynaliadwy.

**Cynlluniau Rheoli Asedau**
Mae'r diwydiant dŵr yn gweithredu ar sail cylchoedd o bum mlynedd o'r enw cyfnodau Cynlluniau Rheoli Asedau. Mae'r prisiau yn cael eu pennu gan Ofwat ar ddechrau pob cyfnod, ar ôl i bob cwmni gyflwyno eu costau ar gyfer cyflawni eu cynlluniau busnes.

**Cynlluniau Rheoli Basn Afon**
Mae angen Cynllun Rheoli Basn Afon bob chwe blynedd o dan y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr ar gyfer pob ardal basn afon. Mae'r cynllun yn disgrifio'r ardal basn afon, a'r pwysau sy'n wynebu'r amgylchedd dŵr. Mae'n dangos beth mae hyn yn ei olygu i gyflwr presennol amgylchedd dŵr yr ardal basn afon, a pha gamau a gymerir i fynd i'r afael â'r pwysau hyn. Mae'n nodi pa welliannau sy'n bosibl a sut y bydd y camau gweithredu yn gwneud gwahaniaeth i'r amgylchedd lleol - y dalgylchoedd, yr aberoedd, yr arfordir a'r dŵr daear.

**Cynllunio Trefol sy'n Sensitif i Ddŵr**
Mae Cynllunio Trefol sy'n Sensitif i Ddŵr yn ddull cynllunio tir a dylunio peirianneg sy'n integreiddio'r cylch dŵr trefol, gan gynnwys rheoli dŵr storm, dŵr daear, a dŵr gwastraff a chyflenwi dŵr, i gynllunio trefol, er mwyn lleihau dirywiad amgylcheddol a gwella apêl esthetig a hamdden.

**Datblygu Cynaliadwy**
Mae datblygu cynaliadwy yn golygu gwella lles economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol pobl a chymunedau, gan sicrhau ansawdd bywyd gwell i'n cenedlaethau ni a chenedlaethau'r dyfodol mewn ffyrdd sy'n:

- hybu cyfiawnder cymdeithasol a chyfle cyfartal;
- gwella'r amgylchedd naturiol a diwylliannol a pharchu ei gyfyngiadau - gan ddefnyddio ein cyfran deg o adnoddau ein daear yn unig a chynnal ein hetifeddiaeth ddiwylliannol [84].

**Dull ar sail Ardal**
Bydd Bil yr Amgylchedd yn ei gwneud yn ofynnol i Cyfoeth Naturiol Cymru ddatblygu a chyflwyno dull rheoli adnoddau naturiol ar sail ardal. Bydd y broses hon yn cynllunio ac yn pennu blaenoriaethau sy'n cydgysylltu'r defnydd a wneir o adnoddau er mwyn sicrhau'r buddiannau cynaliadwy mwyaf yn yr hirdymor i bobl, amgylchedd ac economi Cymru yn awr ac yn y dyfodol. Bydd yn alinio â dulliau ar sail dalgylch ar gyfer rheoli dŵr a chynllunio adnoddau dŵr gyda gweithgarwch eraill ar gyfer rheoli tir.

[84] Cynllun Datblygu Cynaliadwy - http://wales.gov.uk/newsroom/sustainabledevelopment/2013/130312-sustainable-development/?skip=1&lang=cy

**Dull rheoli ar lefel yr ecosystem**
Mae dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn canolbwyntio ar reoli pob adnodd gyda'i gilydd - gan gynnal integredd ecolegol a chaniatáu i adnoddau gael eu tynnu/defnyddio - yn hytrach na rheoli nifer o adnoddau yn annibynnol. Mae'r ymagwedd hon yn ceisio sicrhau bod ecosystemau a chymunedau dynol iach a chwbl weithredol yn gallu cyd-fyw a datblygu gyda'i gilydd. Mae'r term dull rheoli ar lefel yr ecosystem yn deillio'n wreiddiol o'r Confensiwn ar Amrywiaeth Biolegol, lle mae'n cael ei ddisgrifio fel strategaeth ar gyfer rheoli tir, dŵr ac adnoddau byw mewn ffordd integredig, sy'n hyrwyddo cadwraeth a defnydd cynaliadwy mewn ffordd gyfartal.[85]

**Dŵr Oeri**
Mae angen llawer iawn o ddŵr at ddibenion oeri wrth gynhyrchu trydan mewn gorsafoedd pŵer glo, nwy, biomas a niwclear. Yng Nghymru, mae'r rhan fwyaf o orsafoedd pŵer yn defnyddio dŵr o'r arfordir neu aberoedd ac mae'r rhan fwyaf o'r dŵr yn cael ei ddychwelyd i'r amgylchedd. Defnyddir dŵr hefyd i oeri mewn nifer fawr o systemau diwydiannol, er enghraifft yn y diwydiant dur.

**Dŵr Yfed**
Dŵr yfed yw dŵr sy'n ddigon diogel i gael ei yfed gan bobl neu i gael ei ddefnyddio gyda risg isel o niwed uniongyrchol neu niwed yn yr hirdymor.

**Dyfroedd trawsnewidiol**
Mae'r rhain yn grynofeydd o ddŵr wyneb ger ceg afon sy'n rhannol halenog o ganlyniad i'w hagosatrwydd at ddyfroedd arfordirol ond sy'n cael eu dylanwadu'n helaeth gan lifau dŵr croyw.

**Ecosystem**
Mae ecosystem yn cynnwys organebau byw (planhigion, anifeiliaid a micro-organebau) yn ogystal â'r amgylchedd o'u hamgylch (yr aer, dŵr, mwynau a phridd) a'r holl gysylltiadau amrywiol a chymhleth sy'n digwydd rhyngddynt.

**Elifyn, elifion**
Hylif sy'n gollwng o wastraff, er enghraifft o waith diwydiannol neu waith carthion.

**Ffosydd cerrig**
Ffos gerrig yw pan fydd dŵr wyneb o'ch to neu dramwyfa yn cael ei gludo drwy bibellau i bwll tanddaearol mawr gyda graean o fewn ffin eich eiddo, sydd fel arfer rhwng 10 a 15 troedfedd o'r seiliau.

**Gwasanaethau dŵr**
Mae gwasanaethau dŵr yn golygu pob gwasanaeth sy'n darparu dŵr i gartrefi, sefydliadau cyhoeddus neu unrhyw weithgarwch economaidd. Mae hyn yn cynnwys tynnu, cronni, storio, trin a dosbarthu dŵr wyneb

[85] http://www.cbd.int/ecosystem

neu ddŵr daear.  Mae hefyd yn cynnwys casglu dŵr gwastraff a chyfleusterau trin sy'n cael ei ryddhau'n ddiweddarach i ddŵr wyneb.

**Gwasanaethau ecosystemau**
Y gwasanaethau hyn yw'r rhai a gawn gan natur megis dŵr yfed glân; rheoleiddio ansawdd yr aer, yr hinsawdd a'r perygl o lifogydd; cyfleodd ar gyfer hamdden, twristiaeth a datblygiad diwylliannol; a swyddogaethau sylfaenol megis ffurfio pridd ac ailgylchu maethynnau.  Mae rhai o'r rhain yn hollbwysig ar gyfer bywyd ac mae'n haws rhoi pris arnynt mewn termau economaidd, tra bod eraill megis tirweddau hardd yn llai diriaethol ond yn gwella bywyd serch hynny.  Mae cynnal a gwella gwasanaethau ecosystemau – a'u hadfer pan maent wedi diflannu neu wedi'u his-raddio – yn cael eu cydnabod yn gynyddol fel prosesau hollbwysig ar gyfer economi a lles pobl.

Mae gwasanaethau ecosystemau yn cael eu diffinio fel gwasanaethau sy'n cael eu darparu gan ein hadnoddau naturiol sydd o fudd i bobl neu swyddogaethau ecosystemau eraill.  Er nad oes un dull y mae pawb yn cytuno arno i gategoreiddio pob gwasanaeth ecosystem, mae fframwaith Asesiad Ecosystemau'r Mileniwm[86] yn cael ei dderbyn yn gyffredinol.

**Gweithfeydd trin carthion**
Mae nifer o weithfeydd trin carthion bach yng Nghymru.  Gall nifer o weithgynhyrchwyr ddarparu gwasanaeth cyflawn i osod a chynnal a chadw systemau o'r fath.  Mae angen cyflenwad trydan arnynt fel arfer, yn ogystal ag archwiliadau rheolaidd a bydd angen tynnu'r slwtsh ohonynt yn achlysurol.  Maent yn rhyddhau dŵr sydd wedi'i buro'n ddigonol i'r amgylchedd, naill ai i'r ddaear neu i gwrs dŵr.  Yn y rhan fwyaf o achosion, bydd angen eithriad cofrestredig gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer y gollyngiad, sydd ar gael am ddim.  Pan fydd posibilrwydd y gallai'r gollyngiad effeithio ar safle sensitif (megis twll turio tynnu dŵr neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig), mae'n bosibl y bydd angen trwydded amgylcheddol, y bydd angen talu amdani.

**Gwyddoniaeth gan Ddinasyddion**
Mae gwyddoniaeth gan ddinasyddion yn cyfeirio at ymgysylltiad cyffredinol y cyhoedd mewn gweithgareddau ymchwil gwyddonol pan fydd dinasyddion yn cyfrannu at wyddoniaeth naill gyda'u hymdrech ddeallusol neu wybodaeth gyffredinol neu gyda'u hoffer a'u hadnoddau.  Gall unigolion, timau neu rwydweithiau o wirfoddolwyr gyflawni gwyddoniaeth gan ddinasyddion.  Mae gwyddonwyr sy'n ddinasyddion yn aml yn gweithio mewn partneriaeth gyda gwyddonwyr proffesiynol i gyflawni nodau cyffredin.  Mae rhwydweithiau mawr o wirfoddolwyr yn aml yn galluogi gwyddonwyr i gyflawni tasgau a fyddai'n rhy ddrud neu lafurus i'w cyflawni drwy ddulliau eraill.

---

[86] Galwyd am Asesiad Ecosystemau'r Mileniwm gan Ysgrifennydd-Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig, Kofi Annan yn 2000. Prif amcan yr Asesiad Ecosystemau, a gyflwynwyd yn 2001, oedd asesu canlyniadau newid i ecosystemau i les dynol a'r sail wyddonol sydd ei hangen i wella cadwraeth a defnydd cynaliadwy o'r systemau hynny a'u cyfraniad at les dynol.

**Hydromorffoleg**
Hydromorffoleg yw'r term a ddefnyddir i reoli basn afon i ddisgrifio'r prosesau a nodweddion hydrolegol a geomorffaidd afonydd, llynnoedd, aberoedd a dyfroedd arfordirol. Y rhain, i bob pwrpas, yw nodweddion ffisegol siâp, ffiniau a chynnwys crynofa ddŵr. O'r ddwy elfen o hydromorffoleg, mae hydroleg yn ymwneud â llif dŵr. Mae'n cynrychioli cyfaint a deinameg llifau, lefelau a rhyng-gysylltiadau dŵr â chrynofeydd dŵr eraill, gan gynnwys dŵr daear. Mae morffoleg yn ymwneud â ffurf ffisegol crynofa ddŵr. Mae'n ymwneud â lled, dyfnder a strwythur afon, llyn neu wely'r môr a chyflwr y gwely, cefnen a thraethau.

Pan fydd ansawdd y dŵr yn dda, gall hydromorffoleg gwael gyfyngu ar yr ecoleg. Er enghraifft, ni fydd sianel goncrid yn cynnal yr amrywiaeth ecolegol y byddai sianel raean yn ei chynnal, a gall rhwystr mewn nant rwystro pysgod mudo neu symudiad gwaddodion.

**Ofwat (yr Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr)**
Ofwat yw rheoleiddiwr economaidd y sectorau dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr. Mae'n gyfrifol am reoleiddio'r diwydiant dŵr, a sicrhau bod cwmnïau dŵr yn darparu gwasanaeth o safon uchel a gwerth am arian i gwsmeriaid. Mae hyn yn cynnwys pennu uchafsymiau prisiau er mwyn sicrhau bod cwsmeriaid yn derbyn bargen deg, a galluogi'r cwmnïau dŵr i godi refeniw digonol ar gyfer buddsoddi; monitro perfformiad cwmnïau dŵr a chymryd camau gweithredu i ddiogelu buddiannau defnyddwyr (gan gynnwys ymchwilio i ymddygiad anghystadleuol); pennu targedau effeithlonrwydd ar gyfer cwmnïau dŵr, a gwneud yn siŵr bod cwmnïau yn cyflenwi'r fargen orau i ddefnyddwyr ac i'r amgylchedd yn y tymor hwy.

**Pant**
Mae pant yn llain isel o dir, yn arbennig un sy'n llaith neu'n gorslyd. Gall y term gyfeirio at nodwedd tirlun naturiol neu un sydd wedi'i greu gan bobl. Mae pantiau artiffisial yn cael eu cynllunio'n aml i reoli dŵr ffo, hidlo llygryddion a chynyddu ymdreiddiad dŵr glaw.

**Partneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru**
Mae Partneriaeth Dŵr ac Iechyd Cymru yn fenter sy'n dod ag asiantaethau perthnasol ynghyd i gytuno ar sut i gydweithio'n fwy effeithiol er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd drwy sicrhau dŵr yfed diogel. Mae'r Asiantaethau sy'n rhan o'r Bartneriaeth hon yn cynnwys Llywodraeth Cymru, yr Arolygiaeth Dŵr Yfed, awdurdodau lleol, Cyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru, Dŵr Cymru ac Iechyd Cyhoeddus Cymru.

**Rheoli Adnoddau Naturiol yn Integredig**
Rheoli adnoddau naturiol yn integredig yw proses gynllunio a phennu blaenoriaethau sy'n cydgysylltu'r prosesau cynnal a chadw, gwella a defnyddio adnoddau naturiol - gan roi ystyriaeth i bob gwasanaeth ecosystemau - er mwyn sicrhau'r buddiannau gorau yn yr hirdymor i bobl, amgylchedd ac economi Cymru yn awr ac yn y dyfodol.

Bydd angen dilyn y broses hon er mwyn gallu rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy, er mwyn cyflawni mwy o fuddiannau hirdymor i'r economi, i gymdeithas ac i'r amgylchedd.

**System Ddŵr**
Mae System Ddŵr yn golygu afon a'i holl isafonydd neu'r dull o gyflenwi dŵr i gartrefi.

**Systemau Draenio Cynaliadwy**
Mae system ddraenio gynaliadwy yn cael ei chynllunio er mwyn lleihau effaith bosibl datblygiadau newydd a phresennol ar gyfer gollyngiadau draenio dŵr wyneb.

**Talu am Wasanaethau Ecosystemau**
Mae cynlluniau talu am wasanaethau ecosystemau yn cynnwys gwneud taliadau i reolwyr tir neu adnoddau naturiol eraill yn gyfnewid am ddarparu gwasanaethau ecosystemau penodol (neu gamau gweithredu a ragwelir ar gyfer cyflenwi'r gwasanaethau hyn) yn ychwanegol at beth fyddai'n cael ei ddarparu fel arall, yn absenoldeb taliad. Gwneir taliadau gan fuddiolwyr y gwasanaethau dan sylw, er enghraifft, unigolion, cymunedau, busnesau neu lywodraethau sy'n gweithredu ar ran partïon amrywiol. Mae buddiolwyr a rheolwyr tir neu adnoddau yn ymrwymo i gytundebau talu am wasanaethau ecosystemau ar sail wirfoddol, ac nid oes unrhyw rwymedigaeth arnynt i wneud hynny [87].

**Tanciau Carthion**
Dim ond gwaith trin carthion sylfaenol y mae'r tanciau hyn yn ei wneud, gan gadw'r deunydd solet a rhyddhau gorlif o garthion sydd wedi'u trin yn rhannol i'r tir, lle bydd triniaeth bellach yn digwydd yn y system ffosydd cerrig. Mae'n bosibl na fydd yr elifion o systemau o'r fath yn cael eu rhyddhau i'r cyrsiau dŵr. Fel gweithfeydd trin carthion, bydd angen eithriad cofrestru gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar gyfer gollyngiad, a roddir am ddim. Pan fydd posibilrwydd y gallai'r gollyngiad effeithio ar safle sensitif (megis twll turio tynnu dŵr neu Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig), mae'n bosibl y bydd angen trwydded amgylcheddol, y bydd angen talu amdani).

**Teithiau Cerdded ar hyd yr Afon**
Mae teithiau cerdded ar hyd yr afon, a elwir hefyd yn arolygon dalgylch, yn arolygon gweledol systemataidd o ddalgylchoedd drwy gerdded. Yn achos afonydd neu gamlesi, gwneir hyn fel arfer drwy ddilyn llwybr crynofa ddŵr wrth gerdded i fyny'r afon. Mae lleoliad, difrifoldeb ac achos unrhyw faterion yn cael eu cofnodi, ynghyd â thystiolaeth ffotograffig. Gellir olrhain materion i ffynonellau penodol hefyd, neu byddant yn cael eu gadael ar gyfer arolygon dilynol mwy manwl, yn dibynnu ar amcanion penodol yr arolwg.

[87] Payments for Ecosystem Services: A Best Practice Guide DEFRA Mai 2013

Gallant fod yn ddull effeithiol iawn o ddarparu ciplun o ddalgylchoedd trefol a gwledig a thystiolaeth ar gyfer gweithredu, yn arbennig wrth ddelio â llygredd gwasgaredig.

**Treulio Anaerobig**
Mae treulio anaerobig yn broses naturiol lle bydd deunyddiau planhigion ac anifeiliaid (biomas) yn cael eu dadelfennu gan ficro-organebau yn absenoldeb aer. Mae nifer o fathau gwahanol o fiomas yn addas ar gyfer treulio anaerobig, gan gynnwys gwastraff bwyd a gweddillion slyri a charthion. Mae'n cael ei ddefnyddio hefyd i drin y gwastraff bwyd sy'n cael ei gynhyrchu mewn cartrefi, ar ffermydd, mewn archfarchnadoedd a diwydiannau ar hyd a lled y DU. Mae hyn yn helpu i ailgyfeirio gwastraff o safleoedd tirlenwi.

**Twf gwyrdd**
Mae twf gwyrdd yn ffordd o feithrin twf a datblygiad economaidd, gan sicrhau bod asedau naturiol yn parhau i ddarparu'r adnoddau a'r gwasanaethau amgylcheddol y mae ein lles yn dibynnu arnynt. Yn ymarferol, mae hyn yn golygu gwneud y broses dwf yn effeithlon o ran adnoddau, yn isel o ran carbon, yn lanach (lleihau effeithiau llygredd ac effeithiau amgylcheddol) a bod yn fwy cydnerth (i wrthsefyll newid yn yr hinsawdd a pheryglon naturiol) heb ei arafu o reidrwydd[88].

**Y Cyngor Defnyddwyr Dŵr a Chyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru**
Cyngor Defnyddwyr Dŵr Cymru yw cynrychiolydd annibynnol defnyddwyr dŵr domestig a busnes yng Nghymru a Lloegr. Nid yw'n rheoleiddiwr, ond mae'n gwneud cyfraniad pwysig drwy gynrychioli cwsmeriaid dŵr a charthffosiaeth yng Nghymru a Lloegr.

**Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr – Asesu crynofeydd dŵr**
Mae pennu statws crynofa ddŵr a rhesymau dros fethiant yn gymhleth ac mae ein dealltwriaeth yn newid dros amser. Mae nifer y crynofeydd dŵr a'u ffiniau hyd yn oed yn newid wrth inni ddysgu mwy. Rydym yn mabwysiadu'r ymagwedd ganlynol er mwyn asesu statws crynofeydd dŵr:

- Rydym yn monitro 'elfennau' gwahanol (e.e. pysgod) ar gyfer crynofeydd dŵr gwahanol. Pan fydd 'sgôr' elfen yn is na'r disgwyl, mae'r elfen honno yn achosi i'r grynofa ddŵr fethu.
- Yna byddwn yn casglu tystiolaeth er mwyn canfod pam mae'r elfen yn methu – y rhain yw'r 'Rhesymau dros Fethu'. Gall crynofa ddŵr fethu am fwy nag un rheswm a gall elfen fethu am fwy nag un rheswm.
- Mae ein lefel ni o ddealltwriaeth yn pennu ein sicrwydd dros Reswm dros Fethu: 'Cadarnhawyd' = tystiolaeth gryf, 'Tebygol' = tystiolaeth resymol, 'Amheuir' = tystiolaeth awgrymog.
- Rydym hefyd yn ystyried difrifoldeb y Rheswm dros Fethu – a ydym yn credu ei fod yn cael effaith arwyddocaol neu ddibwys ar elfen sy'n methu.

[88] Y Sefydliad ar gyfer Cydweithrediad a Datblygiad Economaidd: Tuag at Dwf Gwyrdd

Mae Ffigur 4 yn dangos y rhesymau dros fethiant ac mae'n cynnwys categori ar gyfer 'ymchwiliadau sy'n mynd rhagddynt' a data ar gyfer pob lefel o sicrwydd a difrifoldeb.  Mae'n cynnwys rhywfaint o ddata ar gyfer crynofeydd dŵr arfordirol/trawsnewidiol.  Mae'n darparu trosolwg cyffredinol o'r materion sy'n effeithio ar yr amgylchedd dŵr yng Nghymru.

**Ymgymerwyr Dŵr**

Mae'r term 'ymgymerwr dŵr' yn golygu cwmni sydd wedi'i benodi o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 (WIA91) i ddarparu gwasanaethau dŵr i ardal ddaearyddol benodol.

# Atodiad B – Ffurflen Ymateb i'r Ymgynghoriad

Eich enw:

Sefydliad (os yw'n berthnasol):

E-bost / rhif ffôn:

Eich Cyfeiriad:

## Cwestiynau Ymgynghori

Atebwch bob cwestiwn sy'n ymwneud â'r meysydd sydd o ddiddordeb i chi. Bydd unrhyw dystiolaeth ategol o gymorth wrth ddadansoddi'r ymatebion.

**Dŵr ar gyfer Natur, Pobl a Busnesau**

**1.** O safbwynt gweithredu'r ddeddfwriaeth, a oes unrhyw feysydd penodol yr hoffech i ni ganolbwyntio arnynt?

**2.** A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ar gyfer gwella ac ehangu cyfranogiad cymunedau mewn dulliau rheoli dalgylchoedd integredig?

**3.** Rydym wedi dangos y cysylltiadau agos rhwng rheoli tir a rheoli'r amgylchedd dŵr. A ydych chi'n ymwybodol o enghreifftiau o arfer da y byddai'n bosibl eu hailgynhyrchu mewn mannau eraill?

**4.** Pa gyfleoedd ydych chi'n eu rhagweld i ddatblygu cynlluniau TWE mewn cysylltiad â rheoli dŵr yng Nghymru? Beth ydych chi'n credu y dylai Llywodraeth Cymru ei wneud i ddatblygu'r cynlluniau hyn?

**5.** Beth arall y gallwn ei wneud er mwyn gwneud y defnydd gorau o'n dŵr, yn arbennig yn nhermau cefnogi ein hagenda ar gyfer Twf Gwyrdd?

**Gweithredu i Leihau Llygredd**

**6.** Ydych chi'n cytuno â'n ffocws ar lygredd gwasgaredig? Os nad ydych, esboniwch pam.

**7.** A oes unrhyw broblemau llygredd ychwanegol y credwch y dylem eu nodi? Os felly, pa gamau gweithredu ydych chi'n credu sydd eu hangen?

**8.** Ydych chi'n cytuno â chwmpas y gweithgareddau ar gyfer y Rheolau Rhwymol Cyffredinol, fel y'u nodir?

**9.** Ydych chi’n cytuno mai cosbau ariannol amrywiadwy yw’r ffordd orau i Cyfoeth Naturiol Cymru orfodi’r rheolau rhwymol cyffredinol?

**Gwella’r ffordd yr ydym yn cynllunio a rheoli ein gwasanaethau dŵr**

**10.** Ydych chi’n cytuno â’r egwyddor o alinio’r Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr a’r Cynllun Sychder gyda’r Cylch Cynllunio Rheoli Asedau?

**11.** Ydych chi’n cytuno bod angen gwella ein cynlluniau ar gyfer rheoli dŵr gwastraff a charthffosiaeth yn yr hirdymor?

**12.** Sut y gallwn ni sicrhau bod cynlluniau Cwmnïau Dŵr yn cysylltu â chynlluniau rheoli adnoddau naturiol ehangach? Beth yw eich barn ar sut y dylid cyflwyno hyn?

**13.** Ydych chi’n cytuno â’r cynigion i annog defnydd mwy effeithlon o ddŵr? A oes yna unrhyw gamau gweithredu pellach y gallwn eu cymryd?

**14.** Ydych chi’n cytuno â’n hymagwedd ar gyfer mesuryddion? Pa ffactorau eraill y dylem eu hystyried?

**15.** Ydych chi’n cytuno â’r ymagwedd hon ar gyfer rheoli gollyngiadau? A oes ffyrdd y gallwn sicrhau bod gollyngiadau yn cael eu lleihau mewn ffordd gynaliadwy?

**Fforddiadwyedd dŵr darparu gwasanaethau gwych i gwsmeriaid**

**16.** Sut y gallwn sicrhau bod arfer gorau yn cael ei rannu ar draws y diwydiant dŵr, er mwyn sicrhau bod atebion arloesol, sy’n mynd i’r afael â phroblemau tlodi dŵr, yn cael eu rhannu gydag eraill?

**17.** A ydym ni wedi nodi’r materion a’r camau gweithredu allweddol mewn cysylltiad â fforddiadwyedd dŵr?

**18.** A oes unrhyw ymagweddau eraill y gallwn eu mabwysiadu er mwyn cefnogi anghenion cwsmeriaid domestig a busnes?

**Diogelu a Gwella Ansawdd Dŵr Yfed**

**19.** A oes unrhyw faterion ychwanegol ynglŷn ag ansawdd dŵr yfed y dylem eu hystyried? Ydych chi’n cytuno â’n cynnig i ymchwilio i drosglwyddo pibellau cyflenwi dŵr i’r cwmnïau dŵr?

**20.** A ddylem ni ddatblygu ac ymgynghori ar strategaeth hirdymor i ddiddymu’r risgiau iechyd o ddefnyddio plwm mewn gwaith plymio?

**Ymagwedd Newydd ar gyfer Draenio**

**21.** Ydych chi’n cytuno â’n blaenoriaethau ar gyfer materion draenio?

**22.** Mae'r adran hon wedi canolbwyntio ar y seilwaith adeiledig, sy'n gwasanaethu ardaloedd datblygedig yn bennaf. A ddylem ystyried unrhyw beth arall ar gyfer ardaloedd gwledig?

**23.** A oes unrhyw faterion arwyddocaol eraill y credwn y dylem fod wedi'u cynnwys?

**Cefnogi Dulliau Cyflenwi**

**24.** Ydych chi'n cytuno â'n hymagwedd i sicrhau bod gwaith rheoleiddio yn canolbwyntio ar flaenoriaethau Llywodraeth Cymru? A oes gennych chi unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill ar gyfer y fframwaith rheoleiddio ac a yw'n addas i'r diben?

**25.** A oes unrhyw weithredoedd eraill y dylem eu cyflawni er mwyn cefnogi arloesedd ar draws y sector dŵr cyfan?

**26.** Beth arall y gallai Llywodraeth Cymru ei wneud i helpu busnesau yn y sector dŵr i dyfu a ffynnu'n effeithiol?

**27.** A oes unrhyw weithredoedd eraill y mae angen i Lywodraeth Cymru eu cyflawni er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno'r Strategaeth hon?

**28.** Pa wybodaeth fyddai'n ddefnyddiol i asesu sut mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni yn erbyn y canlyniadau a'r gweithredoedd allweddol yn y Strategaeth?

**29**: Rydym wedi gofyn nifer o gwestiynau penodol. Os oes gennych unrhyw faterion nad ydym wedi'u trafod yn benodol, gallwch ddefnyddio'r gofod hwn i'w nodi:

Nodwch hwy yma:

Mae'r ymatebion yn debygol o gael eu cyhoeddi, ar y rhyngrwyd neu mewn adroddiad. Pe byddai'n well gennych i'ch ymateb fod yn ddi-enw, ticiwch yma: ☐